

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru):**  
**Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1**

Tachwedd 2015

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff  
sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i  
gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl,  
i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn  
Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliad.cymru](http://www.cynulliad.cymru)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras,  
fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565

E-bost: [Seneddlechyd@cynulliad.cymru](mailto:Seneddlechyd@cynulliad.cymru)

Twitter: @Seneddlechyd

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag  
y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol.  
Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd  
a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru):**  
**Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1**

Tachwedd 2015

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Ei chylch gwaith yw archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion yn ymwneud â gwariant, gweinyddiaeth a pholisi sy'n cynnwys: iechyd corfforol, meddyliol a chyhoeddus pobl Cymru, gan gynnwys y system gofal cymdeithasol.

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**David Rees (Cadeirydd)**  
Llafur Cymru  
Aberafan



**Alun Davies**  
Llafur Cymru  
Blaenau Gwent



**John Griffiths**  
Llafur Cymru  
Dwyrain Casnewydd



**Altaf Hussain**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Gorllewin De Cymru



**Elin Jones**  
Plaid Cymru  
Ceredigion



**Darren Millar**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Gorllewin Clwyd



**Lynne Neagle**  
Llafur Cymru  
Torfaen



**Gwyn R Price**  
Llafur Cymru  
Islwyn



**Lindsay Whittle**  
Plaid Cymru  
Dwyrain De Cymru



**Kirsty Williams**  
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru  
Brycheiniog a Sir Faesyfed

## Cynnwys

---

|                                                                                                        |     |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----|
| Rhagair y Cadeirydd .....                                                                              | 6   |
| Argymhellion .....                                                                                     | 7   |
| 1. Cyflwyniad .....                                                                                    | 11  |
| 2. Cefndir .....                                                                                       | 14  |
| 3. Yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth .....                                         | 19  |
| 4. Rhan 2 – Pennod 1: Ysmygu a'r defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu<br>nicotin .....                      | 22  |
| 5. Rhan 2 – Darpariaethau eraill sy'n ymwneud â thybaco a<br>chynhyrchion nicotin .....                | 68  |
| 6. Rhan 3 – Triniaethau arbennig .....                                                                 | 83  |
| 7. Rhan 4 – Rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff .....                                               | 108 |
| 8. Rhan 5 – Gwasanaethau fferyllol .....                                                               | 115 |
| 9. Rhan 6 – Darparu toiledau .....                                                                     | 128 |
| 10. Materion heb eu cynnwys yn y Bil .....                                                             | 142 |
| Atodiad A – Gweithdrefnau yn ymwneud â thynnu yn ôl, diwygio a<br>chyflwyno Biliau'r Llywodraeth ..... | 150 |
| Atodiad B – Tystion .....                                                                              | 152 |
| Atodiad C – Tystiolaeth ysgrifenedig .....                                                             | 154 |
| Atodiad Ch – Gweithgarwch ymgysylltu .....                                                             | 159 |



## Rhagair y Cadeirydd

---


Mae mynd i'r afael â phryderon iechyd y cyhoedd pobl Cymru yn elfen bwysig o ddiogelu a gwella lles ein poblogaeth.

Hoffai Aelodau'r Pwyllgor ddiolch i bawb sydd wedi ein cynorthwyo wrth i ni drafod y Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru). Rydym yn arbennig o ddiolchgar i'r rhai sydd wedi rhoi o'u hamser i gyflwyno eu barn boed yn ysgrifenedig, trwy ddod i gyfarfod o'r Pwyllgor, drwy gwblhau ein harolwg cyhoeddus neu drwy roi tystiolaeth fideo. Mae nifer yr ymatebion a dderbyniwyd gennym, a lefel y drafodaeth gyhoeddus ynghylch y Bil hwn, yn dangos diddordeb y cyhoedd yn ei ddarpariaethau a phwysigrwydd gwaith craffu'r Pwyllgor o ran ei egwyddorion cyffredinol.

Mae'r Bil yn cynnwys ystod eang o bynciau, o driniaethau arbennig i roi twll mewn rhan bersonol o'r corff, toiledau cyhoeddus i wasanaethau fferyllol, a threfniadau o ran cynnyrch tybaco a nicotin. Er nad yw pob un o'r materion yr ydym wedi eu trafod wedi bod yn syml, rydym wedi bod yn glir o'r dechrau am yr angen i ystyried pob un ohonynt yn fanwl.

Mae'r dystiolaeth a glywsom a oedd yn ymwneud â'r rhan fwyaf o'r Bil yn glir: roedd darpariaethau mewn perthynas â thriniaethau arbennig, rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff, toiledau cyhoeddus a gwasanaethau fferyllol i'w croesawu'n gyffredinol fel cyfraniad cadarnhaol o ran gwella iechyd y cyhoedd ymhlith pobl Cymru. Roedd tystiolaeth ar y cynigion i gyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig yn fwy cymhleth, fodd bynnag, ac nid oeddem yn gallu cytuno ar farn gyffredin ar y darpariaethau hyn. Mae'r dystiolaeth a gawsom am y darpariaethau hyn, a'r darpariaethau eraill yn y Bil, wedi'i chrynhai yng nghorff yr adroddiad hwn, yn yr un modd â'n safbwyntiau mewn perthynas â phob un ohonynt.

Rydym yn gobeithio y bydd y casgliadau yr ydym wedi'u cyrraedd a'r argymhellion a wnaed gennym yn ddefnyddiol i Aelodau'r Cynulliad wrth iddynt ystyried eu barn ar egwyddorion cyffredinol y Bil.



**David Rees AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol  
Tachwedd 2015

## Argymhellion

---

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol weithio gydag awdurdodau lleol i fonitro llwyddiant y gwaith o gyflwyno'r cynllun trwyddedu o dan Ran 3 y Bil.

(Tudalen 92)

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Gweinidog lechyd a Gofal Cymdeithasol archwilio dichonolrwydd diwygio'r Bil i roi cyfrifoldeb ar Fyrddau lechyd Lleol i:

- gadw cofnod o unrhyw un sydd ag angen triniaeth feddygol o ganlyniad i gael triniaeth arbennig, yn unol â'r diffiniad yn y Bil; a
- hysbysu'r awdurdodau lleol o unrhyw ddigwyddiad o'r fath.

(Tudalen 92)

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ailystyried ychwanegu at y rhestr o driniaethau arbennig sy'n cael eu cynnwys ar wyneb y Bil yng ngoleuni'r dystiolaeth y mae wedi ei derbyn am y niweidiau posibl a all ddigwydd o ganlyniad i dechnegau addasu'r corff.

(Tudalen 97)

**Argymhelliad 4.** Yng ngoleuni'r oedi amlwg ar lefel y DU o ran gweithredu argymhellion Syr Bruce Keogh yn yr adolygiad o'r drefn ar gyfer rheoleiddio ymyriadau cosmetig (cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Ebrill 2013), mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol weithio gyda'r awdurdodau cyhoeddus a'r diwydiannau priodol i nodi triniaethau cosmetig anlwfeddygol i gael eu hychwanegu, trwy welliant, at y rhestr o driniaethau arbennig a gynhwysir yn y Bil.

(Tudalen 98)

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn sicrhau bod y cynllun trwyddedu gorfodol yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ddeilydd trwydded derbyn hyfforddiant ar gydymffurfio â gweithdrefnau hylendid, rheoliadau iechyd a diogelwch, darparu cyngor ar ôl-ofal, a rhoi cymorth cyntaf sylfaenol.

(Tudalen 102)

**Argymhelliad 6.** Roedd mwyafrif Aelodau'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol archwilio i weld a yw'n briodol creu trosedd ar wyneb y Bil o ran cyflawni triniaeth arbennig ar unigolyn sy'n feddw neu sydd fel arall yn methu â chydysynio i'r driniaeth.

(Tudalen 103)

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddiwygio'r Bil i gynyddu lefel y ddirwy a osodir ar unrhyw un sy'n cyflawni trosedd o dan adran 67 o'r Bil (mewn perthynas â thriniaethau arbennig) i ddirwy Lefel 5. (Tudalen 107)

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddiwygio'r Bil er mwyn cryfhau ac ehangu ar y darpariaethau sy'n ymwneud â chael tystiolaeth o oedran unigolion sydd am gael rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff. Mae'n argymhell bod y Gweinidog yn ehangu ar yr amddiffyniad sydd ar gael o dan adran 78 o'r Bil, fel ei fod yn adlewyrchu'r amddiffyniad yn adran 146 o Ddeddf Trwyddedu 2003 (h.y. yr amddiffyniad sy'n ymwneud â gwerthu alcohol i bobl dan 18 oed), sy'n nodi prif elfennau'r amddiffyniad, megis:

- credu bod yr unigolyn dros yr oedran perthnasol, a
- chymryd pob cam rhesymol i ddarganfod oedran unigolyn (fel gofyn am dystiolaeth o'i oedran, a bod y dystiolaeth honno'n argyhoeddiadol i berson rhesymol). (Tudalen 112)

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn bwrw ymlaen â'r bwriad a ddatganwyd ganddo i ddiwygio'r Bil i ychwanegu twll yn y tafod at y rhestr o driniaethau y gwaherddir iddynt gael eu cyflawni ar unrhyw un sy'n iau nag 16 oed. (Tudalen 113)

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn bwrw ymlaen â'r bwriad a ddatganwyd ganddo i sicrhau, mewn Memorandwm Esboniadol diwygiedig, bod y gwahaniaethau'n eglur rhwng y triniaethau y darperir ar eu cyfer yn y Bil hwn a throseddau o dan Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003. (Tudalen 114)

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyflwyno templed cenedlaethol ar gyfer yr asesiad o anghenion fferyllol er mwyn osgoi'r problemau yr hysbyswyd yn eu cylch yn Lloegr o ran amrywiadau yn yr asesiadau. (Tudalen 120)

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, wrth wneud rheoliadau'n ymwneud ag asesiadau o anghenion fferyllol o dan adran 89 o'r Bil, yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau lechyd roi ystyriaeth i'r effaith y gallai unrhyw asesiad o'r fath ei chael ar wasanaethau meddygon teulu yn yr ardal leol. (Tudalen 125)

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, wrth wneud rheoliadau a chanllawiau o dan Ran 5 o'r Bil (Gwasanaethau Fferyllol), yn gwneud proses symlach yn ofynnol ar gyfer adleoli fferyllfa mewn ardal. Dylai rheoliadau neu ganllawiau o'r fath hefyd nodi amserlenni penodedig ar gyfer gwneud penderfyniadau ar bob cais, gan gynnwys adleoliadau. (Tudalen 125)

**Argymhelliad 14.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei gwneud yn eglur sut y mae'n bwriadu rhoi sylw i bryderon Comisiynydd y Gymraeg o ran Rhan 5 o'r Bil (Gwasanaethau Fferyllol). (Tudalen 126)

**Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn diwygio'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi adroddiad cynnydd yn gyfnodol ar ddarpariaeth toiledau cyhoeddus, yn nodi sut y mae anghenion cymunedau'n cael eu diwallu. (Tudalen 132)

**Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn diwygio'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried dosbarthiad priodol cyfleusterau, a'r graddau y maent ar gael trwy gydol yr wythnos, wrth ddatblygu eu strategaethau fel bod toiledau cyhoeddus ar gael i bobl mewn ardaloedd trefol a gwledig, mannau twristiaeth poblogaidd ac yng nghyffiniau cefnffyrdd pryd bynnag a lle bynnag y mae eu hangen. (Tudalen 133)

**Argymhelliad 17.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn diwygio'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru fonitro i ba raddau y mae strategaethau toiledau lleol yn diwallu anghenion cenedlaethol, er mwyn osgoi'r perygl o ddarpariaeth wael ar safleoedd cenedlaethol ac ar brif goridorau trafnidiaeth. (Tudalen 134)

**Argymhelliad 18.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn diwygio'r Bil i gynnwys dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynyddu ymwybyddiaeth o gyfleusterau toiled trwy hyrwyddo'r ffaith eu bod ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio. Dylai hyn gynnwys diwygio'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau:

- bod busnesau preifat sy'n derbyn arian cyhoeddus yn cael eu hannog i agor eu cyfleusterau toiled i'r cyhoedd, a

- bod adeiladau a ariennir gan y cyhoedd, fel llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden, yn ei gwneud yn eglur bod eu cyfleusterau toiled ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio. (Tudalen 139)

**Argymhelliad 19.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn diwygio'r Bil i gynnwys gofyniad i gynnal asesiadau gorfodol o'r effaith ar iechyd wrth ddatblygu rhai polisïau, cynlluniau neu raglenni penodol. Er enghraifft, mae Cymdeithas Feddygol Prydain wedi awgrymu y dylai'r rhain gynnwys Cynlluniau Strategol a Datblygu Lleol, rhai ceisiadau cynllunio ar raddfa fwy, datblygiadau seilwaith trafnidiaeth newydd, deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, rhai cynlluniau statudol penodol fel Cynlluniau Llesiant Lleol, datblygiadau newydd gan y GIG a chynigion i ad-drefnu'r gwasanaeth iechyd. (Tudalen 145)

# 1. Cyflwyniad

---

1. Ar 8 Mehefin 2015, cyflwynodd Mark Drakeford AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ("y Gweinidog") [Fil Iechyd y Cyhoedd \(Cymru\)](#) ("y Bil") a [Memorandwm Esboniadol](#) i'w ganlyn, gan wneud [datganiad ar y Bil](#) mewn Cyfarfod Llawn ar 9 Mehefin 2015.
2. Yn ei gyfarfod ar 9 Mehefin 2015, cytunodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad i gyfeirio'r Bil i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ("y Pwyllgor") er mwyn iddo ystyried yr egwyddorion cyffredinol (Cyfnod 1), yn unol â Rheol Sefydlog 26.9. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor adrodd erbyn 27 Tachwedd 2015.<sup>1</sup>

## Cylch gorchwyl

3. Cytunodd y Pwyllgor ar y fframwaith a ganlyn ar gyfer craffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil:

Ystyried —

- Yr angen am ddeddfwriaeth yn y meysydd a ganlyn -
  - Gosod cyfyngiadau ar y defnydd o dybaco a dyfeisiau mewnanadlu nicotin - er enghraifft, sigaréts electronig - mewn mannau cyhoeddus a gweithleoedd caeedig a sylweddol gaeedig, a rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ymestyn y cyfyngiadau i fannau agored penodol;
  - Creu cofrestr genedlaethol o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin;
  - Rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ychwanegu at y troseddau sy'n cyfrannu at Orchymyn Mangre o dan Gyfyngiad yng Nghymru;
  - Gwahardd rhoi tybaco a/neu gynhyrchion nicotin i unigolyn o dan 18 oed;
  - Creu cynllun trwyddedu mandadol i ymarferwyr a busnesau sy'n cynnal "triniaethau arbennig" sef aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatwio;
  - Cyflwyno gwaharddiad ar roi twll mewn rhan bersonol o gorff unigolyn o dan 16 oed;

---

<sup>1</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Busnes, [Adroddiad ar yr amserlen ar gyfer ystyried Bil Iechyd y Cyhoedd \(Cymru\)](#), Mehefin 2015

- Newid y trefniadau ar gyfer penderfynu ar geisiadau i fod ar restr fferyllol Byrddau Iechyd, i system sy'n seiliedig ar anghenion fferyllol cymunedau lleol; ac
- Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi strategaeth leol i gynllunio sut y byddant yn diwallu anghenion eu cymunedau ar gyfer defnyddio cyfleusterau toiledau a fydd ar gael i'r cyhoedd.
- Unrhyw rwystr posibl rhag rhoi'r darpariaethau hyn ar waith ac a yw'r Bil yn eu hystyried;
- A oes unrhyw ganlyniad anfwriadol yn deillio o'r Bil;
- Goblygiadau ariannol y Bil (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol, - sef yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sy'n amcangyfrif y costau a'r buddiannau o roi'r Bil ar waith);
- Priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir ym Mhennod 5 Rhan 1 y Memorandwm Esboniadol, sy'n cynnwys tabl sy'n rhoi crynodeb o bwerau Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth); ac
- I ba raddau mae'r Bil yn adlewyrchu blaenoriaethau ar gyfer gwella iechyd y cyhoedd yng Nghymru.

## **Dull y Pwyllgor**

4. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan nifer o dystion. Mae rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar i'w gael yn Atodiad B. Yn ogystal, cyhoeddodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus a oedd yn gwahodd unrhyw un sydd â diddordeb yn narpariaethau'r Bil i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i lywio gwaith y Pwyllgor. Mae rhestr o'r 105 o ymatebion i'r ymgynghoriad yn Atodiad C. Roedd yr ymgynghoriad yn agored ar gyfer ymatebion rhwng 19 Mehefin a 4 Medi 2015.

5. Cynhaliodd y Pwyllgor arolwg cyhoeddus i gasglu barn y cyhoedd ar y Bil. Cafodd yr arolwg ei gynnal gan Dîm Allgymorth y Cynulliad mewn fformatau ar-lein ac ar bapur. Gofynnwyd amrediad o gwestiynau i gyfranogwyr ynghylch cyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig, cyflwyno cyfyngiad oedran ar roi twll mewn rhan bersonol o'r corff, darpariaethau toiledau cyhoeddus a gwasanaethau fferyllol. Roedd yr arolwg yn agored ar gyfer ymgynghori ac ymatebion rhwng 13 Gorffennaf a 4 Medi 2015.

6. Er nad oedd yr arolwg cyhoeddus yn cynrychioli sampl gwyddonol o'r boblogaeth, cynigiodd ddull ychwanegol i bobl Cymru roi eu barn ac i'r

Pwyllgor gael syniad o'r safbwyntiau hynny am y Bil. Mae [adroddiad cryno](#) o'r ymatebion a gafwyd i'r arolwg ar gael ar wefan y Pwyllgor.

7. Yn ogystal, casglodd y Pwyllgor [dystiolaeth fideo](#) gan y rhai sy'n gweithio fel tatwyddion, tyllwyr, aciwbigrwyr, ac ymarferwyr electrolysis a thriniaethau cosmetig heb lawdriniaeth ynghylch y darpariaethau sy'n ymwneud â thriniaethau arbennig yn Rhan 3 y Bil. Cafodd eu dystiolaeth ei ffilmio a'i gyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 17 Medi.

8. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ei waith.

### **Ystyriaeth Pwyllgorau eraill ar y Bil**

9. Cymerodd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad dystiolaeth gan y Gweinidog ar oblygiadau ariannol y Bil ar 15 Gorffennaf 2015. [Adroddodd](#) ar ei gasgliadau ym mis Medi 2015.<sup>2</sup>

10. Cymerodd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad dystiolaeth gan y Gweinidog ar 21 Medi 2015 ar ba mor briodol yw darpariaethau'r Bil sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth. Adroddodd ar ei gasgliadau ym mis Tachwedd 2015.<sup>3</sup>

---

<sup>2</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, [Adroddiad ar Fil lechyd y Cyhoedd \(Cymru\)](#), Medi 2015

<sup>3</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [Adroddiad ar Fil lechyd y Cyhoedd \(Cymru\)](#), Tachwedd 2015

## 2. Cefndir

---

### Cymhwysedd deddfwriaethol

11. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn datgan:

"Mae Adran 107 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad') wneud deddfau ar gyfer Cymru a elwir yn Ddeddfau'r Cynulliad.

"Mae adran 108 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu bod darpariaeth yn un o Ddeddfau'r Cynulliad o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad os yw'n ymwneud ag un neu fwy o'r pynciau a restrir o dan unrhyw un o'r penawdau yn Rhan 1 o Atodlen 1 o'r Ddeddf honno ac nad yw'n rhan o unrhyw un o'r eithriadau a restrir yn y Rhan honno o'r Atodlen (o dan y pennawd hwnnw neu o dan unrhyw un o'r penawdau hynny), ac nad yw'n gymwys heblaw mewn perthynas â Chymru nac yn rhoi, gosod, addasu neu ddileu (nac yn rhoi pŵer i roi, gosod, addasu neu ddileu) swyddogaethau y gellir eu harfer heblaw mewn perthynas â Chymru.

"Mae darpariaethau'r Bil yn ymwneud â'r pynciau a ganlyn:

Pwnc 9 'Iechyd a Gwasanaethau Iechyd':

**"Promotion of health. Prevention, treatment and alleviation of disease, illness, injury, disability and mental disorder. Control of disease. Family planning. Provision of health services, including medical, dental, ophthalmic, pharmaceutical and ancillary services and facilities. Clinical governance and standards of health care. Organisation and funding of national health service."**

Pwnc 12 'Llywodraeth Leol':

**"...Powers and duties of local authorities and their members and officers..."**

Pwnc 15 'Lles cymdeithasol':

**"...Protection and well-being of children (including adoption and fostering) and of young adults..."**

“Mae’r pynciau uchod yn rhoi cymhwysedd i’r Cynulliad Cenedlaethol wneud y darpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn y Bil. Mae Rhan 2 y Bil yn cynnwys darpariaethau sy’n dileu swyddogaethau cyn-gychwyn Gweinidog y Goron. Bydd y darpariaethau hynny o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad os yw’r Ysgrifennydd Gwladol yn cydsynio i’r darpariaethau o dan Ran 3 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.”

12. Cyhoeddodd y Llywydd y [datganiad](#) a ganlyn ar 8 Mehefin 2015:

Yn fy marn i:

- Mae’r rhan fwyaf o ddarpariaethau Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru), a gyflwynwyd ar 8 Mehefin 2015, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Nid yw adrannau 4(7), 5(6), a 11(7) a pharagraffau 6 a 9 o Atodlen 1 o fewn cymhwysedd. Y rheswm am hyn yw bod angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol er mwyn dod â’r darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac na chafwyd y cydsyniad angenrheidiol hyn yn hyn.

13. [Ysgrifennodd y Llywydd at y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2015](#) i ddarparu rhagor o fanylion am gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol a’r materion hawliau dynol a ystyriodd wrth benderfynu a oedd y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru a’i peidio.

14. Mewn perthynas â chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, esboniodd fod ei phenderfyniad yn gyson â phenderfyniadau blaenorol roedd wedi’u cymryd ynghylch a fyddai’r Bil o fewn cymhwysedd pe bai’n cael ei basio fel roedd wedi’i ddrafftio pan gafodd ei gyflwyno. [Ysgrifennodd y Gweinidog at y Pwyllgor ar 31 Hydref](#), yn cadarnhau fod Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi rhoi’r cydsyniad angenrheidiol ar gyfer yr adrannau hyn.

15. Yn ei llythyr at y Pwyllgor, esboniodd y Llywydd fod darpariaeth mewn Bil y tu allan i gymhwysedd y Cynulliad, o dan adran 108(6)(c) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, os yw’n anghydnaws â’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Gan fod y Bil yn cynnwys darpariaethau sy’n ymwneud ag ysmegu a defnyddio dyfeisiau anadlu nicotin yng nghyd-destun gweithle sydd hefyd gartref, yn ystod ei drafodaethau rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth ofalus i faterion Erthygl 8 y Confensiwn sy’n codi yn y cyd-destun hwnnw. Mae braslun o’r hawliau dynol y bu’r Pwyllgor yn eu hystyried yn fanwl ym mhennod 4.

## Diben ac effaith arfaethedig y Bil

### 16. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

"Mae Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) ('y Bil') yn defnyddio deddfwriaeth fel dull o wella ac amddiffyn iechyd a lles poblogaeth Cymru. Mae'n cynnwys cyfres o ddarpariaethau mewn meysydd annibynnol o bolisi iechyd y cyhoedd.

"Er bod nifer o'r materion a nodir yn y Bil wedi bod yn destun trafod ers cryn amser, mae'r Bil hefyd yn ymateb i heriau iechyd newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg. Gyda'i gilydd, y bwriad yw i'r darpariaethau fod o fudd cadarnhaol cronus i boblogaeth Cymru a cheisio sefydlu amgylchiadau sy'n ffafriol i iechyd da, ac a fydd yn caniatáu ar gyfer atal niwed i iechyd."<sup>4</sup>

### 17. Mae'r Bil yn cynnig cyflwyno newidiadau sy'n:

- gosod cyfyngiadau ar y defnydd o dybaco a dyfeisiau mewnanadlu nicotin er enghraifft sigaréts electronig mewn mannau cyhoeddus a gweithleoedd caeedig a sylweddol gaeedig, a rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ymestyn y cyfyngiadau i fannau agored penodol;
- darparu ar gyfer creu cofrestr genedlaethol o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin;
- rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ychwanegu at y troseddau sy'n cyfrannu at Orchymyn Mangre o dan Gyfyngiad yng Nghymru;
- gwahardd rhoi tybaco a/neu gynhyrchion nicotin i unigolyn o dan 18 oed;
- darparu ar gyfer creu cynllun trwyddedu mandadol i ymarferwyr a busnesau sy'n cynnal "triniaethau arbennig" sef aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatwio;
- cyflwyno gwaharddiad ar roi twll mewn rhan bersonol o gorff unigolyn o dan 16 oed;
- newid y trefniadau ar gyfer penderfynu ar geisiadau i fod ar restr fferyllol Byrddau Iechyd, i system sy'n seiliedig ar anghenion fferyllol cymunedau lleol;

---

<sup>4</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraffau 1 a 2

- ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi strategaeth leol i gynllunio sut y byddant yn diwallu anghenion eu cymunedau ar gyfer defnyddio cyfleusterau toiledau a fydd ar gael i'r cyhoedd.<sup>5</sup>

18. Yn ei ddatganiad llafar yn cyflwyno'r Bil, dywedodd y Gweinidog:

“Mae'r achos dros ddeddfwriaeth iechyd y cyhoedd yn dod yn fwyfwy eglur a thaer, wrth i ni wynebu heriau iechyd cynyddol gymhleth o ganlyniad i ddewisiadau ffordd o fyw a ffactorau amgylcheddol. Mae'n gyfrifoldeb sylfaenol ar y Llywodraeth, rwy'n credu, i ddefnyddio deddfwriaeth i'w heffaith lawn i greu amgylchedd sy'n hyrwyddo lles, yn atal salwch lle bynnag y bo modd, ac yn rhoi cyfleoedd newydd i bobl ofalu am a gwella eu hiechyd eu hunain.”<sup>6</sup>

### **Ymgynghori cyn y broses ddeddfu**

19. Cyflwynwyd y Bil yn dilyn dau gyfnod o ymgynghori gan Lywodraeth Cymru ynghylch deddfu i wella iechyd cyhoeddus pobl yng Nghymru.

### ***Ymgynghoriad i gasglu barn ynghylch a oes angen Bil Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru***

20. Ym mis Tachwedd 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyrdd yn ceisio barn ynghylch a oes angen Bil Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru, a rôl bosibl deddfwriaeth i ysgogi gwelliannau yn iechyd y boblogaeth.<sup>7</sup> Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y cafwyd 371 o ymatebion i'r Papur Gwyrdd a bod mwyafrif yr ymatebwyr yn credu y gallai deddfwriaeth gyfrannu at wella a diogelu iechyd. Dywedodd fod yr ymatebion yn dangos cefnogaeth i ddwy ffordd wahanol o ymdrin â deddfwriaeth iechyd y cyhoedd: y naill yn mynnu bod sefydliadau'n ystyried iechyd ar draws eu swyddogaethau; a'r llall yn canolbwyntio mwy ar geisio mynd i'r afael â phroblemau mwy penodol ym maes iechyd y cyhoedd.<sup>8</sup>

### ***Y Papur Gwyn ar Iechyd y Cyhoedd***

21. Roedd y Papur Gwyn dilynol, sef *Gwrando Arnoch: Mae eich iechyd yn bwysig* a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2014 yn cynnwys cwestiynau ymgynghori am fesurau iechyd y cyhoedd penodol, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u cynnwys yn y Bil hwn.<sup>9</sup> Mae'r Memorandwm Esboniadol yn

<sup>5</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 3

<sup>6</sup> Cofnod y Trafodion, Y Cyfarfod Llawn, 9 Mehefin 2015

<sup>7</sup> Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru - [\*Ymgynghoriad i gasglu barn ynghylch a oes angen Bil Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru\*](#) Tachwedd 2012

<sup>8</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 217

<sup>9</sup> Papur Gwyn Llywodraeth Cymru - [\*Gwrando Arnoch: Mae eich iechyd yn bwysig\*](#) Ebrill 2014

nodi bod 713 o ymatebion wedi dod i law yn dilyn yr ymgynghoriad ynghylch y Papur Gwyn a bod adroddiad cryno wedi'i gyhoeddi ym mis Tachwedd 2014.<sup>10</sup>

22. Dywed y Memorandwm Esboniadol fod yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth gyffredinol i'r syniad y gall deddfwriaeth wella a diogelu iechyd.<sup>11</sup> Mae'n dweud fod natur yr ymatebion i'r Papur Gwyn yn amrywio'n sylweddol; roedd rhai'n canolbwyntio ar faterion unigol ac eraill yn cynnig sylwadau manwl ar yr amrywiaeth lawn o gynigion. Mae'n dweud hefyd mai'r cynigion yn ymwneud â chyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig oedd wedi cael yr ymateb mwyaf rhanedig.<sup>12</sup>

---

<sup>10</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 224

<sup>11</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 225

<sup>12</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 226

### 3. Yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth

---

#### Barn gyffredinol yr ymgynghoreion

23. Cafodd y Pwyllgor 105 o ymatebion ysgrifenedig i'w ymgynghoriad a hynny gan unigolion a sefydliadau. Roedd safbwyntiau'r ymatebwyr ynghylch a oedd angen deddfwriaeth yn amrywio'n sylweddol. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu trafodaeth fanwl y Pwyllgor ar y dystiolaeth a gyflwynwyd ar lafar, yn ysgrifenedig a chan y rhai a gyflwynodd safbwyntiau drwy fideo a'r arolwg cyhoeddus.

24. Roedd cefnogaeth gyffredinol ymhlith yr ymatebwyr i'r darpariaethau'n ymwneud â thriniaethau arbennig, rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff, gwasanaethau fferyllol a darparu toiledau.

25. Roedd y rhai a gyflwynodd dystiolaeth i'r Pwyllgor yn gefnogol i'r cynigion i ddeddfu i gyflwyno system drwyddedu orfodol ar gyfer y triniaethau arbennig a nodwyd yn y Bil. Dywedodd Dr Fortune Ncube, ymgynghorydd epidemiologydd ac ymgynghorydd mewn meddygaeth ieuchyd y cyhoedd yn Iechyd Cyhoeddus Lloegr, fod y perygl i rywun ddal clefydau megis hepatitis B neu hepatitis C o ganlyniad i'r triniaethau dan sylw'n ddigon o gyfiawnhad dros ddeddfu yn y maes hwn.

26. Cafwyd cefnogaeth eang hefyd i'r cynnig i wahardd rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff neb o dan 16 oed. I ddangos pam roedd yn credu bod angen y Bil, cyfeiriodd Dr Quentin Sandifer, a oedd yn cynrychioli Iechyd Cyhoeddus Cymru, at ymarfer "edrych yn ôl" a gynhaliwyd yn ddiweddar yn ardal Gwent, ac a nododd fod nifer o unigolion o dan 16 oed wedi cael triniaeth i roi twll mewn rhan bersonol o'u cyrff.

27. Er nad oedd y dystiolaeth a gasglwyd ar wasanaethau fferyllol yn helaeth, dywedodd y rhan fwyaf o'r rhai a roddodd sylwadau ar yr adran hon eu bod yn cefnogi'r darpariaethau.

28. Yn gyffredinol, roedd y rhanddeiliaid yn croesawu'r darpariaethau yn y Bil i roi dyletswydd ar awdurdodau lleol i baratoi a chyhoeddi strategaethau toiledau lleol, er y gofynnodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a oedd angen gosod dyletswydd o'r fath.

29. Cafwyd safbwyntiau amrywiol ar y darpariaethau'n ymwneud â thybaco a chynhyrchion nicotin, yn arbennig y darpariaethau i gyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts yn mewn gweithleoedd a mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol

gaeedig. Roedd nifer o grwpiau, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus yn cynrychioli Byrddau Iechyd yn pryderu y gallai penderfyniad i beidio â chyfyngu ar y defnydd o e-sigarêts greu amgylchedd lle y caiff ysmegu ei normaleiddio eto ac y gallai annog pobl ifanc nad ydynt yn ysmegu i ddefnyddio'r cynhyrchion neu eu cymell i ddechrau ysmegu sigarêts tybaco. Ar y llaw arall, roedd sefydliadau eraill, gan gynnwys Cancer Research UK ac ASH Cymru, yn pryderu y byddai'r cynnig i gyfyngu ar y defnydd o e-sigarêts yn atal ysmygwyr presennol rhag defnyddio'r cynhyrchion hynny i'w cynorthwyo o roi'r gorau i ysmegu a, thrwy hynny, greu sefyllfa a allai fod yn niweidiol i iechyd pobl eraill.

30. Cafwyd sylwadau gwahanol mewn perthynas â chreu cofrestr o fanwerthwyr sy'n gwerthu cynhyrchion tybaco neu nicotin. Roedd rhai rhanddeiliaid, gan gynnwys Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru, o'r farn y byddai'r gofrestr yn helpu i nodi'r lleoedd hynny lle'r oedd cynhyrchion tybaco a nicotin yn cael eu gwerthu'n gyfreithlon, a byddai hynny, yn ei dro, yn helpu â'r gwaith gorfodi. Ar y llaw arall, dywedodd y Gymdeithas Siopau Cyfleustra bod angen gweithredu'r trefniadau gorfodi a chosbi presennol yn fwy trylwyr yn achos y rhai sy'n gwerthu tybaco'n anghyfreithlon.

### **Barn y Pwyllgor**

31. Wrth benderfynu ar egwyddorion cyffredinol y Bil, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth ofalus i'r dystiolaeth a gyflwynwyd iddo ar bob un o'r materion sydd wedi'u cynnwys yn y Bil.

32. Ar ôl ystyried yn ofalus, daeth y Pwyllgor i'r casgliad ei fod yn cefnogi'r darpariaethau i ddeddfu yn y rhan fwyaf o'r meysydd a nodir yn y Bil. Yr eithriad i hyn yw'r darpariaethau ym Mhennod 1 o Ran 2 sy'n ymwneud ag ysmegu a defnyddio dyfeisiau mewnanadlu nicotin.

33. Oherwydd natur y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor am effeithiau tymor hir defnyddio e-sigarêts, ni lwyddodd yr Aelodau i ddod i gytundeb cyffredinol ynghylch a ddylid cefnogi'r darpariaethau i gyfyngu ar y defnydd o e-sigarêts mewn mannau cyhoeddus a gweithleoedd caeedig a sylweddol gaeedig. Y rheswm am hyn oedd y gwahaniaeth barn ymhlith Aelodau o ran y darpariaethau hyn, a ph'un a oeddynt yn mynd yn groes i fwriad y Bil o wella iechyd y cyhoedd. Mae safbwyntiau manwl Aelodau'r Pwyllgor mewn perthynas â Phennod 1 o Ran 2 wedi'u hamlinellu ym mharagraffau 177 i 180 o'r adroddiad hwn.

34. Mae'r Pwyllgor wedi gwneud cyfres o argymhellion ac mae'n credu y byddant yn cryfhau'r darpariaethau yn y Bil os cânt eu rhoi ar waith.

## 4. Rhan 2 – Pennod 1: Ysmygu a'r defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin

---

35. Mae Pennod 1 o Ran 2 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig a gweithleoedd a rennir yn ddi-fwg ("mangreoedd ddi-fwg"). At ddibenion y Bennod hon o'r Bil, ystyr "di-fwg" yw na chaniateir ysmygu na'r defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin (sy'n cael eu hadnabod yn gyffredin fel "e-sigaréts"), oni bai bod rheoliadau a wnaed o dan adran 10 y Bil yn esemptio'r fangre.

36. Mae'r Bennod hon o'r Bil hefyd yn darparu ar gyfer gwneud rheoliadau sy'n darparu i fangreoedd ychwanegol fod yn ddi-fwg mewn rhai amgylchiadau. Nid fydd angen i'r mangreoedd di-fwg ychwanegol hyn fod yn gaeedig nac yn sylweddol gaeedig. Gall cerbydau hefyd fod yn ddi-fwg

37. Y bwriad a nodwyd gan Lywodraeth Cymru wrth gyflwyno'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud ag ysmygu a dyfeisiau mewnanadlu nicotin (e-sigaréts) yw:

“sicrhau bod y defnydd o e-sigaréts yn cyd-fynd â'r darpariaethau presennol ar ysmygu. O ganlyniad, bydd y defnydd o e-sigaréts yn cael ei wahardd mewn mannau cyhoeddus caeedig a gweithleoedd yng Nghymru heblaw bod esemptiad wedi ei ddarparu”.<sup>13</sup>

38. Mae Adran 2 o'r Bil yn diffinio ysmygu a dyfeisiau mewnanadlu nicotin fel:

- “Ysmygu”: ysmygu tybaco neu unrhyw beth sy'n cynnwys tybaco, neu at ysmygu unrhyw sylwedd arall; ac mae ysmygu yn cynnwys bod â meddiant ar dybaco sydd wedi ei danio neu ar unrhyw beth sydd wedi ei danio ac sy'n cynnwys tybaco, neu fod â meddiant ar unrhyw sylwedd arall sydd wedi ei danio ar ffurf y gellid ei ysmygu;
- “Dyfais mewnanadlu nicotin”: dyfais sy'n galluogi i nicotin gael ei fewnanadlu drwy getyn ceg (pa un a yw'r ddyfais hefyd yn galluogi i unrhyw sylwedd arall gael ei fewnanadlu ai peidio), ond nid ydynt yn cynnwys—
  - (a) dyfais y bwriedir ei defnyddio i gymryd tybaco sydd wedi ei danio;
  - (b) dyfais, neu ddisgrifiad o ddyfais, a bennir mewn rheoliadau;

---

<sup>13</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 49

- “Defnyddio dyfais nicotin anadlu”: defnyddio dyfais mewnanadlu nicotin i greu anwedd i’w fewnanadlu.

39. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai'r effaith y bwriedir i'r darpariaethau ei chael yw:

- cyfrannu at y gostyngiad parhaus yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n dechrau ysmegu;
- gweithio i sicrhau bod ysmegu'n parhau i ddod yn beth llai normal;
- cynorthwyo i ddiogelu plant a phobl ifanc rhag y perygl o fynd yn gaeth i nicotin a'r effaith y gall nicotin ei chael ar yr ymennydd wrth iddo ddatblygu;
- amddiffyn plant a phobl ifanc rhag unrhyw bosibilrwydd y gallai e-sigaréts arwain at ysmegu tybaco;
- cynnal ansawdd yr aer a geir mewn mannau cyhoeddus a gweithleoedd caeedig a sylweddol gaeedig yng Nghymru, oherwydd yr amgylchedd di-fwg presennol;
- sicrhau nad yw'r gwaith o orfodi Deddf Iechyd 2006 yn cael ei danseilio.<sup>14</sup>

40. Byddai'r darpariaethau a nodir yn y Bil yn cael eu cyflawni drwy ailddatgan ac ymestyn Pennod 1, Rhan 1 o Ddeddf Iechyd 2006, mewn perthynas â Chymru, fel bod y gofynion di-fwg yn berthnasol i'r defnydd o e-sigaréts yn ogystal â chynhyrchion tybaco. Felly, byddai'n drosedd i:

- ddefnyddio e-sigarét mewn man di-fwg; ac
- atal y defnydd o e-sigarét mewn man di-fwg.

41. Gall fod yn ofynnol i berson a geir yn euog o ysmegu tybaco neu ddefnyddio e-sigarét mewn man di-fwg neu mewn cerbyd di-fwg dalu dirwy, a hynny heb fod yn uwch na lefel 1 (sydd wedi ei phennu'n £200 ar hyn o bryd) ar y raddfa safonol. Bydd yn ofynnol i berson (er enghraifft, person sy'n rheoli'r fangre) a geir yn euog o fethu â chymryd camau rhesymol i atal ysmegu neu ddefnyddio e-sigarét ar fangre ddi-fwg dalu dirwy, a hynny heb fod yn uwch na lefel 4 (sydd wedi ei phennu'n £2,500 ar hyn o bryd) ar y raddfa safonol.

42. Byddai'n rhaid i berson sy'n meddiannu neu'n rheoli mangre sicrhau bod arwyddion 'di-fwg' yn cael eu harddangos yn y fangre honno. Gall fod yn ofynnol i berson a geir yn euog o fethu â chydymffurfio dalu dirwy, a hynny

---

<sup>14</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraffau 30-64

heb fod yn uwch na lefel 3 (sydd wedi ei phennu'n £1,000 ar hyn o bryd) ar y raddfa safonol.

43. Byddai'r Bil hefyd yn newid y gyfraith sy'n ymwneud â defnyddio sigarêts tybaco ac e-sigarêts yng nghartref preifat person sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio fel gweithle. Byddai'r Bil yn cyfyngu ar y defnydd o sigarêts tybaco ac e-sigarêts mewn unrhyw ran o annedd preifat yn ystod yr oriau y mae'r rhan honno yn cael ei defnyddio fel gweithle. Byddai'r Bil yn darparu y gallai Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddynodi awdurdodau gorfodi i orfodi darpariaethau'r Bennod hon ac y byddai'r awdurdodau gorfodi yn penodi swyddogion awdurdodedig. Byddai pwerau mynediad yn cael eu rhoi i swyddog awdurdodedig fynd i fangre (neu gerbyd) os credir bod trosedd wedi cael ei chyflawni neu'n cael ei chyflawni. Ni fyddai swyddogion awdurdodedig yn cael mynd i fangre trwy rym, nac yn cael mynd i fangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd, oni bai eu bod yn cael gwarant wedi'i lofnodi gan ynad heddwch. Byddai adran 12 y Bil yn gwneud y rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

44. Gofynnodd y Pwyllgor a fyddai darpariaethau'r Bil yn cyfyngu ar y defnydd o e-sigarêts di-nicotin. Yn ei ymateb, dywedodd y Gweinidog:

“Mae'r term ‘dyfais mewnanadlu nicotin’ (NID) yn cael ei ddefnyddio yn y Bil ac mae'n cael ei ddiffinio fel: “dyfais sy'n galluogi nicotin i gael ei fewnanadlu drwy getyn ceg (pa un a yw'r ddyfais hefyd yn galluogi unrhyw sylwedd arall gael ei fewnanadlu ai peidio)”. Felly, nid yw'r diffiniad yn cynnwys e-sigarêts heb nicotin oni bai y gallant hefyd gael eu defnyddio i fewnanadlu nicotin, er enghraifft drwy newid y getrisen wreiddiol â chetrisen sy'n cynnwys nicotin, neu drwy lenwi cetrissen neu danc â hylif sy'n cynnwys nicotin. Fel y cyfryw, byddai dyfeisiau a allai alluogi nicotin i gael ei fewnanadlu drwy getyn ceg yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau mewnanadlu nicotin mewn mannau cyhoeddus a gweithleoedd caeedig a sylweddol gaeedig.

“Mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar gyfer dyfeisiau eraill, neu ddisgrifiadau o ddyfais, i'w cynnwys ym Mhennod 1 o'r Bil, os ydynt yn fodlon bod hyn yn debygol o gyfrannu at hybu iechyd pobl Cymru. Gall dyfeisiau ychwanegol o'r fath alluogi nicotin i gael ei fewnanadlu ai peidio.

“Yn ôl y Datganiad o Fwriad y Polisi, nid oes bwriad ar hyn o bryd i ddefnyddio'r pwerau hyn mewn perthynas â dyfais benodol neu ddisgrifiad o ddyfais. Serch hynny, pe gwelid bod dyfeisiau

mewnanadlu heb nicotin nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y diffiniad o NID yn y Bil fel y'i cyflwynir yn tanseilio'r gofynion di-fwg a sefydlwyd gan y Bil, byddai'r pŵer hwn i wneud rheoliadau'n galluogi Gweinidogion Cymru i ymestyn y gofynion i gynnwys dyfeisiau o'r fath. Byddai unrhyw Reoliadau sy'n cael eu gwneud drwy ddefnyddio'r pwerau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, yn destun ymgynghoriad ac yn bwnc dadl mewn cyfarfod llawn.”<sup>15</sup>

### **Dull gweithredu rhagofalus**

45. Wrth amlinellu ei resymau dros gyflwyno'r darpariaethau sy'n ymwneud â dyfeisiau mewnanadlu nicotin ym Mhennod 1 y Bil, eglurodd y Gweinidog ei resymeg dros ddilyn dull gweithredu rhagofalus:

“When I am presented with two sets of evidence, one that says harm may not happen, and one that says harm may happen, then I think it's my responsibility to act on the precautionary principle and to take seriously the evidence that says that harm may happen and to act in a way that would [...] reduce the risk of that harm. [...] My job is to balance the evidence. E-cigarettes are a very new phenomenon. We won't have definitive evidence for many years to come. What I don't think we ought to be prepared to do as a committee or as a National Assembly is to take the risk that, in 10 years' time, we will look back and say how much we wished we had acted then, before the harm had occurred.”<sup>16</sup>

46. Mae nifer o dystion, gan gynnwys BMA Cymru, Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn cefnogi'r farn y byddai dull gweithredu rhagofalus yn fuddiol. Dywedodd Julie Bishop, yn cynrychioli lechyd Cyhoeddus Cymru, wrth y Pwyllgor:

“We cannot sit around and wait a couple of decades to see whether or not the conclusive evidence that people might like to see is available before making a judgement.”<sup>17</sup>

47. Dywedodd Cyfarwyddwyr lechyd y Cyhoedd yn cynrychioli Byrddau lechyd:

“We strongly advocate the precautionary principle where there is a sound theoretical argument to support a risk to public health. It is

---

<sup>15</sup> PHB AI 10 Y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - 10 Tachwedd 2015

<sup>16</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 109], 1 Gorffennaf 2015

<sup>17</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 95], 9 Gorffennaf 2015

important not to wait for confirmation of harm before taking action.”<sup>18</sup>

48. I'r gwrthwyneb, galwodd tystion fel Coleg Brenhinol y Meddygon, ASH Cymru a Gofal Canser Tenovus am ragor o dystiolaeth am effeithiau hirdymor e-sigaréts cyn deddfu yn y modd a gynigir yn y Bil. Dadleuodd yr Athro Linda Bauld, yn siarad ar ran Cancer Research UK:

“The risk is that we will overregulate. [The restriction on e-cigarettes in public places] is not an evidence-based measure; it sends a message that these products are as harmful as smoking and should be treated in the same way as tobacco, and they are not tobacco and they need to be dealt with differently.”<sup>19</sup>

49. Mynegodd y Ganolfan Ymchwilio i Gamddefnyddio Cyffuriau safbwynt tebyg:

“Banning the use of electronic cigarettes in enclosed public spaces would [...] be an excessive regulation predicated on the precautionary principle that it is better to ban a substance that has not been shown to pose no health harm than to wait until such health harm is evident before initiating such a ban. Whilst there may be a case in some areas of public health to act in accordance with this principle the decision to do so where the act being banned may be associated with other benefits in reducing harm is much less persuasive. If a ban on the use of electronic cigarettes reduced the use of those cigarettes by smokers then one would in effect have prioritised a theoretical possible risk over a known health benefit (of stopping smoking).”<sup>20</sup>

50. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Sefydliad Prydeinig y Galon mai ei farn oedd y gallai cynigion y Bil gael effaith niweidiol ar iechyd y cyhoedd mewn gwirionedd:

“Cigarettes kill one in two of their long-term users. A smoker switching from cigarettes to e-cigarettes is moving from a more to a less risky behaviour and it is wrong to seek to discourage this. While there remain considerable uncertainties around these products and caution must be exercised in monitoring and regulating them, it is heavy handed and not evidence based to seek to regulate them as if they were cigarettes. As such, we believe that these proposals will not

---

<sup>18</sup> PHB 02 Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd ar ran Byrddau Iechyd yng Nghymru

<sup>19</sup> Cofnod y Trafodion [pagraff 166], 1 Hydref 2015

<sup>20</sup> PHB 62 Y Ganolfan Ymchwilio i Gamddefnyddio Cyffuriau

improve public health in Wales and may, in fact, have the potential to damage it. We would urge the Welsh Government to reconsider its approach.”<sup>21</sup>

51. Nododd ASH Cymru:

“To be precautionary it is necessary to take all effects into account of both over regulating and under regulating. It could be equally argued that under regulation is a precautionary approach for instance.”

52. Mae canlyniadau'r arolwg cyhoeddus a gynhaliwyd gan y Pwyllgor fel rhan o'i waith ymgysylltu â'r cyhoedd yn dangos, o'r rhai a ymatebodd, bod 42.85 y cant yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y dylid gwahardd y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus dan do a gweithleoedd, tra bod 54.24 y cant yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.<sup>22</sup>

53. Roedd y Memorandwm Esboniadol a thystiolaeth y Gweinidog yn cydnabod bod yna amrywiaeth barn, cymhlethdod a gwrthdaro ynghylch cyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig a gweithleoedd, a bod diffyg tystiolaeth bendant ar effeithiau tymor hwy y defnydd helaeth o e-sigaréts:<sup>23</sup>

“Mae e-sigaréts yn gynnrych cymharol newydd ac felly nid ydym yn gwybod ar hyn o bryd beth fydd yr effeithiau hirdymor o ganlyniad i'w defnyddio, ac mae astudiaethau ar eu heffeithiau ar ieched yn cael eu cyhoeddi'n barhaus. Mae nifer o astudiaethau sy'n rhoi safbwyntiau cyferbyniol am ddiogelwch a manteision ieched i'r defnyddiwr ac i bobl gerllaw.”<sup>24</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

54. Ni ddaeth y Pwyllgor i gytundeb ynghylch a yw'n credu bod y dull gweithredu rhagofalus a amlinellwyd gan y Gweinidog yn sail ddigonol i ddeddfu i gyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts.

55. Mae rhai Aelodau yn credu bod y dull gweithredu'n briodol o ystyried y pryderon a fynegwyd gan rai tystion am effaith y defnydd o e-sigaréts ar ieched y cyhoedd yn yr hirdymor, gan gynnwys a allai'r defnydd ohonynt wneud i ysmegu tybaco ddod yn beth normal eto, bod yn fan cychwyn i fynd

---

<sup>21</sup> PHB 101 Sefydliad Prydeinig y Galon

<sup>22</sup> Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Crynodeb o ganlyniadau arolwg y cyhoedd](#), Medi 2015

<sup>23</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 109], 1 Gorffennaf 2015

<sup>24</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 43

ymlaen i ysmegu tybaco neu achosi anawsterau o ran gorfodi deddfwriaeth ddi-fwg. Mae'r Aelodau hynny yn tynnu sylw at y ffaith ei bod wedi cymryd sawl degawd i ddeall yn llawn y goblygiadau iechyd o ysmegu sigarêts tybaco, a'u bod yn credu y gallai bod yn rhagofalus o safbwynt e-sigarêts nawr lleihau'r effeithiau niweidiol posibl o'u defnydd os byddant yn dod yn amlwg yn y dyfodol.

56. Mae'r Pwyllgor yn credu bod gan e-sigarêts rôl bwysig i'w chwarae o ran helpu ysmygwyr i leihau eu defnydd o sigarêts tybaco neu roi'r gorau iddynt yn llwyr, gyda'r potensial, felly, i sicrhau budd sylweddol i iechyd y cyhoedd. Mae rhai Aelodau'n<sup>25</sup> credu bod y budd hwn yn bwysicach na'r pryderon am y risg posibl o niwed yn y dyfodol, o ystyried y diffyg tystiolaeth wyddonol i gadarnhau pryderon o'r fath. Maent yn credu y gallai'r cyfyngiad arfaethedig atal ysmygwyr rhag disodli gweithgaredd y mae'n hysbys ei fod yn achosi niwed mawr gyda gweithgaredd y mae'r dystiolaeth gyfredol yn dangos sydd gryn dipyn yn llai niweidiol. Mae'r Aelodau hynny yn credu, mewn perthynas ag e-sigarêts, mai'r dull gweithredu rhagofalus fyddai peidio â chyfyngu ar eu defnydd – maent yn credu y gallai cyfyngiad o'r fath achosi mwy o niwed i iechyd y cyhoedd mewn gwirionedd gan y byddai iddo'r potensial i annog ysmygwyr i beidio â defnyddio e-sigarêts yn lle sigarêts tybaco.

57. Mae'r Pwyllgor yn deall bod y Bil yn diffinio dyfais mewnanadlu nicotin fel “dyfais sy'n galluogi i nicotin gael ei fewnanadlu drwy getyn ceg”, ac y byddai gan Weinidogion Cymru y pŵer i wneud rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol i esemptio dyfais neu ddisgrifiad o ddyfais o'r diffiniad hwnnw. Er ei fod yn cydnabod bod Datganiad o Fwriad Polisi Llywodraeth Cymru yn nodi y gellid defnyddio'r pŵer hwn i esemptio dyfais os nad yw ei ddefnydd mewn man cyhoeddus yn tanseilio'r rhesymeg polisi sydd wrth wraidd y darpariaethau, byddai'r Pwyllgor yn bryderus pe na byddai esemptiad o'r fath yn cael ei roi i ddyfeisiau a roddwyd ar bresgripsiwn meddygol i'w defnyddio fel dull o gynorthwyo'r defnyddiwr i roi'r gorau i ysmegu.

### **Ailnormaleiddio ysmegu, e-sigarêts fel man cychwyn a gorfodi'r gwaharddiad**

58. Eglurodd y Gweinidog i'r Pwyllgor mai ei resymau dros gyflwyno'r darpariaethau yn y Bil hwn oedd:

- gweithio i sicrhau nad yw ysmegu'n dod yn beth normal eto;
- atal unrhyw bosibilrwydd y gallai e-sigarêts arwain at ysmegu tybaco; a

---

<sup>25</sup> Altaf Hussain AC, Darren Millar AC, Lindsay Whittle AC a Kirsty Williams AC

- chynorthwyo wrth orfodi gofynion mangreuedd di-fwg.<sup>26</sup>

### ***Ailnormaleiddio ysmegu***

59. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan mai un o "anfanteision posibl" y cynnydd yn y defnydd o e-sigaréts yw bod ysmegu yn dod yn beth normal eto mewn mannau lle mae ysmegu bellach yn beth anghyfarwydd. Mae'n nodi nad yw e-sigaréts wedi bod ar y farchnad yn ddigon hir i dystiolaeth bendant fod ar gael ynghylch a yw ysmegu yn dod yn beth normal eto, ond mae'n cyfeirio at astudiaeth sy'n awgrymu, o ganlyniad i'r ffaith bod e-sigaréts yn edrych yn debyg ac yn cael eu defnyddio mewn ffordd debyg i sigaréts tybaco, "ei bod yn bosibl i e-sigaréts hybu ysmegu'n anfwriadol".<sup>27</sup>

60. Roedd amrywiaeth barn ymysg y rhai a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor ynghylch a yw'r defnydd o e-sigaréts yn gwneud i ysmegu ddod yn beth normal eto.

61. Dywedodd Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, yn cynrychioli Byrddau Iechyd, fod y defnydd o e-sigaréts yn debygol iawn o wneud i ymddygiad ysmegu ddod yn beth normal eto a thanseilio'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn o safbwynt iechyd y cyhoedd. Roeddent yn credu y byddai caniatáu'r defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig yn cyfleu negeseuon cymysg i'r cyhoedd am ba mor dderbyniol yw ysmegu.<sup>28</sup> Roedd Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru yn rhannu'r farn hon:

"Anything that has the appearance of smoking helps 'normalise' smoking and therefore promotes smoking behaviour and culture".<sup>29</sup>

62. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, pwysleisiodd BMA Cymru yr angen am fframwaith rheoleiddio cryf i sicrhau nad yw'r defnydd o e-sigaréts yn tanseilio gwaith atal ysmegu a rhoi'r gorau drwy wneud i ysmegu ddod yn beth normal eto.<sup>30</sup>

63. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru y gallai'r defnydd o e-sigaréts yn gyhoeddus ddylanwadu ar blant i efelychu ymddygiadau ysmegu oedolion. Yn ei thystiolaeth lafar, dywedodd Dr Julie Bishop ar ran Iechyd Cyhoeddus Cymru nad oedd unrhyw dystiolaeth y

---

<sup>26</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 128], 1 Gorffennaf 2015

<sup>27</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 54

<sup>28</sup> PHB 02 Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd ar ran Byrddau Iechyd yng Nghymru

<sup>29</sup> PHB 04 Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd

<sup>30</sup> PHB 76 BMA Cymru

byddai plant a phobl ifanc yn gallu gwahaniaethu yn ddigonol rhwng e-sigarét a sigarét tybaco, yn enwedig o bell.<sup>31</sup>

64. Dywedodd Julie Barratt, yn cynrychioli Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, wrth y Pwyllgor fod angen mwy o dystiolaeth i allu barnu a fyddai'r defnydd o e-sigaréts yn arwain at wneud ysmegu yn normal eto. Dywedodd y byddai'n bwysig olrhain y bobl ifanc hynny sydd wedi dod i gysylltiad ag e-sigaréts o oedran ifanc i weld a yw wedi dylanwadu ar eu hymddygiad tuag at ysmegu sigaréts neu'r defnydd o e-sigaréts yn eu harddegau ac yn oedolion.<sup>32</sup>

65. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd ASH Cymru mai ychydig iawn o waith ymchwil a wnaed ar y canfyddiad o e-sigaréts i gadarnhau'r dadleuon y gallai eu defnyddio arwain at wneud ysmegu yn normal eto. Dywedodd fod y datblygiadau yn nyluniad e-sigaréts yn golygu bod y dyfeisiau diweddaraf yn edrych yn fwy tebyg i ysgrifbin na sigarét tybaco, a bod y ffaith na cheir llwch nac arogl unigryw sigaréts yn golygu bod modd gwahaniaethu rhyngddynt. Yn ei dystiolaeth lafar, cyfeiriodd Dr Steven Macey, yn cynrychioli ASH Cymru, at ostyngiad o dri y cant mewn lefelau ysmegu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf; er ei fod yn cydnabod bod modd priodoli'r gostyngiad i nifer o ffactorau, nododd fod ASH yn credu bod e-sigaréts wedi chwarae rôl.<sup>33</sup>

66. Cydnabu Cancer Research UK y pryder y gallai ymddygiadau newydd sy'n efelychu ysmegu danseilio'r gwaith i wneud ysmegu yn beth llai normal. Fodd bynnag, dywedodd mai prin iawn yw'r dystiolaeth i gefnogi'r farn hon:

“It is equally fair to argue that the converse could be true and e-cigarettes could normalise quitting and moving away from tobacco, though again there is insufficient evidence to say which way this would go”.<sup>34</sup>

67. Cytunodd Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd nad oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod defnyddio e-sigaréts yn gwneud i ymddygiad ysmegu mewn mannau di-fwg ddod yn beth normal eto.<sup>35</sup>

68. Dywedodd Gofal Cancer Tenovus wrth y Pwyllgor:

---

<sup>31</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 97], 9 Gorffennaf 2015

<sup>32</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 59], 15 Gorffennaf 2015

<sup>33</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 98], 1 Hydref 2015

<sup>34</sup> PHB 43 Cancer Research UK

<sup>35</sup> PHB 01 Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd

“Tenovus Cancer Care has closely examined the development of evidence around electronic cigarettes over the past two years. Whilst we understand the concerns highlighted around re-normalisation and the introduction of younger generations to nicotine addiction, in our view the evidence in support of the restrictions in enclosed spaces is so far not enough to justify legislation at this time”.<sup>36</sup>

69. Tynnodd Cancer Research UK sylw at y ffaith fod angen rhagor o ymchwil er mwyn deall sut y mae cysylltiad ag e-sigaréts yn effeithio ar agweddau tuag at ysmegu sigaréts tybaco ymysg ysmygwyr a phobl nad ydynt yn ysmegu.<sup>37</sup>

70. Nododd adolygiad annibynnol o'r dystiolaeth mewn perthynas â defnyddio e-sigaréts, a gomisiynwyd gan Public Health England ac a gyhoeddwyd ym mis Awst 2015, fod y lefel o ysmygwyr wedi gostwng ers cyflwyno e-sigaréts i'r farchnad. Daeth i'r casgliad:

“There is no evidence to date that EC [e-cigarettes] are renormalising smoking, instead it's possible that their presence has contributed to further declines in smoking, or denormalisation of smoking”.<sup>38</sup>

71. Roedd eraill<sup>39</sup> a ymatebodd i'r ymgynghoriad ysgrifenedig yn dadlau yn erbyn yr honiad bod y defnydd o e-sigaréts yn gwneud ysmegu yn beth normal eto, gan nodi bod y cynnydd yn eu defnydd yn arwain at wneud y defnydd o e-sigaréts, neu beidio ag ysmegu, yn bethau normal.

72. Mewn ymateb i'r cwestiwn a ofynnwyd yn arolwg cyhoeddus y Pwyllgor ynghylch a yw'r defnydd o e-sigaréts mewn mannau di-fwg yn hyrwyddo ysmegu tybaco neu'n gwneud iddo ymddangos yn normal, roedd 60.3 y cant yn credu nad yw hyn yn wir, a 35 y cant yn credu bod hyn yn wir.<sup>40</sup>

---

<sup>36</sup> PHB 96 Gofal Canser Tenovus

<sup>37</sup> PHB 43 Cancer Research UK

<sup>38</sup> [\*E-cigarettes: an evidence update Adroddiad a gomisiynwyd gan Public Health England\*](#), Awst 2015

<sup>39</sup> PHB 09 Abigail Cottrill, PHB 18 Gordon Beard, PHB 22 Decadent Vapours Ltd, PHB 24 Rhydian Mann, PHB 37 Robert Heyes, PHB 45 Margaret Hermon, PHB 50 Cymdeithas Fasnach y Diwydiant Sigaréts Electronig, PHB 61 Cynghair Newydd y DU ar Nicotin, PHB 62 Y Ganolfan ar gyfer Ymchwil Camddefnyddio Cyffuriau, PHB 68 Martin Hensman LLB (Anrhydedd) a PHB 72 Totally Wicked Ltd

<sup>40</sup> Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [\*Crynodeb o ganlyniadau arolwg y cyhoedd\*](#), Medi 2015

## ***Barn y Pwyllgor***

73. Mae'r Pwyllgor yn canmol yr ymdrechion a wnaed i leihau'r lefel o ysmegu dros y blynyddoedd diwethaf, a byddai'n pryderu am unrhyw beth a allai danseilio'r cynnydd hwnnw.

74. Mae'r mwyafrif o Aelodau'r Pwyllgor yn rhannu'r pryderon a nodwyd gan rai rhanddeiliaid y gallai caniatáu'r defnydd o e-sigaréts mewn mannau lle ceir cyfyngiad ar ysmegu arwain at wneud gweithgaredd nad yw, gan fwyaf, bellach yn dderbyniol yn gymdeithasol yn normal eto, yn enwedig gan fod y weithred o ddefnyddio e-sigarét yn debyg i ysmegu sigarét tybaco. Mae'r Aelodau hynny'n cydnabod bod y dystiolaeth sy'n gwneud cysylltiad rhwng e-sigaréts a gwneud ysmegu yn normal eto yn brin o hyd, nad yw'r rhan fwyaf o'r genhedlaeth newydd o e-sigaréts yn edrych yn debyg i sigaréts tybaco, ac nad ydynt yn cynhyrchu'r un arogl na gwastraff. Serch hynny, maent yn pryderu y gallai defnydd cynyddol o e-sigaréts arwain at sefyllfa lle mae ymddygiad ysmegu yn dod yn normal eto.

75. Mae lleiafrif o Aelodau'r Pwyllgor<sup>41</sup> yn credu bod y diffyg tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor i gadarnhau'r awgrym y gallai e-sigaréts gyfrannu at wneud ysmegu tybaco yn beth normal eto yn rheswm digonol dros beidio â chyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts ar hyn o bryd. Mae'r Aelodau hynny hefyd yn credu y gallai caniatáu'r defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin y gellir ond eu defnyddio i fewnanadlu hylifau nad ydynt yn cynnwys nicotin mewn mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig danseilio'r ddadl bod darpariaethau'r Bil yn ceisio atal gwneud ysmegu yn beth normal eto.

## ***E-sigaréts fel man cychwyn***

76. Nododd y Gweinidog mai'r potensial i e-sigaréts fod yn fan cychwyn i fynd ymlaen i ysmegu sigaréts tybaco, yn enwedig ymhlith pobl ifanc, oedd un o'r prif resymau dros gyflwyno cynigion i gyfyngu ar eu defnydd mewn mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig.<sup>42</sup> Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

"Mae e-sigaréts yn cael eu defnyddio gan bobl ifanc yn eu harddegau, gan gynnwys y rhai hynny nad ydynt erioed wedi ysmegu, ond ar hyn o bryd ychydig o'r rhai hynny sy'n rhoi cynnig arnynt sy'n dod yn ddefnyddwyr rheolaidd. Ar sail data o UDA mae'n rhesymol credu y bydd mwy o bobl ifanc, hyd yn oed rhai nad ydynt yn ysmegu, yn

<sup>41</sup> Altaf Hussain AC, Darren Millar AC, Lindsay Whittle AC a Kirsty Williams AC

<sup>42</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 128], 1 Gorffennaf 2015 a Chofnod y Trafodion [paragraff 119], 21 Hydref 2015

dechrau eu defnyddio. Darganfu adroddiad CHETS Cymru 2 fod rhywfaint o awgrym y gallai fod cysylltiad rhwng defnyddio e-sigarêts a theimladau gwrth-ysmygu gwannach. Yn benodol:

- O blith y plant nad oedd yn ysmygu ac a ddywedodd eu bod wedi defnyddio e-sigarét, dywedodd 14% y byddent efallai'n dechrau ysmygu yn y ddwy flynedd nesaf (o'i gymharu â 2% o'r rhai nad oedd wedi defnyddio e-sigarét); ac
- Er mai ychydig o blant a ddywedodd y byddent yn dechrau ysmygu o fewn dwy flynedd, roedd plant a oedd wedi defnyddio e-sigarét gryn dipyn yn llai tebygol o ddweud yn sicr na fyddent yn ysmygu, ac yn fwy tebygol o ddweud y byddent yn ysmygu efallai.

"Mae'r ystyriaeth o'r data hyn yn codi pryderon y gallai e-sigarêts fod yn fan cychwyn a fydd yn arwain pobl i fod yn gaeth i nicotin ac ysmygu tybaco, yn ogystal â gwneud ysmygu'n beth normal eto."<sup>43</sup>

77. Roedd Dr Sara Hayes, Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, yn credu bod cyfyngu ar y defnydd o e-sigarêts yn yr un ffordd â sigarêts tybaco yn bwysig i atal pobl ifanc rhag dechrau eu defnyddio. Dywedodd ei bod yn croesawu'r gostyngiad mewn ysmygu ymhlith pobl ifanc, ond y gallai llaesu dwylo arwain at gynnydd yn y defnydd o e-sigarêts yn digwydd yn lle'r gostyngiad hwn.<sup>44</sup>

78. Dywedodd Cyfadran Iechyd y Cyhoedd ei bod yn cefnogi'r cynigion i reoleiddio'r defnydd o e-sigarêts, yn enwedig oherwydd pryderon ynghylch y posibilrwydd iddynt fod yn fan cychwyn. Yn ei llythyr gwybodaeth ychwanegol dyddiedig 1 Hydref, dywedodd:

"Will marketing, role models and peer pressure result in children commencing eCigs who would otherwise not? The answer is yes; it is clearly not zero."<sup>45</sup>

79. Ar y llaw arall, dywedodd ASH Cymru wrth y Pwyllgor, er bod niferoedd isel o bobl ifanc yn arbrofi ag e-sigarêts, nad yw'r dystiolaeth gyfredol yn dangos:

- bod arbrofi ymhlith pobl ifanc yn arwain at ddefnydd hirdymor o e-sigarêts; na

---

<sup>43</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 55

<sup>44</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 237], 9 Gorffennaf 2015

<sup>45</sup> PHB AI 05 Cyfadran Iechyd y Cyhoedd y DU

- bod y defnydd o e-sigaréts ymhlith pobl ifanc yn fan cychwyn ar gyfer mynd ymlaen i ysmegu sigaréts tybaco.<sup>46</sup>

80. Hefyd, cyfeiriodd ASH Cymru at arolwg y cynhaliodd yn ddiweddar ymhlith pobl ifanc yng Nghymru oedd yn dangos:

- bod y defnydd rheolaidd o e-sigaréts gan bobl sydd 'byth yn ysmegu' yn 'eithriadol o fach', ar 0.16 y cant; ac
- o'r rhai a oedd yn nodi eu bod wedi defnyddio e-sigaréts a sigaréts tybaco, bod 98 y cant ohonynt wedi defnyddio sigaréts tybaco yn gyntaf.<sup>47</sup>

81. Daeth ASH Cymru i'r casgliad, o'r dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, fod mwyafrif y data yn dangos mai'r rhan fwyaf o bobl ifanc sy'n defnyddio e-sigaréts yn rheolaidd yw'r rhai sy'n ysmegu nawr neu'n arfer ysmegu. Fodd bynnag, mae'n cydnabod bod angen parhau i fonitro'r sefyllfa a chasglu mwy o dystiolaeth.<sup>48</sup>

82. Yn ystod y sesiynau tystiolaeth, cyfeiriodd rhai o Aelodau'r Pwyllgor at astudiaeth a gyhoeddwyd yn rhifyn 18 Awst 2015 o'r Journal of the American Medical Association Paediatrics, oedd yn nodi cysylltiad posibl rhwng e-sigaréts a chychwyn defnyddio tybaco. Canfu'r astudiaeth:

"Among high school students in Los Angeles, those who had ever used e-cigarettes at baseline compared with nonusers were more likely to report initiation of combustible tobacco use over the next year. Further research is needed to understand whether this association may be causal."<sup>49</sup>

83. Mewn ymateb i gwestiynau am yr astudiaeth, dywedodd yr Athro Linda Bauld, yn cynrychioli Cancer Research UK:

"I've not only looked carefully at that study, I also know the authors, and I work with them as an editor of the journal *Nicotine and Tobacco Research*, and Adam Leventhal, who is the lead author on that study, himself would say that there is no proof of causality [...] The measure of use in that study is just having tried an e-cigarette at least once, and then 12 months later, just over 200 of them went on to try a

<sup>46</sup> Cofnod y Trafodion [pargraff 4], 1 Hydref 2015

<sup>47</sup> PHB 48 ASH Cymru a Chofnod y Trafodion [pargraff 22], 1 Hydref 2015

<sup>48</sup> PHB 48 ASH Cymru

<sup>49</sup> Primack, B.A., Soneji, S., Stoolmiller, M., Fine, M.J. a Sargent, J.D., (2015) [\*Progression to Traditional Cigarette Smoking After Electronic Cigarette Use Among US Adolescents and Young Adults\*](#), JAMA, 169(11), tudalennau 1018-1023

cigarette at least once. Those are very weak measures of use [...] I don't think that the evidence in that study points to a gateway effect. I would say that we do need to keep track of all these studies and look at them in detail, but I'm not persuaded that that single study is a cause for concern that experimenting or trying an e-cigarette means you will become a smoker.”<sup>50</sup>

84. Dywedodd yr Athro Peter Hajek, yn cynrychioli Canolfan y DU ar gyfer Astudiaethau Tybaco ac Alcohol a chyd-awdur yr adroddiad *E-cigarettes: an evidence update* a gomisiynwyd gan Public Health England, fod y data a ddefnyddir mewn rhai astudiaethau yn ymchwilio i'r defnydd o e-sigarêts yn aml yn cael eu camddehongli yn ei farn ef.<sup>51</sup>

“some studies would label anybody who once tried an e-cigarette as a user, and if they tried an e-cigarette within 30 days, they would label them a current user, which of course makes no sense, because a current smoker is somebody who smokes daily, not somebody who tried a cigarette three weeks ago.”<sup>52</sup>

85. Mewn ymateb i gwestiwn yn arolwg cyhoeddus y Pwyllgor ynghylch a yw e-sigarêts yn apelio at bobl ifanc, ac y gallent arwain at fwy o bobl ifanc yn eu defnyddio neu'n eu hannog i ysmegu cynhyrchion tybaco, roedd 36.87 y cant yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y gallent, ac roedd 54.58 y cant yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf y gallent.<sup>53</sup>

86. Roedd cynrychiolwyr o ASH Cymru,<sup>54</sup> yr Athro John Britton, ymgynghorydd mewn meddygaeth anadlol ym Mhrifysgol Nottingham ac Ysbyty Dinas Nottingham a Chyfarwyddwr Canolfan y DU ar gyfer Astudiaethau Tybaco ac Alcohol,<sup>55</sup> a'r Athro Hajek<sup>56</sup>, yn pwysleisio pa mor bwysig yw parhau i fonitro a chynnal ymchwil i gasglu tystiolaeth ynghylch a yw defnyddio e-sigarêts yn fan cychwyn i ysmegu sigarêts tybaco.

---

<sup>50</sup> Cofnod y Trafodion [pargraff 140], 1 Hydref 2015

<sup>51</sup> [\*E-cigarettes: an evidence update\* Adroddiad a gomisiynwyd gan Public Health England](#), Awst 2015

<sup>52</sup> Cofnod y Trafodion [pargraff 221], 1 Hydref 2015

<sup>53</sup> Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Crynodeb o ganlyniadau arolwg y cyhoedd](#), Medi 2015

<sup>54</sup> Cofnod y Trafodion [paragraffau 6 a 78], 1 Hydref 2015

<sup>55</sup> Cofnod y Trafodion [pargraff 222], 1 Hydref 2015

<sup>56</sup> Cofnod y Trafodion [pargraff 222], 1 Hydref 2015

### ***Marchnata ac apelio at bobl ifanc***

87. Mynegodd cynrychiolwyr lechyd Cyhoeddus Cymru a Chyfadrn lechyd y Cyhoedd bryderon ynghylch marchnata e-sigaréts mewn ffordd sy'n apelio at bobl ifanc. Dywedodd Dr Gill Richardson, Cyfarwyddwr lechyd y Cyhoedd ym Mwrdd lechyd Prifysgol Aneurin Bevan, y byddai blas fel "gummy bear" neu "bubble gum" yn apelio at bobl ifanc, fel y byddai ymddangosiad rhai e-sigaréts. Dyfynnodd enghraifft o un ddyfais yn edrych fel pin ysgrifennu pinc, disglair a fyddai, roedd yn dadlau, yn arbennig o ddeniadol i ferched ifanc.<sup>57</sup>

88. Dywedodd yr Athro Alan Maryon-Davis, yn cynrychioli Cyfadran lechyd y Cyhoedd y DU, fod blas a golwg liwgar e-sigaréts yn apelio at bobl ifanc, a bod y ffordd y cânt eu harddangos yn amlwg mewn siopau yn codi eu hymwybyddiaeth ohonynt.<sup>58</sup> Dywedodd Julie Barratt yn cynrychioli Sefydliad Siartredig lechyd yr Amgylchedd wrth y Pwyllgor ei bod yn cydnabod y pryder y byddai gweld e-sigaréts yn cael eu defnyddio a'u gwerthu mewn mannau lle nad yw tybaco ar gael yn cynyddu cysylltiad plant a phobl ifanc â nhw, ac y gallent fod yn fan cychwyn. Fodd bynnag, dywedodd nad oedd unrhyw dystiolaeth ar hyn o bryd i gefnogi'r pryder hwn.<sup>59</sup>

89. Roedd tystion eraill yn cwestiynu a yw'r ffordd y caiff e-sigaréts eu hysbysebu a'r blas sy'n cael ei roi iddynt yn targedu pobl ifanc yn unig. Dywedodd yr Athro Linda Bauld wrth y Pwyllgor:

"The flavours that are in e-cigarettes are useful for adult smokers who move away from tobacco, because they separate that tobacco product from the e-cigarette product. So, the flavours have a role to play in making e-cigarettes an attractive stop-smoking aid. Whether these flavours are being targeted at children or not is an important question, and that's why the marketing needs to be addressed, but I'm not seeing any evidence from the studies that never-smoking children are taking up e-cigarettes in any significant number. So, if the marketing is doing that, at the moment it's not working."<sup>60</sup>

90. Roedd yr Athro John Britton yn cytuno bod y ddarpariaeth o wahanol flasau yn bwysig i oedolion sy'n defnyddio e-sigaréts fel cymorth i roi'r gorau i ysmygu:

---

<sup>57</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 231], 9 Gorffennaf 2015

<sup>58</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 424], 1 Hydref 2015

<sup>59</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 61], 15 Gorffennaf 2015

<sup>60</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 134], 1 Hydref 2015

“We do a lot of work with electronic cigarette users, and one of the messages that comes back from them is that the flavours that you or I might perceive as being aimed at children are actually very important to them. So, if you’d asked me this question 18 months ago, I’d have said, ‘No, the bubble gum and so on should go’. I’ve changed my view, because that’s what a lot of adult smokers use and they find it a very helpful adjunct.”<sup>61</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

91. Mae'r Pwyllgor yn croesawu darpariaethau'r *Rheoliadau Cynhyrchion Mewnanadlu (Oedran Gwerthu a Phrynu drwy Ddirprwy) 2015*<sup>62</sup> a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2015, sy'n ei gwneud yn drosedd yng Nghymru a Lloegr i:

- werthu cynhyrchion nicotin (gan gynnwys e-sigaréts) i bobl o dan 18 oed;
- prynu cynhyrchion nicotin (gan gynnwys e-sigaréts) ar ran pobl ifanc dan oed.

92. Mae'r Pwyllgor hefyd yn croesawu cyhoeddi'r rheolau hysbysebu ar gyfer e-sigaréts gan y Pwyllgor Arferion Hysbysebu (CAP) a'r Pwyllgor Darlledu ar gyfer Arferion Hysbysebu (BCAP) a ddaeth i rym ym mis Tachwedd 2014. Mae'r rhain yn cynnwys y cyfyngiadau canlynol ynghylch targedu pobl ifanc:

- ni ddylai hysbysebion fod yn debygol o apelio'n benodol at bobl o dan 18 oed, yn enwedig drwy adlewyrchu neu fod yn gysylltiedig â diwylliant ieuenctid;
- ni ddylai pobl sy'n cael eu dangos yn defnyddio e-sigaréts neu'n chwarae rôl arwyddocaol, fod o dan 25 oed, nac ymddangos i fod o dan 25 oed; ac
- ni ddylai hysbysebion gael eu hanelu at bobl o dan 18 oed drwy'r dewis o gyfryngau neu'r cyd-destun y maent yn ymddangos ynddo.<sup>63</sup>

93. Mae'r Pwyllgor yn nodi y bydd Cyfarwydddeb Cynhyrchion Tybaco yr UE, a fydd yn dod i rym yn 2016, yn cyflwyno gwaharddiadau trawsffiniol ar hysbysebu e-sigaréts a fydd yn bellgyrhaeddol ac yn gallu torri ar draws rheolau newydd y DU. Mae'n nodi'r datganiad rheoleiddio ar y cyd gan PAC a BCAP sy'n datgan:

---

<sup>61</sup> Cofnod y Trafodion [pargraff 135], 1 Hydref 2015

<sup>62</sup> [\*Rheoliadau Cynhyrchion Mewnanadlu Nicotin \(Oedran Gwerthu a Phrynu drwy Ddirprwy\) 2015\*](#)

<sup>63</sup> <https://www.cap.org.uk/Advice-Training-on-the-rules/Advice-Online-Database/Electronic-cigarettes.aspx#.VkBuFdIYSUk>

“The new CAP and BCAP rules do not pre-empt the requirements of the Directive but serve, at least, as an interim measure. B/CAP understand that the Department of Health is now working to establish what effect the Directive will have in the UK. When more is known about the effect of the Directive in the UK, CAP and BCAP will clarify what role their Codes will have in relation to e-cigarette advertising in future.”

94. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y consensws ymhlith tystion bod yn rhaid parhau i fonitro tueddiadau yn y defnydd o e-sigaréts, ac unrhyw effeithiau iechyd cysylltiedig. Mae'n croesawu'r ffaith y bydd gofynion monitro o'r fath yn rhan o'r darpariaethau a fydd yn dod i rym drwy Gyfarwydddeb Cynhyrchion Tybaco yr UE yn 2016.

95. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi, o dan y gwaharddiadau arddangos tybaco sydd bellach mewn grym ar draws y DU, ei bod yn anghyfreithlon i unrhyw fusnes sy'n gwerthu cynhyrchion tybaco eu harddangos i'r cyhoedd. Mae cyfyngiad hefyd ar arddangos prisiau cynhyrchion tybaco. Y nod sydd wedi'i ddatgan ar gyfer y gwaharddiad yw lleihau nifer y bobl ifanc sy'n dechrau ysmegu, yn arbennig drwy leihau'r demtasiwn weledol a geir yn sgil arddangos sigaréts.<sup>64</sup>

96. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod mai prin yw'r dystiolaeth ynghylch a yw'r defnydd o e-sigaréts yn fan cychwyn i fynd ymlaen i ysmegu cynhyrchion tybaco. Serch hynny, mae'n pryderu o glywed am enghreifftiau o farchnata e-sigaréts sy'n targedu plant a phobl ifanc.

97. Roedd rhai Aelodau yn pryderu o glywed am wahaniaeth mewn arfer o ran arddangos e-sigaréts a sigaréts tybaco yn y man gwerthu, o ystyried nad yw e-sigaréts yn destun unrhyw gyfyngiadau arddangos, ac yn aml yn cael eu harddangos yn amlwg yn y man gwerthu mewn llawer o siopau. Byddent yn dymuno gweld gwaith yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ymchwilio i'r opsiynau i gyfyngu ar arddangos a marchnata e-sigaréts.

98. Mae Aelodau eraill<sup>65</sup> yn credu, o ystyried mai prin yw'r dystiolaeth ynghylch a yw defnyddio e-sigaréts yn fan cychwyn i ysmegu cynhyrchion tybaco, nad yw'r pryderon ynglŷn â hyn yn ddigon o reswm i:

– ddeddfu i gyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts; a

---

<sup>64</sup> <http://llyw.cymru/newsroom/healthandsocialcare/2012/121203tb/?lang=cy>

<sup>65</sup> Altaf Hussain AC, Darren Millar AC a Kirsty Williams AC

- chyfyngu ar eu harddangos yn y man gwerthu yn yr un modd â'r cyfyngiad ar arddangos sigarêts tybaco.

Maent yn credu y dylid asesu effaith y ddeddfwriaeth a gyflwynwyd i atal gwerthu o e-sigarêts i'r rhai dan 18 oed, ynghyd â mesurau eraill fel Cyfarwydddeb Cynhyrchion Tybaco yr UE a rheolau hysbysebu'r DU, cyn cymryd unrhyw gamau pellach i gyfyngu ar eu defnydd mewn mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig.

### **Gorfodi**

99. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan ei bod "[yn] bryder hefyd bod y defnydd o e-sigarêts yn tanseilio'r broses o orfodi'r gwaharddiad ar ysmegu". Mae'n mynd ymlaen i nodi:

- bod sawl erlyniad o dan Ddeddf Iechyd 2006 wedi methu pan fo'r diffynnydd wedi honni ei fod yn defnyddio e-sigarét ar yr amser perthnasol yn hytrach nag ysmegu;<sup>66</sup>
- bod y bobl a ymatebodd i ymgynghoriad Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Iechyd y Cyhoedd wedi awgrymu bod yr anwedd sy'n cael ei ryddhau o e-sigarêts, yn ogystal â'r weithred o'u symud o'r llaw i'r geg, yn gallu ei gwneud yn anodd i reolwyr mangreoedd y mae'n ofynnol iddynt fod yn ddi-fwg wahaniaethu o bell rhwng sigarêts arferol ac e-sigarêts; ac<sup>67</sup>
- y byddai'r cyfyngiad arfaethedig yn helpu o ran gorfodi drwy roi sefyllfa eglur a chyson i fusnesau a gweithleoedd.<sup>68</sup>

100. Dywedodd cynrychiolwyr o Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd a Chyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru wrth y Pwyllgor y byddai cyfyngu ar y defnydd o e-sigarêts mewn mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig yn helpu i orfodi'r cyfyngiadau presennol. Cyfeiriodd Julie Barratt, yn cynrychioli Sefydliad Siartredig yr Amgylchedd, at fusnesau a oedd wedi dewis yn wirfoddol i gyfyngu ar y defnydd o e-sigarêts yn eu mangreoedd oherwydd bod caniatáu eu defnydd yn ei gwneud yn anodd iddynt orfodi'r gwaharddiad ar sigarêts tybaco.<sup>69</sup>

101. Dywedodd Paul Mee, yn cynrychioli Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru, wrth y Pwyllgor, yn achos ei swyddogion, mai'r broblem sylfaenol ynghylch e-sigarêts yw eu bod yn tanseilio'r gwaith o orfodi'r gwaharddiad ar

<sup>66</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 58

<sup>67</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 58

<sup>68</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 62

<sup>69</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 67], 15 Gorffennaf 2015

ysmygu mewn mannau cyhoeddus, a'u bod yn sicr wedi gweld tystiolaeth i gefnogi'r farn honno.<sup>70</sup> Dywedodd Robert Hartshorn, hefyd yn cynrychioli Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru, ei bod yn arbennig o anodd i orfodi'r cyfyngiadau di-fwg mewn cerbydau sy'n symud. Dywedodd pe bai swyddog yn amau bod person yn ysmegu a bod y person hwnnw'n dadlau ei fod yn defnyddio e-sigarét, y byddai bron yn amhosibl profi hyn y naill ffordd neu'r llall.<sup>71</sup>

102. Cyfeiriodd Simon Wilkinson, yn cynrychioli Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, at achosion o unigolion sy'n defnyddio'r defnydd o e-sigarét fel amddiffyniad yn erbyn erlyniad am ysmegu mewn man cyfyngedig:

“Cardiff council instigated a prosecution against a taxi driver for smoking in his vehicle and the defendant pleaded not guilty on the basis he was smoking an e-cigarette and not a real cigarette. That matter did go to court and the defendant was found not guilty, despite the offence being witnessed by an enforcement officer. There have been similar occurrences in Powys County Council, Caerphilly, Wrexham and also Swansea.”<sup>72</sup>

103. Dywedodd Mr Mee wrth y Pwyllgor, fel y person sy'n gwneud y penderfyniad ar ran ei awdurdod lleol a ddylid erlyn rhywun sydd dan amheuaeth o ysmegu:

“[I would] look at the strength of the evidence and whether there’s anything that’s likely to compromise that case in court. In light of the very clear evidence that cases have failed in those circumstances, if somebody was to use the defence that they were using an e-cigarette and we weren’t absolutely certain of that, then I’m unlikely to decide to take that case forward”.<sup>73</sup>

104. Nid yw'r Pwyllgor wedi derbyn unrhyw ffigurau pellach i nodi nifer o achosion sydd heb eu cychwyn neu erlyniadau sydd wedi methu mewn amgylchiadau o'r fath.

105. I'r gwrthwyneb, roedd cynrychiolwyr o Gymdeithas Fasnach y Diwydiant Sigaréts Electronig yn cwestiynu'r awgrym bod y defnydd o e-sigaréts yn tanseilio'r gwaith o orfodi deddfwriaeth ddi-fwg:

---

<sup>70</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 189], 15 Gorffennaf 2015

<sup>71</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 191], 15 Gorffennaf 2015

<sup>72</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 197], 15 Gorffennaf 2015

<sup>73</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 201], 15 Gorffennaf 2015

“Even where they do look like cigarettes, it’s really difficult to understand how any confusion between the two could be sustained, when you have the complete absence of the unpleasant smell of smoke and all the detritus that’s left behind after smoking activity has taken place.”<sup>74</sup>

106. Tynnodd cynrychiolwyr defnyddwyr, cynrychiolwyr y diwydiant e-sigaréts, ASH Cymru, Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint a Cancer Research UK sylw at y ffaith bod lefel y gydymffurfiaeth â'r deddfwriaeth ddi-fwg bresennol eisoes yn uchel iawn, gan ddadlau nad oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus yn cael effaith andwyol ar orfodaeth.<sup>75</sup>

107. Dywedodd y Gyng rhair Newydd ar Nicotin:

“The majority of e-cigarettes in use (66%) are now the tank system variety, which cannot be confused with a cigarette. The general public is now well acquainted with e-cigarettes and there is little chance of confusion by premises’ staff. The ability to use an e-cigarette where smoking is not permitted gives smokers a legal alternative. If anything it should assist in delivering still greater compliance with smoke-free legislation.”<sup>76</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

108. Nid yw mwyafrif yr Aelodau wedi'u hargyhoeddi bod y dystiolaeth a gyflwynwyd yn ddigonol i gadarnhau'r awgrym bod anawsterau wrth wahaniaethu rhwng e-sigaréts a sigaréts tybaco yn ei gwneud yn anodd i reoli'r gwaith o orfodi deddfwriaeth ddi-fwg. Fodd bynnag, roedd Aelodau eraill yn derbyn y rhesymeg y gallai fod yn anodd gorfodi deddfwriaeth ddi-fwg yn sgil caniatáu'r defnydd o e-sigaréts mewn mannau lle ceir gwaharddiad ar ysmegu.

109. Mae'r Pwyllgor yn credu bod bwriad y Gweinidog i beidio â chyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts y gellir ond eu defnyddio i fewnanadlu hylifau nad ydynt yn cynnwys nicotin yn gwneud pethau'n fwy dryslyd. Mae hyn oherwydd y

---

<sup>74</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 51], 23 Medi 2015

<sup>75</sup> PHB 07 Paul Barnes, PHB 14 Dr David Upton, PHB 22 Decadent Vapours Ltd, PHB 24 Rhydian Mann, PHB 26 Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint, PHB 43 Cancer Research UK, PHB 48 ASH Cymru, PHB 50 Cymdeithas Fasnach y Diwydiant Sigaréts Electronig, PHB 59 Gower Enterprises Limited, PHB 61 Cyng rhair Newydd y DU ar Nicotin, PHB 66 Nicoventures, PHB 71 Fontem Ventures, PHB 72 Totally Wicked Ltd, PHB 79 Philip Morris Limited a PHB 89 Iechyd Cyhoeddus Cymru

<sup>76</sup> PHB 61 Cyng rhair Newydd y DU ar Nicotin

byddai'n hynod o anodd i swyddogion gorfodi a rheolwyr mangreoedd wahaniaethu rhwng e-sigaréts sy'n cynnwys hylifau nicotin neu beidio.

### **Y defnydd o e-sigaréts fel cymorth i roi'r gorau i ysmegu**

110. Dywedodd cynrychiolwyr ASH Cymru wrth y Pwyllgor fod yr adroddiad *E-cigarettes: an evidence update* a gomisiynwyd gan Public Health England yn dangos mai e-sigaréts yw'r cymorth mwyaf poblogaidd ar hyn o bryd ar gyfer rhoi'r gorau i ysmegu. Roedd ASH Cymru yn dadlau y gallai cyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts gyfleu'r neges eu bod yr un mor niweidiol â sigaréts tybaco, a thrwy hynny o bosibl yn atal pobl rhag eu defnyddio fel dull ar gyfer rhoi'r gorau i ysmegu. Roedd yn dadlau y gallai hyn yn y pen draw achosi mwy o niwed i iechyd y cyhoedd pe bai'r bobl hynny yn parhau i ysmegu.<sup>77</sup> Cyfeiriodd Dr Steven Macey at astudiaeth a gynhaliwyd gan ASH UK a oedd yn dangos, rhwng 2013-15, bod nifer yr oedolion sydd eisoes yn credu bod e-sigaréts yr un mor niweidiol â sigaréts tybaco wedi cynyddu o chwech y cant i 20 y cant. Dywedodd y gallai canlyniadau cyferbyniol o amryw astudiaethau ynghylch diogelwch e-sigaréts fod wedi arwain at y newid hwn,<sup>78</sup> a'i fod yn credu y byddai deddfu i gyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus yn cynyddu canfyddiad o'r fath ymhellach.<sup>79</sup>

111. Ar y llaw arall, cyfeiriodd y Gweinidog at adolygiad o'r dystiolaeth a wnaed gan y Cochrane Collaboration ym mis Rhagfyr 2014, gan ddweud bod hwnnw'n dangos mai prin yw'r dystiolaeth i brofi bod e-sigaréts yn ffordd effeithiol o roi'r gorau i ysmegu tybaco. Dywedodd na fyddai'r cynigion yn y Bil yn atal unrhyw un sy'n dymuno defnyddio e-sigaréts fel cymorth i leihau neu roi'r gorau i ysmegu rhag gwneud hynny, ac nad oedd unrhyw dystiolaeth y byddai'r cyfyngiadau i sicrhau bod y defnydd ohonynt yn cydfynd â'r defnydd o sigaréts tybaco yn atal pobl rhag eu defnyddio yn y ffordd honno.<sup>80</sup>

112. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint wrth y Pwyllgor:

“Reviewing all available data on the efficacy of e-cigarettes as an aid to smoking cessation, the Cochrane collaboration published a review in December 2014, concluding that e-cigarettes were more effective than nicotine replacement patches at helping smokers cut down. It

---

<sup>77</sup> Cofnod y Trafodion [paragraffau 17 ac 19–20], 1 Hydref 2015

<sup>78</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 30], 1 Hydref 2015

<sup>79</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 22], 1 Hydref 2015

<sup>80</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 113], 1 Gorffennaf 2015

also concluded that there was no evidence that dual use of e-cigarettes and cigarettes made smokers any less likely to quit. However, the review also concluded that the quality of evidence in many of the areas was low, and that more studies were recommended (many of which have been started).<sup>81</sup>

113. Hefyd, nododd yr adroddiad a gomisiynwyd gan Public Health England, E-cigarettes: an evidence update:

“Recent studies support the Cochrane Review findings that EC [e-cigarettes] can help people to quit smoking and reduce their cigarette consumption. There is also evidence that EC [e-cigarettes] can encourage quitting or cigarette consumption reduction even among those not intending to quit or rejecting other support. More research is needed in this area.”<sup>82</sup>

114. Dywedodd Dr Julie Bishop, yn cynrychioli Iechyd Cyhoeddus Cymru, wrth y Pwyllgor ei bod yn bryderus y cyfeirir at e-sigaréts fel cymorth i roi'r gorau i ysmegu yn bennaf, oherwydd nad oes tystiolaeth yn y cyd-destun hwnnw. Dywedodd fod angen ystyried yr arfer a'r agweddau cymdeithasol ar y gaethiwed er mwyn rhoi'r gorau i ysmegu, ac na fyddai opsiwn fferyllol yn lle sigarét tybaco yn gweithio ar ei ben ei hun. Ychwanegodd fod yna dystiolaeth o ffyrdd gwell o roi'r gorau i ysmegu na thrwy ddefnyddio e-sigaréts, gan gynnwys cymorth am ddim sydd ar gael drwy'r GIG.<sup>83</sup>

115. Roedd Julie Barratt, yn cynrychioli Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, yn cytuno y byddai'n well i unrhyw un sy'n dymuno rhoi'r gorau i ysmegu ddefnyddio gwasanaeth cymorth ffurfiol sy'n defnyddio cynnyrch sy'n cael ei reoleiddio'n briodol ac yn cynnig cymorth arall, ac mai cymryd symiau llai a llai o nicotin mewn ffordd reoledig yw'r ffordd fwyaf priodol o ddefnyddio cynnyrch amnewid nicotin i roi'r gorau i ysmegu. Fodd bynnag, ychwanegodd:

“If someone wants to give up smoking and they can assist themselves to do that using an e-cigarette, that is also to be applauded.”<sup>84</sup>

116. Dywedodd yr Athro Linda Bauld wrth y Pwyllgor mai un o'r rhesymau pam ei bod yn anodd annog ysmygwyr i ddefnyddio gwasanaethau ffurfiol ar

---

<sup>81</sup> PHB 26 Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint

<sup>82</sup> [E-cigarettes: an evidence update Adroddiad a gomisiynwyd gan Public Health England](#), Awst 2015

<sup>83</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 101], 9 Gorffennaf 2015

<sup>84</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 82], 15 Gorffennaf 2015

gyfer rhoi'r gorau oedd oherwydd nad yw therapi amnewid nicotin yn apelio gymaint ag y mae e-sigaréts:

“I’ve worked for 17 years doing research on smoking cessation, and we’ve struggled for all these years to get people to use our excellent stop-smoking services, and you’ve got fantastic stop-smoking services in Wales. One of the reasons for that is that they’re not appealing. Nicotine replacement therapy, unfortunately, has never really taken off in the way that it could have done, because it’s not appealing. One of the things about the hand-to-mouth nature of e-cigarettes and the product is that, actually, it is like smoking, and that’s one of the reasons why it’s easier for people to switch and one of the reasons why it has an appeal, because it has those sensory triggers as well as the nicotine delivery. So, I think it is unfortunate, you’re right, that there are the same kind of gestures, and I understand where people’s concerns about that come from. But it’s also a success story, because we’re seeing people using these devices to stop smoking—in many cases gradually—exactly because it’s a similar behaviour. So, we really have to strike the balance there, and I don’t think that treating them exactly like tobacco in public places is the solution.”<sup>85</sup>

117. Aeth yr Athro Bauld ymlaen i esbonio bod e-sigaréts fel cymorth i roi'r gorau i ysmegu yn fras yr un mor effeithiol â therapi amnewid nicotin, ond nad yw mor effeithiol â gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu. Dywedodd fod defnyddio e-sigarét tua 60 y cant yn fwy effeithiol mewn ymgais i roi'r gorau i ysmegu na grym ewyllys yn unig.<sup>86</sup>

118. Dywedodd yr Athro John Britton wrth y Pwyllgor, ei fod wedi dysgu o'i brofiad fel meddyg anadlol, er bod ysmygwyr eisiau rhoi'r gorau am resymau iechyd neu ariannol, bod y syniad o wneud rhywbeth am hynny yn frawychus. Dywedodd fod gan bobl reswm bob amser i ohirio'r peth, ac felly ei fod yn pryderu y gallai cyfyngiadau ar y defnydd o e-sigaréts anfon negeseuon cymysg am eu diogelwch a bod yn rhwystr i unrhyw un sy'n ystyried eu defnyddio i roi'r gorau i ysmegu.<sup>87</sup> Roedd yr Athro Peter Hajek yn rhannu'r pryderon hyn:

---

<sup>85</sup> Cofnod y Trafodion [paragraffau 157-158], 1 Hydref 2015

<sup>86</sup> Cofnod y Trafodion [pargraff 180], 1 Hydref 2015

<sup>87</sup> Cofnod y Trafodion [pargraff 201], 1 Hydref 2015

“People have to put effort into switching—it’s not easy. You only put effort into things if you think it’s worth it. If there’s a doubt in your mind—‘maybe it’s not any better’—then you won’t.”<sup>88</sup>

119. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd i'r Pwyllgor gan nifer o unigolion yn disgrifio'u profiadau personol o ddefnyddio e-sigarêts i roi'r gorau i ysmygu:

“I moved seamlessly from smoking to a personal vapouriser 3 years ago and have not looked back or smoked since.”<sup>89</sup> (Vince Jarvis)

“I stopped smoking on the 21<sup>st</sup> of May 2015, and that is something I never thought would happen. Not only that I did it by accident. I bought my first vaping device on a whim, I thought it might be a laugh, as I had seen a girl at work using hers. I had no intention of quitting smoking, but 3 weeks later I was completely smoke free. If the proposals in this bill had been in place I would never have bought a vape pen, and I would still be smoking to this day.”<sup>90</sup> (Abigail Cottrill)

“I speak as someone who believes e-cigarettes saved my life. [...] I attended at least 6 courses of the anti-smoking clinics run by my health board. [...] I smoked for over 40 years, gave up several times but always lapsed. I have not smoked for over 4 years and will never go back.”<sup>91</sup> (Carole Coote)

120. Dywedodd Martin Hensman, ar ôl mwy na 45 mlynedd fel ysmygwr tybaco a nifer o ymdrechion i roi'r gorau, gan gynnwys cofrestru ar y 'Cwrs Rhoi'r Gorau i Ysmygu' drwy ei feddyg teulu:

“I decided to use an e-cigarette and can report that I have not smoked tobacco in the last 6 weeks. [...] Furthermore, had e-cigarettes been banned in enclosed and substantially enclosed public places at the time of my latest ‘quit attempt’ it is more than likely that I would have again been unsuccessful.”<sup>92</sup>

121. Dywedodd 49.1 y cant o'r bobl a ymatebodd i arolwg cyhoeddus y Pwyllgor eu bod wedi defnyddio e-sigarêts. O'r rhai a roddodd reswm dros eu defnydd o e-sigarêts, dywedodd y rhan fwyaf ei fod yn gymorth i roi'r gorau i

---

<sup>88</sup> Cofnod y Trafodion [pargraff 270], 1 Hydref 2015

<sup>89</sup> PHB 11 Vince Jarvis

<sup>90</sup> PHB 09 Abigail Cottrill

<sup>91</sup> PHB 10 Carole Coote

<sup>92</sup> PHB 68 Martin Hensman LLB (Anrh)

ysmygu, dywedodd 57.27 y cant bod hynny i roi'r gorau i ysmegu, a dywedodd 13.21 y cant bod hynny i leihau faint y maent yn ysmegu.<sup>93</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

122. Mae'r Pwyllgor yn nodi ac yn croesawu'r cyfraniad a wneir gan e-sigaréts fel cymorth i roi'r gorau i ysmegu, ac mae'n cydnabod y rôl y gallent ei chwarae o ran lleihau niwed tybaco. Mae'n cydnabod y dystiolaeth yn nodi bod e-sigaréts yn sylweddol llai niweidiol na sigaréts tybaco ac yn croesawu'r effaith gadarnhaol y gallai newid i e-sigaréts ei chael ar iechyd ysmygwyr.

### ***Defnydd deuol***

123. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod y dystiolaeth yn awgrymu bod y rhan fwyaf o bobl sy'n defnyddio e-sigaréts yn gwneud hynny mewn ymgais i leihau eu defnydd o sigaréts tybaco:

“There's very little evidence for elimination; almost all e-cigarette users turn out to be dual-use users.”<sup>94</sup>

124. Cyflwynodd y Gweinidog fanylion pellach yn ei lythyr dyddiedig 4 Medi i'r Pwyllgor, lle cyfeiriodd at arolwg a gyhoeddwyd gan ASH UK ym mis Mai 2015<sup>95</sup> a ganfu fod tri o bob pum defnyddiwr e-sigaréts hefyd yn ysmegu ar hyn o bryd,<sup>96</sup> a'r Smoking Toolkit Study a oedd yn dweud bod tua 85 y cant o'r holl ddefnyddwyr yn ddefnyddwyr deuol.<sup>97</sup>

125. Dywedodd cynrychiolwyr ASH Cymru eu bod yn croesawu'r defnydd o e-sigaréts gan bobl ochr yn ochr â sigaréts tybaco fel ffordd o ddefnyddio llai o dybaco. Dywedodd Dr Steven Macey wrth y Pwyllgor y byddai pobl, yn ddelfrydol, yn rhoi'r gorau i ysmegu yn gyfan gwbl. Fodd bynnag, os nad oedd hynny'n bosibl, yna byddai'n fuddiol i'w hiechyd i ddefnyddio llai o dybaco.<sup>98</sup>

126. Dywedodd yr Athro Linda Bauld wrth y Pwyllgor fod llawer o ysmygwyr yn defnyddio e-sigaréts a sigaréts tybaco ochr yn ochr am ychydig, ond bod

---

<sup>93</sup> Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Crynodeb o ganlyniadau arolwg y cyhoedd](#), Medi 2015

<sup>94</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 140], 1 Gorffennaf 2015

<sup>95</sup> Taflen ffeithiau ASH 33: [Use of electronic cigarettes in Great Britain](#), Mai 2015

<sup>96</sup> PHB AI 10 Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - 4 Medi 2015

<sup>97</sup> [‘Smoking Toolkit Study’](#). Tueddiadau yn y defnydd o sigaréts electronig yn Lloegr.

<sup>98</sup> Cofnod y Trafodion [paragraffau 33 a 35], 1 Hydref 2015

data yn dangos bod cyfran y defnyddwyr deuol yn lleihau'n raddol wrth i fwy o ddefnyddwyr e-sigaréts roi'r gorau i dybaco yn llwyr.<sup>99</sup>

### ***Rhannu mannau ysmegu***

127. Roedd ymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriad y Pwyllgor yn nodi pryderon y gallai cyfyngu ar ddefnyddio e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig olygu'n ymarferol y byddai defnyddwyr e-sigaréts yn rhannu gofod y tu allan neu fannau ysmegu gydag ysmygwyr.<sup>100</sup> Awgrymodd Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd y gallai hyn fod yn niweidiol i'r bobl hynny sy'n ceisio rhoi'r gorau i ysmegu drwy ddefnyddio e-sigaréts oherwydd y gallai danseilio eu hymdrechion i roi'r gorau iddi.<sup>101</sup>

128. Roedd y Gynghrair Newydd ar Nicotin yn rhannu'r farn hon:

“Forcing e-cigarette users to go outside to vape, often to places where they will be among smokers and also perhaps in time limited situations, may encourage them to smoke instead in order to increase nicotine levels quickly within the time available.”<sup>102</sup>

a hefyd ASH Cymru:

“E-cigarette users have told us that, obviously, if they are restricted from using them in public places, they are sent to the smoking area, in some cases. Obviously, the Minister has made it clear they're not forced to do that, but, in practical terms, they will be, and that does make it difficult, especially if you're trying to use them to quit; you're out in a smoking area.”<sup>103</sup>

129. Roedd yr Athro Peter Hajek hefyd yn rhannu'r pryder hwn:

“Then, of course, you've got the situation where vapers will be forced to go out into the rain to stand next to smokers, which will, of course, tempt them back to smoking. I think that the behaviour I want to see is the vaping. I want smokers to stop smoking and start vaping. So, I would be concerned that the regulation will push them in the opposite direction.”<sup>104</sup>

---

<sup>99</sup> Cofnod y Trafodion [pagraff 187], 1 Hydref 2015

<sup>100</sup> PHB 07 Paul Barnes, PHB 24 Rhydian Mann, PHB 37 Robert Heyes a PHB 54 Jonathan Edwards

<sup>101</sup> PHB 01 Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd

<sup>102</sup> PHB 61 Cynghrair Newydd y DU ar Nicotin

<sup>103</sup> Cofnod y Trafodion [pagraff 23], 1 Hydref 2015

<sup>104</sup> Cofnod y Trafodion [pagraff 271], 1 Hydref 2015

130. Mewn ymateb i'r pryder hwn, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

“people are making choices here, and nobody is forced to use an e-cigarette or a conventional cigarette or to stand next to anybody else who is using either”.<sup>105</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

131. Mae rhai Aelodau yn pryderu y gallai cyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig arwain at sefyllfa lle y byddai angen i ddefnyddwyr e-sigaréts rannu gofod y tu allan gydag ysmygwyr, a allai:

- danseilio eu hymdrechion i beidio â defnyddio cynnyrch tybaco; ac
- achosi niwed iechyd i ddefnyddwyr drwy fwg tybaco ail-law.

### **Niwed a achosir gan e-sigaréts**

132. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor nad y niwed posibl o ddefnyddio e-sigaréts a'r anwedd a gynhyrchir yw'r rheswm dros gyflwyno'r Bil. Serch hynny, cyfeiriodd at adroddiad a gynhyrchwyd gan swyddog iechyd talaith Califfornia a oedd yn dweud nad yw e-sigaréts yn allyrru anwedd dŵr diniwed, ond yn hytrach cymysgedd o gemegau sy'n gwenwyno'r celloedd dynol.<sup>106</sup>

133. Un o ganfyddiadau allweddol yr adroddiad *E-cigarettes: an evidence update* a gomisiynwyd gan Public Health England oedd bod e-sigaréts yn llawer llai niweidiol i iechyd na thybaco. Nododd yr adroddiad mai'r amcangyfrif gorau ar hyn o bryd yw bod e-sigaréts tua 95 y cant yn llai niweidiol nag ysmegu sigaréts tybaco.<sup>107</sup>

### ***Niwed i ddefnyddwyr e-sigaréts***

134. Dywedodd Dr Julie Bishop, yn cynrychioli Iechyd Cyhoeddus Cymru, wrth y Pwyllgor fod e-sigaréts yn gynnyrch cymharol newydd, felly mae mwy o wybodaeth yn codi o hyd am y manteision a'r peryglon sy'n gysylltiedig â'u defnyddio.<sup>108</sup> Aeth ymlaen i ddweud bod gan e-sigaréts, fel cynhyrchion,

---

<sup>105</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 146], 1 Gorffennaf 2015

<sup>106</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 129], 1 Gorffennaf 2015

<sup>107</sup> [E-cigarettes: an evidence update Adroddiad a gomisiynwyd gan Public Health England](#), Awst 2015

<sup>108</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 95], 9 Gorffennaf 2015

ychydig iawn o werth ar wahân i fod yn well na rhywbeth sydd ar hyn o bryd achosi llawer iawn o niwed.<sup>109</sup>

135. Roedd Dr Gill Richardson, Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, yn dadlau, er y gallai nifer yr achosion o ganser yr ysgyfaint ostwng oherwydd y cynnydd yn y defnydd o e-sigarêts, nad yw'n wybyddus a oes cysylltiad rhwng nicotin a mathau eraill o ganser. Nododd hefyd y byddai rhai o'r problemau cardiofasgwlaidd sy'n gysylltiedig â nicotin yn parhau pe bai e-sigarêts yn cael eu defnyddio.<sup>110</sup>

136. Er i'r Dr Richardson ddweud mai un o'r problemau sy'n gysylltiedig ag e-sigarêts yw'r ffaith nad yw eu dos wedi cael ei fonitro'n llym yn hanesyddol, ac y gallai rhai fod yn cynnwys wyth gwaith yn fwy o nicotin na sigarét draddodiadol,<sup>111</sup> mae'r Pwyllgor yn nodi y bydd Cyfarwydddeb Cynhyrchion Tybaco yr UE, a fydd yn dod i rym yn 2016, yn rheoleiddio lefel crynodiad nicotin e-sigarêts ac y bydd yn ofynnol iddynt roi dos o nicotin ar lefel gyson. Bydd hefyd yn cynnwys gofynion i ddarparu gwybodaeth fanwl am y cynnyrch, gan gynnwys rhybuddion iechyd, cyfarwyddiadau defnyddio, gwybodaeth am ba mor gaethiwus a gwenwynig yw'r cynnyrch, a rhestr o'r holl sylweddau sydd ynddo, gan gynnwys faint o nicotin.

137. Oherwydd bod angen gwneud mwy o ymchwil i ddeall effaith y defnydd tymor hir o e-sigarêts ar iechyd y cyhoedd, roedd cynrychiolwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd yn cynrychioli Byrddau Iechyd a BMA Cymru yn cefnogi'r cynigion i gyfyngu ar y defnydd o e-sigarêts mewn mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig. Roeddent yn teimlo ei bod yn briodol, ar y cyfan, i ddeddfu i gyfyngu ar y defnydd o e-sigarêts mewn mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig er mwyn gwrthbwysu'r potensial y bydd ymchwil o'r fath yn dangos effeithiau andwyol ar iechyd yn y dyfodol.

138. Dywedodd Dr Steven Macey yn cynrychioli ASH Cymru wrth y Pwyllgor, er bod rhai gwenwynau a charsinogenau mewn e-sigarêts, eu bod ar lefelau llawer is na mewn sigarêts tybaco. Serch hynny, ychwanegodd nad oedd mewn sefyllfa i ddweud nad yw e-sigarêts yn niweidiol.<sup>112</sup>

139. Dywedodd yr Athro John Britton ei fod yn credu bod y canfyddiad yn *E-cigarettes: an evidence update* a gomisiynwyd gan Public Health England nad yw e-sigarêts ond pump y cant mor niweidiol â sigarêts tybaco yn

---

<sup>109</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 97], 9 Gorffennaf 2015

<sup>110</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 227], 9 Gorffennaf 2015

<sup>111</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 226], 9 Gorffennaf 2015

<sup>112</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 118], 1 Hydref 2015

amcangyfrif uchel, ond roedd yn cyfaddef bod dim ond un y cant yn parhau i fod yn risg o niwed.<sup>113</sup> Fodd bynnag, dywedodd mai'r pwynt allweddol oedd cymharu'r risg hwn â risgiau sigarêts tybaco. Nid oedd yr Athro Britton yn credu bod y risg i iechyd y cyhoedd a achosir gan e-sigarêts yn ddigon i gyfiawnhau cyfyngu ar eu defnydd yn yr un ffordd ag y gwneir yn achos y defnydd o sigarêts tybaco.<sup>114</sup>

140. Awgrymodd cynrychiolwyr ASH Cymru, yr Athro Bauld a'r Athro Britton i'r Pwyllgor fod perygl, yn sgil cyfyngu ar y defnydd o e-sigarêts, o gyfleu'r neges eu bod yr un mor niweidiol â sigarêts tybaco. Roeddent yn credu y gallai hyn atal rhai ysmygwyr rhag eu defnyddio fel cymorth i roi'r gorau i ysmegu, a allai achosi mwy o niwed i iechyd y cyhoedd pe bai'r ysmygwyr hynny yn parhau i ysmegu sigarêts tybaco yn lle hynny. Dywedodd Jamie Matthews, yn cynrychioli ASH Cymru:

“For this section [Pennod 1 o'r Bil], we believe that, in its current form, and if this remains in the Bill, then it potentially could have a damaging effect on public health, if it restricts the use of e-cigarettes for people using them as a cessation aid.”<sup>115</sup>

141. Dywedodd yr Athro Britton wrth y Pwyllgor, pe bai'r holl ysmygwyr yn y DU yn dechrau defnyddio e-sigarêts yn lle sigarêts tybaco, y gellid atal tua phum miliwn o farwolaethau cynamserol. Dywedodd:

“This is a massive public health opportunity, and any mixed message that says, ‘We should be very cautious about these products,’ is missing the point—missing a golden opportunity to improve public health now.”<sup>116</sup>

142. Nododd yr Athro Britton, er y byddai'n disgwyl gweld rhai clefydau yn digwydd yn amlach o ganlyniad i'r defnydd e-sigarêts – efallai cynnydd bach mewn canser, niwed i'r ysgyfaint, emffysema, clefyd ffibrotig yr ysgyfaint neu risg cardiofasgwlaidd yn sgil mewnanadlu gronynnau – fod hyn yn fach iawn o'i gymharu â'r clefydau a achosir gan ysmegu sigarêts tybaco.<sup>117</sup>

143. Cytunodd yr Athro Peter Hajek fod y risgiau yn sgil defnyddio e-sigarêts yn llawer llai o'i gymharu â sigarêts tybaco:

---

<sup>113</sup> Cofnod y Trafodion [pagraff 173], 1 Hydref 2015

<sup>114</sup> Cofnod y Trafodion [pagraff 165], 1 Hydref 2015

<sup>115</sup> Cofnod y Trafodion [pagraff 44], 1 Hydref 2015

<sup>116</sup> Cofnod y Trafodion [pagraff 182], 1 Hydref 2015

<sup>117</sup> Cofnod y Trafodion [pagraff 213], 1 Hydref 2015

“You’ve got chemicals that are in e-cigarette vapour that are not in cigarettes, and none of them is expected to cause any serious damage to health. You don’t want to claim this is 100 per cent safe, although, so far, we don’t really have any evidence of any risk. I can tell you what rates of risk we’ve detected so far, but we don’t want to say this is 100 per cent safe, because, of course, there is long-term use, there are lots of unknowns and something may come up with flavourings, with contaminants. But, soberly, it’s not going to be more than 5 per cent of smoking, because smoking is so terribly risky.”<sup>118</sup>

144. Pwysleisiodd ASH Cymru, yr Athro Britton, yr Athro Bauld a'r Athro Hajek yr angen am fonitro parhaus ac ymchwil pellach ar effeithiau'r defnydd o e-sigaréts er mwyn deall yn well y niwed y gallent ei achosi i iechyd y cyhoedd.

145. Roedd ASH Cymru<sup>119</sup>, yr Athro Britton, yr Athro Bauld<sup>120</sup> a'r Athro Hajek<sup>121</sup> hefyd yn cefnogi ffurf ar reoleiddio e-sigaréts ond, ar y cyfan, yn teimlo nad oedd y darpariaethau yn y Bil i gyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig yn gymesur â'r dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ar effeithiau iechyd, yn enwedig oherwydd y defnydd o e-sigaréts fel cymorth i roi'r gorau i ysmegu a'u rôl bosibl yn lleihau'r niwed o ysmegu sigaréts tybaco.

### ***Niwed i bobl gerllaw***

146. Un o'r dibenion a nodir yn narpariaethau'r Bil yw cynnal ansawdd yr aer a geir mewn mannau cyhoeddus a gweithleoedd caeedig a sylweddol gaeedig yng Nghymru oherwydd yr amgylchedd di-fwg presennol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

"Mae'n wybyddus bod e-sigaréts yn cynnwys cemegau amrywiol sy'n cael eu rhyddhau i'r aer mewn anwedd, ac mae astudiaethau wedi awgrymu y gallai aerosol e-sigaréts gynnwys rhai o'r gwenwynau sy'n bresennol mewn mwg tybaco, er bod y lefelau yn llawer is. [...] Nid ydym yn gwybod pa mor ddiogel yw e-sigaréts i bobl o gwmpas y defnyddiwr ar hyn o bryd, ond ni ellir anwybyddu'r posibilrwydd y ceir effeithiau andwyol ar iechyd pobl sy'n anadlu anwedd e-sigaréts pobl eraill. Trwy ganiatáu i bobl ddefnyddio e-sigaréts mewn mannau

---

<sup>118</sup> Cofnod y Trafodion [pagraff 277], 1 Hydref 2015

<sup>119</sup> Cofnod y Trafodion [pagraff 47], 1 Hydref 2015

<sup>120</sup> Cofnod y Trafodion [pagraff 166], 1 Hydref 2015

<sup>121</sup> Cofnod y Trafodion [pagraff 247], 1 Hydref 2015

Ile y mae ysmegu wedi ei wahardd, gellid creu amgylchedd sy'n tanseilio'r amgylchedd mwy diogel a sefydlwyd gan Ddeddf Iechyd 2006."<sup>122</sup>

147. Yn ei dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, cyfeiriodd y Gweinidog at yr adroddiad *A Smoking Gun: Cancer-causing Chemicals in E-cigarettes* gan y Center for Environmental Health yng Nghaliffornia, gan ddweud:

"[it] looked at 97 different types of e-cigarettes to analyse what they gave off in terms of vapour. It found that, in 50 of the 97, the vapour had higher levels of one or both of the two cancer-causing chemicals that it analysed, above the levels permitted in California. In one case, the level of formaldehyde emitted by the e-cigarette was 470 times higher than the safe limit identified in Californian law".<sup>123</sup>

148. Nododd tystiolaeth ysgrifenedig a dderbyniwyd gan Gyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd ar ran Byrddau Iechyd, er y gall y crynodiadau o ddeunyddiau mewnanadlu a allai fod yn niweidiol mewn anwedd e-sigaréts fod yn is na'r hyn a geir mewn sigaréts, eu bod yn bresennol o hyd ac y gallai pobl gerllaw ddod i gysylltiad â lefelau sy'n uwch nag sy'n arferol.<sup>124</sup>

149. Roedd yr adroddiad *E-cigarettes: an evidence update* a gomisiynwyd gan Public Health England yn nodi bod e-sigaréts yn rhyddhau lefelau bach iawn o nicotin i'r aer o amgylch y defnyddiwr, ac nad oedd unrhyw beryglon wedi'u nodi i iechyd pobl gerllaw.<sup>125</sup> Roedd yr Athro Britton yn cytuno, gan ychwanegu na fyddai'r anwedd y mae e-sigaréts yn ei ryddhau yn achos unrhyw fath o berygl mwy na chynhyrchion arferol eraill sy'n rhyddhau gronynnau i'r atmosffer.<sup>126</sup>

150. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, cyfeiriodd ASH Cymru at astudiaeth a oedd yn dangos bod lefelau'r gwenwynau y mae e-sigaréts yn eu rhyddhau yn llawer is na lefelau'r gwenwynau y mae mwg sigaréts yn eu rhyddhau.<sup>127</sup> Dywedodd Dr Steven Macey, yn cynrychioli ASH Cymru, wrth y Pwyllgor:

---

<sup>122</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraffau 56 a 57

<sup>123</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 120], 21 Hydref 2015

<sup>124</sup> PHB 02 Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd ar ran Byrddau Iechyd yng Nghymru

<sup>125</sup> [\*E-cigarettes: an evidence update\* Adroddiad a gomisiynwyd gan Public Health England](#), Awst 2015

<sup>126</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 173], 1 Hydref 2015

<sup>127</sup> PHB 48 ASH Cymru

“[currently] there is no evidence that there’s any harm to bystanders from the second-hand vaping.”<sup>128</sup>

151. Dywedodd yr Athro Peter Hajek nad oedd unrhyw dystiolaeth o niwed a achosir i bobl gerllaw drwy anadlu anwedd ail law i gefnogi'r sail resymegol dros gyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig.<sup>129</sup> Cyfeiriodd at astudiaeth gan Gyngor Ymchwil Wyddonol Sbaen a ganfu fod cyfaint y cyfansoddion organig anweddol y mae sigaréts tybaco yn eu rhyddhau yn llawer uwch na'r hyn sy'n cael ei ryddhau mewn anwedd e-sigarét.<sup>130</sup>

152. Nododd Cancer Research UK hefyd mewn dystiolaeth ysgrifenedig nad oedd yn ymwybodol o unrhyw astudiaethau gwyddonol sy'n dangos yn bendant bod anwedd ail neu drydydd llaw yn achosi niwed i bobl gerllaw.<sup>131</sup>

153. O ran effaith anwedd e-sigaréts ar ieuchyd grwpiau sy'n agored i niwed, derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth mewn perthynas â phobl sy'n dioddef o asthma yn unig. Nododd dystiolaeth ysgrifenedig gan unigolyn sy'n dioddef o asthma yn datgan bod anadlu anwedd e-sigarét wedi achosi pwl o asthma.<sup>132</sup> Nododd Asthma UK mai ychydig iawn o ymchwil oedd wedi'i wneud hyd yn hyn i edrych ar effeithiau anwedd e-sigaréts ar bobl nad ydynt yn ysmygu ac sydd ag asthma.<sup>133</sup> Mewn ymateb i'r mater penodol o anwedd ail-law, dywedodd Dr Steven Macey:

“There’s no evidence at the moment that it causes severe harm to asthma sufferers, to my knowledge.”<sup>134</sup>

154. Mater arall a godwyd gan y Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd yn ei dystiolaeth ysgrifenedig oedd y gallai defnyddwyr e-sigaréts ddod i gysylltiad â mwg ail-law pe bai angen iddynt rannu gofod tu allan gydag ysmygwyr:

“We believe that it is extremely important that those who are using e-cigarettes as a quitting device should not be subjected to the same

---

<sup>128</sup> Cofnod y Trafodion [pagraff 17], 1 Hydref 2015

<sup>129</sup> Cofnod y Trafodion [pagraff 261], 1 Hydref 2015

<sup>130</sup> Cofnod y Trafodion [pagraff 273], 1 Hydref 2015

<sup>131</sup> PHB 43 Cancer Research UK

<sup>132</sup> PHB 23 Caroline Evans

<sup>133</sup> <http://www.asthma.org.uk/advice-trigger-smoking>

<sup>134</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 57], 1 Gorffennaf 2015

restrictions as smokers and subjected to second hand tobacco smoke.”<sup>135</sup>

155. Hefyd, nododd Martin Hensman y pryder hwn yn ei dystiolaeth ysgrifenedig:

“In practice the provisions would require e-cig users to occupy the same areas outside workplaces and social venues now occupied by smokers. E-cig users would again be exposed to the same toxic second hand smoke that the Smoke-free Premises etc. (Wales) Regulations 2007 were supposed to protect them from.”<sup>136</sup>

156. Awgrymodd y Gweinidog i'r Pwyllgor y gallai cyflogwyr leddfu hyn drwy wneud trefniadau amgen, drwy ddarparu mannau ar wahân i ddefnyddwyr e-sigaréts ac ysmygwyr neu drwy drefnu cyfnodau ar gyfer y gwahanol ddefnyddwyr:

“They [employers] can, if they so wish, find alternative places for e-cigarette users to congregate, or we know that what they do is stagger the use of the facility they already have. So, they make it available at some parts for an hour for conventional cigarette users, and then another period for e-cigarette users, and that is the way that the employment world is going.”<sup>137</sup>

### **Gwaharddiadau gwirfoddol**

157. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod rhai sefydliadau, gan gynnwys lleoliadau chwaraeon ac adloniant a darparwyr trafndiaeth, wedi gosod cyfyngiadau gwirfoddol ar y defnydd o e-sigaréts.

158. Roedd yr Athro John Britton<sup>138</sup> a'r Athro Peter Hajek yn cefnogi cyfyngiadau gwirfoddol yn hytrach na gwaharddiad llwyr mewn mannau cyhoeddus. Esboniodd yr Athro Hajek:

“If it’s coming from above, that does imply that there is a risk to bystanders, that it’s as bad as smoking and that we need to get rid of it. If it’s coming from the owners of the premises who just don’t like the sight of it or don’t want people to be exposed to, whatever, strawberry flavour from e-cigarettes, I think that puts it in a different category. I still wouldn’t be terribly keen for everybody to ban it, but

---

<sup>135</sup> PHB 01 Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd

<sup>136</sup> PHB 68 Martin Hensman LLB (Anrh)

<sup>137</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 271], 1 Gorffennaf 2015

<sup>138</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 205], 1 Hydref 2015

if they had a good reason, it would just be their own decision; there wouldn't be the authority of the state and the medical profession and the evidence, which are all implied if you do it as legislation."<sup>139</sup>

## Esemptiadau

159. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaeth i esemptio mangreoedd, neu fannau penodol mewn mangreoedd, o'r gofyniad i fod yn ddi-fwg. Gall esemptiadau fod yn berthnasol i ysmegu a defnyddio e-sigaréts, ysmegu yn unig, neu ddefnyddio e-sigaréts yn unig.

160. Mae'r esemptiadau presennol o'r cyfyngiadau di-fwg cyfredol yn berthnasol i ystafelloedd penodol mewn cartrefi gofal, hosbisau i oedolion, unedau iechyd meddwl, cyfleusterau ymchwil neu brofi, gwestai, tai llety, tafarndai, hosteli a chlybiau aelodau. Mae'r Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth gan Lywodraeth Cymru sy'n cyd-fynd â'r Bil yn datgan ei fwriad i gadw'r rhan fwyaf o'r esemptiadau hyn mewn perthynas ag ysmegu, ac i gynnwys y defnydd o e-sigaréts yn yr esemptiadau hyn.<sup>140</sup>

161. Yn ystod y sesiwn tystiolaeth lafar ar 1 Gorffennaf, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y gallai fod angen gwneud esemptiadau mewn rhai mannau, ac awgrymodd y gallai enghreifftiau o leoedd o'r fath gynnwys mangreoedd a ddefnyddir gan y diwydiant ffilm a sinema ac ystafelloedd ymgynghori mewn fferyllfeydd.<sup>141</sup>

162. Cyfeiriodd yr Athro Britton at leoliadau iechyd meddwl fel rhywle y dylid eu hesemptio o'r cyfyngiadau. Dadleuodd fod nifer fawr o ysmygwyr mewn lleoliadau o'r fath, ac y gallai llawer ohonynt fod yn ofidus. Felly byddai'n fuddiol gallu defnyddio e-sigarét yn yr amgylchiadau hynny.<sup>142</sup>

163. Mae'r Datganiad o Fwriad y Polisi gan Lywodraeth Cymru yn nodi:

- bydd yr esemptiad ar gyfer unedau iechyd meddwl mewn perthynas ag ysmegu yn cael ei adolygu;
- mae'r Gweinidog yn bwriadu esemptio unedau iechyd meddwl sy'n darparu llety preswyl o'r cyfyngiadau ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus caeedig;
- mae dau adolygiad barnwrol yn cael eu hystyried ar hyn o bryd ynghylch ysmegu mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr;

---

<sup>139</sup> Cofnod y Trafodion [pagraff 261], 1 Hydref 2015

<sup>140</sup> Llywodraeth Cymru [Datganiad o Fwriad y Polisi](#), tudalen 12

<sup>141</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 123], 1 Gorffennaf 2015

<sup>142</sup> Cofnod y Trafodion [pagraff 161], 1 Hydref 2015

- bydd y sefyllfa ynghylch ysmygu mewn carchardai a'r defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin yn cael ei hystyried yn dilyn canlyniad yr achosion hyn; ac
- nid oes unrhyw fwriad ar hyn o bryd i gyfyngu'n llwyr ar y defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin mewn carchardai yng Nghymru.<sup>143</sup>

### ***Y gallu i ddefnyddio e-sigaréts mewn siopau e-sigaréts***

164. Roedd tystiolaeth gan ddefnyddwyr e-sigaréts yn nodi bod y gallu i roi cynnig ar amryw ddyfeisiau a blasau e-sigarét cyn prynu yn elfen bwysig o ran sicrhau bod y cynnyrch y maent yn ei ddewis yn diwallu eu hanghenion. Felly, nodwyd pryderon y byddai cyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig yn atal manwerthwyr e-sigaréts rhag arddangos dyfeisiau ac yn atal cleientiaid rhag gallu rhoi cynnig arnynt mewn siopau e-sigaréts. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Rhydian Mann, defnyddiwr e-sigaréts, y byddai hyn yn lleihau'n sylweddol y nifer o bobl sy'n troi at ddefnyddio e-sigaréts, a fyddai o ganlyniad yn arwain at lai o ostyngiad o ran ysmygu sigaréts tybaco.<sup>144</sup>

### **Mangreuedd di-fwg ychwanegol**

165. Mae adran 8 o'r Bil yn cynnwys pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru ddynodi mannau i fod yn ddi-fwg (mewn perthynas â sigaréts tybaco ac e-sigaréts), yn ogystal â gweithleoedd a mannau cyhoeddus. Ni fyddai angen i leoedd o'r fath fod yn gaeedig nac yn sylweddol gaeedig. Mae Datganiad Llywodraeth Cymru o Fwriad y Polisi yn nodi mai'r bwriad yw creu:

“mannau di-fwg ychwanegol nad ydynt yn gaeedig a allai gynnwys, ond nad ydynt wedi'u cyfyngu i, dir ysbyty, tir ysgol a meysydd chwarae plant”.<sup>145</sup>

166. Ysgrifennodd y Gweinidog at y Pwyllgor ar 17 Hydref, gan ddarparu copi o reoliadau drafft enghreifftiol i wneud tir ysbyty a thir ysgol yn ddi-fwg.<sup>146</sup>

167. Croesawodd tystion ieuchyd y cyhoedd a thystion llywodraeth leol y ddarpariaeth i ymestyn cyfyngiadau ar ysmygu (a chyfyngiad ar ddefnyddio e-sigaréts) i fangreuedd ychwanegol, gan awgrymu y dylid rhoi blaenoriaeth i fannau y mae plant a phobl ifanc yn mynd iddynt yn rheolaidd.

<sup>143</sup> Llywodraeth Cymru [Datganiad o Fwriad y Polisi](#), tudalen 12

<sup>144</sup> PHB 24 Rhydian Mann

<sup>145</sup> Llywodraeth Cymru [Datganiad o Fwriad y Polisi](#), tudalen 8

<sup>146</sup> PHB AI Y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol - 17 Hydref 2015

168. Dywedodd Dr Sara Hayes, Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wrth y Pwyllgor:

"I would welcome being able to extend the smoke-free areas - areas where children congregate. We have smoke-free playgrounds in my area, in my patch, which is a tremendous step forward. That should apply to e-cigarettes as well. There is an issue about enforcement and about how we enact such policies. That is a challenge, but the more power that we put behind that, the better. I would support smoking bans and e-cigarette bans in open cafe areas where people are sitting down eating food. They are not mobile; they can't move away easily from someone who's using an e-cigarette. I think that concept would be very valuable."<sup>147</sup>

169. Dywedodd Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru:

"We do welcome the proposals for extension to outdoor areas, so to non-enclosed spaces. I think, again, from an enforcement perspective, we would expect the owner or the person responsible for those areas to be our initial point of contact in terms of responsibility for making sure that the legislation was complied with. We do welcome it from the perspective - particularly if we're talking about playgrounds, and children's play areas - of protecting those areas so as not to indicate to our young people that smoking is the norm."<sup>148</sup>

170. Aethant ymlaen i ddweud:

"There's a question, then, about how far you go in terms of what's a proportionate response around whether you include beaches and other areas, I suppose. But, certainly, in terms of things like hospital grounds and playgrounds, we are seeing that sort of policy decision being made by the public sector responsible for those areas, which perhaps indicates that there's a desire to do that."<sup>149</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

171. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r rheoliadau drafft enghreifftiol a ddarparwyd gan y Gweinidog i wneud tir ysbyty a thir ysgol yn ddi-fwg. Er bod y Pwyllgor yn croesawu'r cynnig i ymestyn darpariaethau di-fwg o ran ysmygu sigarêts tybaco, mae rhai Aelodau yn pryderu am y bwriad i ymestyn hyn hefyd i'r

---

<sup>147</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 212], 9 Gorffennaf 2015

<sup>148</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 211], 15 Gorffennaf 2015

<sup>149</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 221], 15 Gorffennaf 2015

defnydd o e-sigaréts, yn enwedig os bydd cyfyngiadau o'r fath yn ymestyn y tu hwnt i'r achosion a nodwyd gan y Gweinidog.

### **Goblygiadau ariannol**

172. Ystyriodd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad oblygiadau ariannol y Bil yn fanwl.

173. Tynnodd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sylw mai costau ychwanegol y rhan hon o'r Bil yw'r uchaf o blith holl elfennau'r Bil, sef £8.2 miliwn rhwng 2016-17 a 2020-21, ar ôl ystyried manteision posibl y Bil. O blith y costau hyn, amcangyfrifir mai mannau cyhoeddus a gweithleoedd fydd yn talu £6.5 miliwn o'r costau hyn er mwyn diweddarau eu polisïau di-fwg, a byddant yn wynebu cost yn gysylltiedig â cholli oriau gwaith gan fod angen i ddefnyddwyr e-sigaréts gymryd seibiant ysmegu.<sup>150</sup>

174. Yn ogystal, amcangyfrifir y bydd busnesau e-sigaréts yn colli gwerth tua £1.3 miliwn o'u gwerthiant yn ystod y cyfnod hwn. Bydd Llywodraeth Cymru yn wynebu costau ychwanegol o £300,000 yn 2016-17 ar gyfer cyfathrebu â busnesau a'r cyhoedd (£200,000) ac arwyddion ar gyfer mannau di-fwg (£100,000). Bydd rhywfaint o gostau ychwanegol i'r cyhoedd ac awdurdodau lleol, sef £22,500 a £12,300 yn y drefn honno.<sup>151</sup>

### **Barn y Pwyllgor**

175. Mae crynodeb o'r dystiolaeth uchod yn dangos yr ystod o safbwyntiau a fynegwyd am y cynigion yn Rhan 2, Pennod 1 o'r Bil i gyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig.

176. Nid oedd y Pwyllgor yn gallu dod i gonsensws ynghylch a fyddai darpariaethau'r Bil mewn perthynas ag e-sigaréts yn cyflawni eu nod o wella iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Mae barn Aelodau'r Pwyllgor wedi'i hamlinellu isod.

177. Mae Alun Davies AC, John Griffiths AC, Lynne Neagle AC, Gwyn Price AC a David Rees AC yn cefnogi'r cynigion ym Mhennod 1 o'r Bil i reoleiddio'r defnydd o e-sigaréts oherwydd yr holl ansicrwydd ynghylch effaith hirdymor eu defnyddio. Mae'r gefnogaeth yn seiliedig i raddau helaeth ar y ffaith bod cyfyngiad ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig yn angenrheidiol ac yn gymesur er mwyn gwrthbwysu'r posibilrwydd y gallai defnyddio e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus wneud i ymddygiad ysmegu ddod yn beth normal eto.

---

<sup>150</sup> Memorandwm Esboniadol, tudalen 301

<sup>151</sup> Memorandwm Esboniadol, tudalen 301

178. Dull gwahanol a gefnogir gan John Griffiths AC, Elin Jones AC, Lynne Neagle AC, Gwyn Price AC a David Rees AC fyddai diwygio Pennod 1 o'r Bil i adlewyrchu'r angen i ymdrin yn wahanol ag e-sigarêts a sigarêts tybaco wrth gyfyngu ar eu defnydd mewn mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig. Gellid cyflawni hyn drwy gynnwys ar wyneb y Bil restr o fannau diffiniedig lle y byddai'r defnydd o e-sigarêts yn cael ei wahardd. Mae hyn yn seiliedig ar dderbyn y pryderon ynglŷn â'r perygl y gallai defnyddio e-sigarêts wneud i ymddygiad ysmygu ddod yn beth normal eto.

179. Mae Altaf Hussain AC, Darren Millar AC, Lindsay Whittle AC a Kirsty Williams AC yn gwrthwynebu'r darpariaethau ym Mhennod 1 o'r Bil i gyfyngu ar y defnydd o e-sigarêts mewn mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig am y rhesymau canlynol:

- nid oes digon o dystiolaeth i gefnogi'r farn y gallai'r defnydd o e-sigarêts wneud ymddygiad ysmygu yn normal eto, bod yn fan cychwyn ar gyfer defnyddio sigarêts tybaco, a thanseilio ymdrechion i orfodi'r gwaharddiad presennol ar ysmygu sigarêts tybaco mewn mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig;
- mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn dangos y potensial i e-sigarêts chwarae rhan sylweddol o ran gwella iechyd y cyhoedd a lleihau niwed drwy gynnig dewis mwy diogel yn lle ysmygu;
- gallai cyfyngu ar y defnydd o e-sigarêts gyfleu'r neges bod e-sigarêts yr un mor niweidiol â sigarêts tybaco, a allai atal ysmygwyr rhag newid, gan arwain at y canlyniad anfwriadol o achosi mwy o niwed i iechyd y cyhoedd;
- y dull gweithredu rhagofalus mwy priodol fyddai ymatal rhag deddfu i wahardd y defnydd o e-sigarêts mewn mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig nes bod tystiolaeth fwy cadarn ar gael am effaith hirdymor e-sigarêts.

Ar sail y pwyntiau uchod, mae'r Aelodau hyn yn credu y dylid dileu Pennod 1 o'r Bil. Heb ymrwymiad gan y Gweinidog y bydd yn mynd ati i ddileu Pennod 1 drwy welliannau yng Nghyfnod 2, maent yn credu na ddylai'r Cynulliad gytuno ag egwyddorion cyffredinol y Bil. Fodd bynnag, byddent yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil pe bai'r Gweinidog yn cytuno i ddileu darpariaethau Pennod 1 o'r Bil, ac maent yn awgrymu y gallai'r Gweinidog naill ai gyflwyno'r darpariaethau hynny fel Bil ar wahân ar e-sigarêts (ceir amlinelliad o'r gweithdrefnau a fyddai'n galluogi hyn i ddigwydd yn Atodiad A i'r adroddiad hwn), neu beidio â cheisio'u gweithredu o gwbl.

180. Dewis Elin Jones AC fyddai cael gwared ar y darpariaethau sy'n ymwneud ag e-sigaréts o'r Bil. Serch hynny, byddai hi'n cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil pe bai'r Gweinidog yn cytuno i ddiwygio Pennod 1 o'r Bil i adlewyrchu'r angen i ymdrin ag e-sigaréts a sigaréts tybaco yn wahanol wrth gyfyngu ar eu defnydd mewn mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig, fel a ddisgrifir ym mharagraff 178.

### ***Opsiynau eraill a ystyriwyd***

181. Yn ystod ei drafodaethau, ystyriodd y Pwyllgor hefyd gwneud argymhelliad i ddileu'r darpariaethau ym Mhennod 1 o Ran 2 o'r Bil yn ystod trafodion Cyfnod 2 ac gosod darpariaeth yn eu lle i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol neu uwchgadarnhaol, gyflwyno cyfyngiadau ar y defnydd o e-sigaréts os bydd digon o dystiolaeth yn dod i'r amlwg i ddangos bod angen dull gweithredu o'r fath i ddiogelu iechyd y cyhoedd yng Nghymru.

182. Hefyd, ystyriodd y Pwyllgor y posibilrwydd o ddiwygio'r Bil drwy fewnosod cymal 'codiad haul' a fyddai'n nodi'r meini prawf y mae angen eu bodloni cyn bod modd cychwyn y darpariaethau sy'n ymwneud â chyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts.

183. Er na phenderfynodd y Pwyllgor argymhell y naill ddull gweithredu, hoffai'r Pwyllgor gofnodi yr ystyriwyd yr opsiynau hyn.

### **Hawliau dynol**

#### ***Rhyddid y Cynulliad i ddehongli***

184. Mae'r Pwyllgor yn gwbl ymwybodol o'i rwymedigaeth i ystyried yn briodol unrhyw fater ynghylch hawliau dynol sy'n codi dan y Bil. Mae'r Pwyllgor wedi cael llawer iawn o dystiolaeth ysgrifenedig a llafar sydd wedi caniatáu i Aelodau gynnal ystyriaeth briodol o'r fath.<sup>152</sup> Yn ei dro, mae hyn wedi caniatáu i'r Pwyllgor wneud penderfyniadau gwybodus ar oblygiadau hawliau dynol y Bil, yn enwedig cymesuredd adran 6(4) y Bil yng nghydestun gweithle sydd hefyd yn gartref.

185. Mae'n bwysig nodi, yn enwedig mewn meysydd polisi cymdeithasol fel hyn, fod y llysoedd yn gyffredinol yn cydnabod mai cynrychiolwyr etholedig

---

<sup>152</sup> Mae crynodeb o'r dystiolaeth wedi ei gynnwys yn yr Adroddiad hwn, ond mae manylion llawn yr holl dystiolaeth (yn ysgrifenedig ac ar lafar) a gafodd y Pwyllgor ar gael ar dudalen we'r Bil: <http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=12110>

yw'r bobl orau i benderfynu ar gwestiynau ynghylch polisi cymdeithasol sy'n golygu cydbwysu gwahanol hawliau a rhyddid.

186. Er mwyn adlewyrchu hyn, mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod y Cynulliad yn cael rhyddid i ddehongli (h.y. disgresiwn) wrth benderfynu ar gwestiynau yn ymwneud â gwahanol hawliau a rhyddid. Gan hynny, mae'r pwyllgor wedi ymdrin â'r mater o gymesuredd drwy ofyn iddo ei hun a yw'r dull a fabwysiadwyd gan y Bil (yn enwedig adran 6(4)) o fewn rhyddid y Cynulliad i ddehongli. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ymwybodol, mewn meysydd polisi cymdeithasol fel hyn, fod y rhyddid i ddehongli yn eang, sy'n golygu na fydd y llysoedd fel arfer yn ymyrryd oni bai bod y Cynulliad yn dod i benderfyniad sydd yn amlwg yn ddi-sail - mewn geiriau eraill, yn hynod afresymol neu'n fympwyol.

187. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi bod yn ofalus i wahanu cwestiynau hawliau dynol a chwestiynau polisi. Mae hyn yn golygu nad yw safbwyntiau'r Pwyllgor ar hawliau dynol wedi cael eu dylanwadu gan safbwyntiau polisi. Fel rhan o hyn, mae'r Pwyllgor yn deall y gellir cynnwys safbwyntiau polisi gwahanol o fewn rhyddid y Cynulliad i ddehongli.

### ***Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol***

188. Noda'r Pwyllgor fod Erthygl 8 yn datgan yr hawl i barchu bywyd preifat a bywyd teuluol:

- mae gan bawb yr hawl i barch at ei fywyd preifat a theuluol, ei gartref a'i ohebiaeth;
- ni chaiff awdurdod cyhoeddus ymyrryd ag arfer yr hawl hon ac eithrio'r hyn sy'n unol â'r gyfraith ac sy'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch cenedlaethol, diogelwch y cyhoedd neu les economaidd y wlad, i atal troseddu neu anhrefn, neu i ddiogelu iechyd neu foesau, neu i ddiogelu hawliau a rhyddid pobl eraill.

189. Nodir hefyd nad un hawl yn unig sydd yn Erthygl 8; mae'n cofleidio pedair hawl:

- yr hawl i barch at fywyd preifat;
- yr hawl i barch at fywyd teuluol;
- yr hawl i barch at y cartref;
- yr hawl i barch at ohebiaeth.

190. At hynny, mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw'r hawliau hyn yn hawliau absoliwt. Er enghraifft, nid oes hawl absoliwt i barch at fywyd preifat. Yn lle hynny, mae'r hawliau hyn yn hawliau cymwys. Mae hyn yn golygu y gall y wladwriaeth ymyrryd â'r hawliau hyn, ond dim ond pan fydd ar drywydd un o'r nodau cyfreithlon a nodir yn ail ran Erthygl 8, a bod yr ymyrraeth yn gymesur â'r nod hwnnw.

### ***Cartref sydd hefyd yn weithle***

191. Mae adran 6(4) y Bil yn cyfyngu ysmegu a defnyddio e-sigaréts yn y cartref: (a) yn y rhannau hynny o'r cartref a ddefnyddir fel gweithle, a (b) yn ystod yr oriau mae'r rhannau hynny yn cael eu defnyddio fel gweithle.

192. Gellir dangos hyn drwy ddefnyddio'r enghraifft o gartref sydd â phedair ystafell, ac un ohonyn nhw'n cael ei defnyddio fel man gwaith rhwng 9am a 5pm. Yn Ffigur 1 isod, byddai ysmegu a defnyddio e-sigaréts yn cael ei gyfyngu yn Ystafell 1 rhwng 9am a 5pm. Ni fyddai ysmegu a defnyddio e-sigaréts yn cael ei gyfyngu yn Ystafell 1 rhwng 5pm a 9am. Ni fyddai ysmegu a defnyddio e-sigaréts yn cael ei gyfyngu o gwbl yn Ystafelloedd 2, 3, a 4 gan nad ydyn nhw byth yn cael eu defnyddio fel mannau gwaith.

**Ffigur 1**



### **Gweithleoedd a chartrefi – ysmegu tybaco**

193. Yng nghyd-destun gweithle sydd hefyd yn gartref, noda'r Pwyllgor bod y ddwy hawl a ganlyn yn Erthygl 8 yn cystadlu yn erbyn ei gilydd:

- mae gan ysmygwr sigaréts tybaco y mae ei gartref yn weithle yr hawl i ysmegu yn ei gartref;

- mae gan un nad yw'n ysmegu sy'n mynd i weithio mewn gweithle o'r fath yr hawl i beidio â bod yn agored i niwed a achosir gan fwg tybaco (boed hynny'n fwg ail-law yn deillio'n uniongyrchol o sigarét tybaco wedi ei chynnu, neu fwg tybaco trydydd llaw sy'n ymaros yn yr awyr ac mewn dodrefn meddal).

### ***Yr hawl i ysmegu yn eich cartref eich hun***

194. Dan adran 6(4) y Bil, ni fyddai unrhyw un sy'n byw yn y cartref yn cael ysmegu sigarêts tybaco yn ei gartref / ei chartref: (a) yn y rhannau hynny o'r cartref a ddefnyddir fel gweithle, a (b) yn ystod yr oriau y mae'r rhannau hynny'n cael eu defnyddio fel gweithle. Os yw'r unigolyn hwnnw'n dymuno ysmegu yn ei gartref yn ystod oriau gwaith, yna byddai'n rhaid iddo ddefnyddio rhan arall o'r cartref. I gyfeirio'n ôl at Ffigur 1, byddai'n rhaid i'r unigolyn sy'n byw yn y cartref fynd i Ystafell 2, 3 neu 4 (neu fynd y tu allan).

195. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod materion yn dod yn fwy cymhleth os, er enghraifft, yw'r cartref yn fach gyda dewisiadau cyfyngedig ar gyfer ysmegu mewn ystafell arall. Mae materion yn cael eu cymhlethu hefyd gan y ffaith nad yw llawer o bobl yn gweithio oriau safonol. Er enghraifft, gall unigolyn sy'n byw yn y cartref wirio negeseuon e-bost gwaith yn ysbeidiol yn Ystafell 4 yn ystod y nos. Os yw hynny'n ddigon i wneud Ystafell 4 yn fan gwaith ysbeidiol drwy'r nos, yna ni fyddai unrhyw un sy'n byw yn y cartref yn cael ysmegu yn Ystafell 4 tra mae'r negeseuon e-bost gwaith hynny'n cael eu gwirio.

196. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi ystyried bod pobl yn gyffredinol yn dewis defnyddio eu cartref fel gweithle, ac felly mae elfen o ddewis cael cyfyngiadau gweithle yn y cartref. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor hefyd yn ymwybodol nad oes gan rai pobl ddewis, neu fawr o ddewis fel arall, ond gweithio gartref (boed hynny oherwydd iechyd, teulu neu resymau cymdeithasol). Ar y pwynt hwnnw, mae'r Pwyllgor yn ymwybodol os mai dim ond un sy'n gweithio yn y cartref (ac nad yw'r cyhoedd yn dod i'r cartref i gasglu nwyddau/gwasanaethau), yna nid yw'n "weithle" at ddibenion y Bil, ac nid oes unrhyw gyfyngiad ar ysmegu yn y cartref.

### ***Yr hawl i gael eich diogelu rhag niwed***

197. Dan adran 6(4) y Bil, mae'r sawl nad yw'n ysmegu sy'n mynd i weithio yn Ystafell 1 yn cael ei warchod rhag mwg ail-law<sup>153</sup> oherwydd na chaniateir

---

<sup>153</sup> Mwg ail-law yw mwg sy'n dod yn uniongyrchol o sigarét wedi ei thanio. Mwg trydydd llaw yw'r mwg gweddilliol sy'n ymaros yn yr awyr ac mewn dodrefn meddal ar ôl i rywun fod yn ysmegu.

ysmygu yn Ystafell 1 yn ystod oriau gwaith. Ar y pwynt hwnnw, mae'r Pwyllgor wedi ystyried materion fel nad yw drysau mewn cartrefi yn cael eu cau bob amser, a'r potensial i fwg ail-law symud, dyweder, o Ystafell 2 i Ystafell 1 yn ystod oriau gwaith. Fodd bynnag, o ystyried y gyfraith ar hyn o bryd bod ysmegu yn cael ei ganiatáu yn Ystafell 1 ar unrhyw adeg (hyd yn oed pan fydd eraill yn gweithio yno), mae'r Pwyllgor yn ystyried y Bil yn gam ymlaen ar gyfer hawliau gweithwyr o'r fath (gan hefyd fod yn gam yn ôl i hawliau pobl sy'n byw yn y cartref i wneud fel maen nhw'n dymuno yn y cartref).

198. Mae'r Pwyllgor yn derbyn y byddai'r gweithiwr nad yw'n ysmegu yn cael ei amlygu i fwg trydydd llaw sy'n ymaros yn yr awyr ac mewn dodrefn meddal o'r oriau pan ganiateir ysmegu yn Ystafell 1. Cymharol brin yw'r dystiolaeth mae'r Pwyllgor wedi ei chanfod o niwed gwirioneddol a achoswyd gan fwg trydydd llaw o'r fath, ond noda'r Pwyllgor:

- gallai mwg o'r fath fod wedi deillio o ysmegu ychydig funudau cyn cychwyn oriau gwaith, ac os felly mae'n fwg ail-law mewn ffordd;
- dylid cynnal rhagor o ymchwil i'r niwed a allai gael ei achosi gan fwg tybaco trydydd llaw.

199. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, mae'r Pwyllgor yn ystyried bod y Bil yn gam ymlaen ar gyfer gweithwyr nad ydyn nhw'n ysmegu, gan fod y gyfraith bresennol yn darparu bod ysmegu yn cael ei ganiatáu bob amser mewn rhannau o'r cartref a ddefnyddir fel gweithle *ac* fel cartref (ar hyn o bryd, dim ond yn y rhannau hynny o'r cartref sy'n cael eu defnyddio fel man gwaith *yn unig* mae ysmegu'n cael ei wahardd, ar wahân i rai eithriadau ynghylch gofal personol a domestig ac ati).

### ***Safbwynt y Pwyllgor (gweithleoedd a chartrefi – ysmegu tybaco)***

200. Mae'r Pwyllgor yn derbyn bod y ddwy hawl yn Erthygl 8 yn cystadlu yn erbyn ei gilydd, ac na ellir gwarchod y naill hawl na'r llall yn gyfan gwbl – gan hynny, rhaid cael cyfaddawd.

201. Er gwaethaf:

- fod y Bil yn ehangu ymyrraeth y wladwriaeth â'r hawl i barch at y cartref,
- y posibilrwydd y gallai fod yn anodd dod o hyd i ystafell arall yn y cartref i ysmegu,

- y ffaith nad oes gan rai pobl ddewis, neu fawr o ddewis fel arall, ond gweithio gartref,
- y posibilrwydd o fwg tybaco trydydd llaw yn achosi niwed,

daw'r Pwyllgor i'r casgliad, am y rhesymau a nodir isod, nad yw'r cydbwysedd a gyrhaeddwyd yn y Bil yn amlwg ddi-sail, a'i fod o fewn rhyddid y Cynulliad i ddehongli.

202. Y rhesymau yw:

- manteision pwysig iawn amddiffyn gweithwyr rhag niwed mwg ail law;
- dim ond ar gyfer y rhannau hynny o'r cartref sy'n cael eu defnyddio fel gweithle y mae'r cyfyngiad ar ysmegu'n berthnasol;
- yr unig dro mae pobl sy'n byw yn y cartref yn cael eu hatal rhag ysmegu yn y rhannau hynny yw yn ystod yr oriau mae'r cartref yn cael ei ddefnyddio fel gweithle;
- gall y rhai sy'n byw yn y cartref ysmegu ar unrhyw adeg yn unrhyw ran o'r cartref nad yw'n cael ei ddefnyddio fel gweithle (neu gall yr unigolyn fynd y tu allan, fel y byddai'n rhaid iddo/iddi wneud pe bai'n gweithio mewn gweithle traddodiadol); a
- diffyg tystiolaeth bendant o'r niwed a allai gael ei achosi gan fwg tybaco trydydd llaw.

### **Gweithleoedd a chartrefi – e-sigaréts**

203. Canfu'r Pwyllgor fod y materion hawliau dynol yng nghyd-destun e-sigaréts yn llawer llai syml nag yng nghyd-destun sigaréts tybaco.

#### ***Yr hawl i ddefnyddio e-sigaréts yn eich cartref eich hun***

204. Mae'r Bil yn trin sigaréts tybaco ac e-sigaréts yn union yr un ffordd â'i gilydd, felly mae paragraffau 194 i 196 (sy'n crynhoi sut mae'r darpariaethau ynghylch tybaco yn y Bil ymyrryd â'r hawl i barch at y cartref) yn gymwys yn yr un ffordd i e-sigaréts.

#### ***Ymyrryd â'r hawl i barch at y cartref - a yw hynny o fewn rhyddid y Cynulliad i ddehongli?***

205. Y cwestiwn ar gyfer y Pwyllgor oedd a yw'r ymyrraeth â'r hawl i ddefnyddio e-sigaréts yn y cartref o fewn rhyddid y Cynulliad i ddehongli. Mae'r Pwyllgor yn gweld dau faes sy'n berthnasol i ateb y cwestiwn hwnnw.

- A yw'r risg posibl o niwed a achosir i eraill drwy anwedd e-sigaréts yn cyfiawnhau'r ymyrraeth a lefel arfaethedig yr ymyrraeth â hawl i barch at y cartref?
- Mae'r Bil yn mabwysiadu dull rhagofalus i fynd i'r afael â materion fel: (1) y potensial i e-sigaréts ailnormaleiddio ysmegu, (2) y potensial i blant a phobl ifanc ddechrau ysmegu sigaréts tybaco o ganlyniad i ddefnyddio e-sigaréts, a (3) yr anawsterau gorfodi mae e-sigaréts yn eu hachosi. A yw'r ffactorau hyn yn cyfiawnhau ymyrraeth a lefel arfaethedig yr ymyrraeth â hawl i barch at y cartref?

206. O ran y risg posibl o niwed a achosir gan anwedd e-sigaréts, mae'r Pwyllgor yn ystyried bod diffyg tystiolaeth ar hyn o bryd o'r niwed y gallen nhw ei achosi (er bod y Pwyllgor yn derbyn bod y niwed o anwedd e-sigaréts yn llawer is na'r niwed yn deillio o fwg tybaco). Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu fod y Pwyllgor yn derbyn nad oes unrhyw niwed yn deillio o anwedd e-sigaréts, a dylid adolygu tystiolaeth o niwed / diffyg niwed yn rheolaidd.

207. O ran y dull gweithredu rhagofalus a amlinellwyd gan y Gweinidog, mae'r Pwyllgor wedi cael llawer iawn o dystiolaeth ynghylch materion ailnormaleiddio, yr effaith porth a gorfodi (a drafodwyd yn gynharach yn y bennod hon). Mae'r dystiolaeth hon wedi caniatáu i'r Pwyllgor gymhwyso'r materion hyn i gyd-destun gweithle sydd hefyd yn gartref, gan ganiatáu i'r Pwyllgor ddod i gasgliadau gwybodus ynghylch a yw'r Bil yn sicrhau cydbwysedd sydd o fewn rhyddid y Cynulliad i ddehongli.

### ***Safbwynt y Pwyllgor (gweithleoedd a chartrefi – e-sigaréts)***

208. Nid yw'r Pwyllgor yn gytûn ar y mater a yw'r Bil yn sicrhau cydbwysedd sydd o fewn rhyddid y Cynulliad i ddehongli.

209. Daeth pum aelod<sup>154</sup> i'r casgliad fod y cyfyngiad ar ddefnyddio e-sigaréts yn y cartref sydd hefyd yn weithle o fewn rhyddid y Cynulliad i ddehongli. Mae rhesymu tebyg yn berthnasol i'r hyn a nodwyd ar gyfer ysmegu tybaco ym Mharagraffau 201 a 202 uchod, ac eithrio nad yw budd diogelu gweithwyr rhag niwed o anwedd e-sigaréts yn cario'r un pwysau â budd diogelu gweithwyr rhag niwed mwg tybaco. Fodd bynnag, mae'r Aelodau hyn yn ystyried bod gostyngiad yn cael ei wrthbwysu gan yr angen i ddiogelu rhag y risg o ailnormaleiddio, yr effaith porth ac anawsterau gorfodi. Gan hynny, daeth yr Aelodau hyn i'r casgliad bod y cydbwysedd sydd yn y Bil o fewn rhyddid y Cynulliad i ddehongli.

---

<sup>154</sup> Alun Davies AC, John Griffiths AC, Lynne Neagle AC, Gwyn Price AC a David Rees AC

210. Fodd bynnag, daeth pum aelod<sup>155</sup> i'r casgliad fod y cyfyngiad ar ddefnyddio e-sigaréts yn mynd y tu hwnt i ryddid y Cynulliad i ddehongli. Mae'r Aelodau hyn yn credu bod yr ymyrraeth â'r hawl i ddefnyddio e-sigaréts yn y cartref yn mynd yn rhy bell; maen nhw'n pwysleisio pwysigrwydd parch at fywyd y cartref. Nid yw'r Aelodau hyn yn derbyn y byddai cyfyngu ar ddefnyddio e-sigaréts yng nghyd-destun gweithle sydd hefyd yn gartref yn mynd i'r afael â materion fel ailnormaleiddio, yr effaith porth ac anawsterau gorfodi (yn enwedig o ystyried y nifer cymharol fychan o bobl sydd efallai'n gweld/profi'r defnydd o e-sigaréts yng nghyd-destun gweithle sydd hefyd yn gartref). Nid yw'r Aelodau hyn yn credu bod digon o dystiolaeth o niwed gwirioneddol a achosir gan anwedd e-sigaréts i gyfiawnhau ymyrraeth gan y wladwriaeth. Maen nhw'n credu na ddylai'r wladwriaeth gyfyngu ar ddefnyddio e-sigaréts mewn cartref sydd hefyd yn weithle. Gan hynny, daw'r Aelodau hyn i'r casgliad nad yw'r cydbwysedd sydd yn y Bil o fewn rhyddid y Cynulliad i ddehongli.

---

<sup>155</sup> Altaf Hussain AC, Elin Jones AC, Darren Millar AC, Lindsay Whittle AC a Kirsty Williams AC

## 5. Rhan 2 – Darpariaethau eraill sy'n ymwneud â thybaco a chynhyrchion nicotin

---

### Manwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin

211. Mae Pennod 2 Rhan 2 y Bil yn cynnwys darpariaethau ar gyfer sefydlu cofrestr genedlaethol o dybaco a chynhyrchion nicotin.

212. Nodir yn y Memorandwm Esboniadol nad oes dull o olrhain manwerthwyr sy'n gwerthu tybaco neu gynhyrchion nicotin ar hyn o bryd, a bod awdurdodau lleol yn gorfod dibynnu ar wybodaeth leol i orfodi deddfwriaeth tybaco. Nodir yn y Memorandwm Esboniadol mai diben y darpariaethau ym Mhennod 2 yw:

“diogelu plant a phobl ifanc o dan 18 oed rhag y niwed sy'n gysylltiedig â defnyddio tybaco a nicotin. Cyflawnir hyn trwy roi rhestr benodol i awdurdodau lleol o'r manwerthwyr sy'n gwerthu cynhyrchion tybaco a/neu nicotin yn ardal eu hawdurdod. Bydd hyn yn cynorthwyo swyddogion safonau masnach yn yr ardaloedd hyn i orfodi deddfwriaeth tybaco sydd eisoes yn bodoli, a rhoi canllawiau a gwybodaeth i fanwerthwyr am eu cyfrifoldebau o ran deddfwriaeth tybaco a chynhyrchion nicotin” .<sup>156</sup>

213. Byddai'n rhaid i bob manwerthwr sy'n gwerthu naill ai gynhyrchion tybaco neu gynhyrchion nicotin yng Nghymru gofrestru ag Awdurdod Cofrestru Cenedlaethol (i'w nodi mewn rheoliadau) er mwyn cael caniatâd i werthu'r cynhyrchion hyn. Bydd yn ofynnol i'r Awdurdod Cofrestru gyhoeddi rhestr o enwau'r holl unigolion cofrestredig, a chyfeiriad pob mangre lle mae tybaco neu gynhyrchion nicotin yn cael eu gwerthu. Rhaid i'r rhestr hon, a gwybodaeth arall yn y gofrestr sy'n ymwneud â mangreoedd o fewn eu hardaloedd, fod ar gael i'r awdurdod lleol perthnasol.

214. Gall unigolyn sy'n gwneud cais i gael ei gynnwys ar y gofrestr gyflwyno un ffurflen gais i gynnwys yr holl fangreoedd lle mae'n gwerthu tybaco neu gynhyrchion nicotin. Byddai'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig roi gwybod i'r Awdurdod Cofrestru am unrhyw newid yn ei amgylchiadau fel y gellir cadw'r gofrestr yn gyfredol. Byddai'n drosedd, yn agored i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 2 ar y raddfa safonol (sydd wedi ei phennu'n £500 ar hyn o bryd), os yw mangreoedd yng Nghymru yn gwerthu tybaco neu gynhyrchion nicotin heb gael eu cofrestru, neu os yw unigolyn cofrestredig yn methu â rhoi gwybod i'r Awdurdod Cofrestru am newidiadau i'w amgylchiadau.

---

<sup>156</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 88

215. Awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am orfodi'r darpariaethau hyn. Mae'r Bil yn darparu pwerau mynediad i fangreoeedd yng Nghymru i swyddogion awdurdodau lleol lle ceir sail resymol dros gredu bod trosedd wedi ei chyflawni, neu y gall fod yn cael ei chyflawni. Ni fyddai'r pwerau mynediad yn ymestyn i fangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd heb warant gan ynad heddwch. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth ar gyfer pwerau arolygu i swyddogion awdurdodedig awdurdodau lleol, ac ar gyfer troseddau, yn ddarostyngedig i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol (sydd wedi ei phennu'n £1,000 ar hyn o bryd), i'r rhai sy'n rhwystro swyddogion o'r fath.

216. Mae adran 38 yn darparu y gall swyddogion awdurdodedig roi hysbysiadau cosb benodedig mewn perthynas â throeddau penodol, ar wahân i'r rhai sy'n ymwneud â gweithredu busnes tybaco neu nicotin heb fod wedi eu cofrestru, neu rwystro swyddog awdurdodedig.

217. Nodir yn adran 39(2) y byddai rheoliadau a gaiff eu gwneud dan y weithdrefn gadarnhaol yn pennu'r disgrifiad o "gynnyrch nicotin". Nodir yn Natganiad o Fwriad Polisi Llywodraeth Cymru bod Gweinidogion Cymru yn bwriadu defnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau yn yr adran hon i ddiffinio "cynhyrchion nicotin" fel unrhyw gynnyrch nicotin sy'n destun cyfyngiad oedran o ran ei werthu. Byddai hyn yn cynnwys e-sigaréts. Mae'n dweud na fyddai cynnyrch nicotin sydd wedi eu trwyddedu fel meddyginiaethau yn cael eu cynnwys o fewn y diffiniad o "gynnyrch nicotin".<sup>157</sup>

## Gorfodi

218. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y byddai'r gofrestr yn ffordd bwysig iawn o gryfhau gallu'r system i blismona'r mesurau a roddwyd ar waith.<sup>158</sup>

219. Roedd rhanddeiliaid yn cytuno'n gyffredinol â'r farn hon. Dywedodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd bod y dull yn gyson â Chynllun Gweithredu Cymru ar Reoli Tybaco<sup>159</sup>, ei fod yn ymarferol ac yn gymesur, ac y gallai gryfhau'r agenda rheoli tybaco yng Nghymru.<sup>160</sup>

220. Nododd Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn tystiolaeth ysgrifenedig y byddai'r gofrestr yn cefnogi gorfodi deddfwriaeth tybaco berthnasol, gan

---

<sup>157</sup> Llywodraeth Cymru [Datganiad o Fwriad Polisi](#), tudalen 24

<sup>158</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 104], 1 Gorffennaf 2015

<sup>159</sup> Llywodraeth Cymru, [Cynllun Gweithredu Cymru ar Reoli Tybaco](#), Chwefror 2012

<sup>160</sup> PHB 78 Cymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd

gynnwys gwerthu dan oed a rheoliadau arddangos.<sup>161</sup> Cytunodd Cymdeithas Fasnach y Diwydiant Sigaréts Electronig â hyn, gan nodi:

“Enforcement action of all types will be facilitated by having a register of all vendors of tobacco and other nicotine containing products”.<sup>162</sup>

221. Clywodd y Pwyllgor y byddai'r gofrestr yn galluogi asiantaethau ieuchyd y cyhoedd i nodi mangreoedd sy'n gwerthu tybaco'n anghyfreithlon, monitro tueddiadau mewn gwerthiant anghyfreithlon a diffyg cydymffurfio, ac yn galluogi swyddogion safonau masnach i nodi manwerthwyr ar gyfer profion prynu.<sup>163</sup>

222. Clywodd y Pwyllgor hefyd safbwyntiau gwahanol ynghylch a fyddai'r gofrestr yn effeithiol wrth fynd i'r afael â phryderon ynghylch lefel y gwerthiannau tybaco anghyfreithlon yng Nghymru. Roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn y byddai'r gofrestr yn helpu i nodi'r mangreoedd hynny lle mae tybaco a chynhyrchion nicotin yn cael eu gwerthu'n gyfreithlon, a fyddai yn ei dro yn cynorthwyo gyda gorfodaeth.<sup>164</sup> Dywedodd Dr Sara Hayes, Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, wrth y Pwyllgor:

“The idea is that if you have a registered outlet, you should know what's going through that outlet. If cigarettes are coming through non-registered outlets, there's a reason behind that, isn't there? It helps.”<sup>165</sup>

223. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth hefyd y byddai'r gofrestr yn helpu i gyfyngu mynediad at y sector manwerthu tybaco a nicotin i'r bobl a'r mangreoedd hynny nad oedd yn briodol.<sup>166</sup>

224. Fodd bynnag, clywodd y Pwyllgor bryderon hefyd na fyddai'r gofrestr yn ddigonol i fynd i'r afael â phroblemau tybaco anghyfreithlon, gan y byddai manwerthwyr anghyfrifol yn debygol o osgoi cofrestru.<sup>167</sup> Nododd y Gymdeithas Siopau Cyfleustra yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer gweithgarwch gorfodi. Dywedodd y dylai gweithgarwch gorfodi ganolbwyntio

---

<sup>161</sup> PHB 03 Iechyd Cyhoeddus Cymru

<sup>162</sup> PHB 50 Cymdeithas Fasnach y Diwydiant Sigaréts Electronig

<sup>163</sup> PHB 03 Iechyd Cyhoeddus Cymru a PHB 04 Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd

<sup>164</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 64], 15 Gorffennaf 2015, PHB 01 Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, PHB 03 Iechyd Cyhoeddus Cymru a PHB 04 Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd

<sup>165</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 216], 9 Gorffennaf 2015

<sup>166</sup> PHB 04 Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd

<sup>167</sup> PHB 90 Ffederasiwn Cenedlaethol Manwerthwyr Papurau Newydd

ar fynd i'r afael â'r fasnach tybaco anghyfreithlon, y nododd ei bod yn costio tua £2 biliwn y flwyddyn.<sup>168</sup> Dywedodd y Gymdeithas Siopau Cyfleustra bod angen i'r drefn a'r sancsiynau gorfodi cyfredol ar gyfer gwerthu tybaco anghyfreithlon gael eu gweithredu'n fwy trylwyr.<sup>169</sup>

225. Codwyd rhai pryderon gan Gyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd (Cymru) am y geiriad yn adran 29(5), sy'n datgan:

“Mae person cofrestredig sy'n methu, heb esgus rhesymol, â chydymffurfio ag adran 25 (dyletswydd i hysbysu am newidiadau penodol) yn cyflawni trosedd.”<sup>170</sup>

226. Nododd Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd fod "esgus rhesymol" yn eu barn nhw yn anghyson â'r derminoleg a ddefnyddir mewn deddfwriaeth arall i ddefnyddwyr, ac y gallai arwain at y rhai a fethodd â rhoi gwybod am newidiadau i'r gofrestr yn osgoi camau gorfodi priodol.<sup>171</sup>

227. Wrth siarad ar ran Iechyd Cyhoeddus Cymru, dywedodd Dr Julie Bishop wrth y Pwyllgor fod sefydlu'r gofrestr yn un o'r mesurau "pwysicaf" yn y Bil, gan y byddai'n helpu i orfodi deddfwriaeth gwerthu dan oed sydd eisoes yn bodoli. Gan ddyfynnu gwaith ymchwil diweddar, disgrifiodd gysylltiad rhwng nifer y mannau manwerthu a nifer yr achosion o ysmegu mewn ardal, a dywedodd wrth y Pwyllgor fod hynny'n cyfrannu at ailnormaleiddio ysmegu. Dywedodd y byddai'r gofrestr dros amser yn rhoi cyfle i awdurdodau lleol ddechrau edrych ar unrhyw grynodiad o fanwerthwyr tybaco, a defnyddio eu hasesiadau o anghenion cynllunio a lles i ddelio â hyn.<sup>172</sup>

228. Roedd Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd (Cymru) yn rhannu'r farn hon, a ddywedodd mewn tystiolaeth ysgrifenedig y gallai'r gofrestr alluogi rhoi cyfyngiadau ar werthu cynhyrchion nicotin neu dybaco o fewn pellter dynodedig o ysgolion neu golegau.<sup>173</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

229. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â rhanddeiliaid y bydd y gofrestr yn cefnogi gwell gorfodi ar deddfwriaeth tybaco a chynhyrchion nicotin. Dylai gallu awdurdodau lleol ac asiantaethau iechyd y cyhoedd i fonitro tueddiadau wella'r sylfaen dystiolaeth sydd ar gael i gynllunio a gweithredu

---

<sup>168</sup> PHB 74 Y Gymdeithas Siopau Cyfleustra

<sup>169</sup> Cofnod y Trafodion [paragraffau 194 a 196], 23 Medi 2015

<sup>170</sup> Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) adran 29(5)

<sup>171</sup> PHB 04 Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd

<sup>172</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 92], 9 Gorffennaf 2015

<sup>173</sup> PHB 04 Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd

gweithgareddau gorfodi. Bydd yr wybodaeth lefel uwch am grynodiad a dosbarthiad manwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin hefyd yn werthfawr i awdurdodau lleol wrth gyflawni asesiadau anghenion lles a gwneud penderfyniadau cynllunio.

### **Lleihau'r arfer o ysmegu ymysg pobl ifanc**

230. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog, a nifer o randdeiliaid, mai un o effeithiau'r gofrestr fyddai gwella'r offer sydd ar gael i atal pobl sy'n iau na'r oedran cyfreithiol i ysmegu rhag gwneud hynny.<sup>174</sup>

231. Cyfeiriodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd at arolwg a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Lloegr gan y Ganolfan Wybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a ganfu fod 44 y cant o ysmygwyr ifanc wedi dweud eu bod nhw'n gallu prynu tybaco o fangreoedd manwerthu er eu bod nhw dan 18 oed. Gan hynny, cred Cymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd y byddai'r gefnogaeth y byddai'r gofrestr yn ei darparu ar gyfer gorfodi a chydymffurfio yn helpu i leihau'r arfer o ysmegu ymysg pobl ifanc.<sup>175</sup>

232. Nododd Iechyd Cyhoeddus Cymru y byddai ei gwneud yn ofynnol i fanwerthwyr tybaco gofrestru yn cyfrannu at ddadnormaleiddio, gan y byddai'n dangos nad yw yr un fath â chynhyrchion eraill i ddefnyddwyr, ac na ddylai fod ar gael i'w werthu yn yr un ffordd.<sup>176</sup>

233. Dywedodd y Gynghrair Manwerthwyr Tybaco wrth y Pwyllgor nad oedd yn gwrthwynebu cofrestr manwerthwyr tybaco yng Nghymru os bydd yn helpu i wella lefel y gydymffurfiaeth â rheoliadau gwerthu i rai dan oed, yn benodol mewn perthynas ag atal gwerthu i blant.<sup>177</sup>

234. Fodd bynnag, nid oedd y Gymdeithas Siopau Cyfleustra wedi ei pherswadio y byddai cofrestr yn lleihau gwerthu dan oed. Cyfeiriodd at ddata diweddar gan y Ganolfan Wybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y dywedodd ei fod yn dangos bod 64 y cant o bobl ifanc a ddefnyddiodd gynnyrch sydd â chyfyngiadau oedran, fel alcohol a thybaco, yn gwneud hynny drwy bobl eraill, gan gynnwys rhieni neu frodyr a chwiorydd hŷn, yn hytrach nag o siopau lleol.<sup>178</sup>

---

<sup>174</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 103], 1 Gorffennaf 2015, PHB 03 Iechyd Cyhoeddus Cymru, PHB 05 Conffederasiwn GIG Cymru a PHB 84 Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol

<sup>175</sup> PHB 78 Cymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd

<sup>176</sup> PHB 03 Iechyd Cyhoeddus Cymru

<sup>177</sup> PHB 98 Y Gynghrair Manwerthwyr Tybaco

<sup>178</sup> PHB 74 Y Gymdeithas Siopau Cyfleustra

## **Barn y Pwyllgor**

235. Noda'r Pwyllgor y dystiolaeth gymysg a gafodd am effaith bosibl y gofrestr ar werthu tybaco neu gynhyrchion nicotin i rai dan oed. Er ei fod yn cydnabod y gwaith ymchwil a nodwyd gan y Gymdeithas Siopau Cyfleustra, mae'r Pwyllgor yn argyhoeddedig y gallai'r cyfleoedd i wella gweithgarwch gorfodi a chydymffurfio a fyddai'n dod yn sgil y gofrestr, gael effaith ar ysmegu dan oed.

## **Cynnwys ar y gofrestr**

236. Clywodd y Pwyllgor amrywiaeth o safbwyntiau ynghylch pa fanwerthwyr ddylai gael eu cynnwys ar y gofrestr. Nododd Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd (Cymru) y dylid cynnwys gweithgynhyrchwyr a dosbarthwyr cynhyrchion tybaco yn y gadwyn gyflenwi, gyda throedd newydd o werthu neu ddosbarthu cynhyrchion tybaco yn wynebu unrhyw un nad ydyn nhw wedi eu cynnwys ar y gofrestr.<sup>179</sup> Dywedodd y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd y dylai fod yn ofynnol i fanwerthwyr ar-lein gofrestru hefyd i sicrhau cydraddoldeb â manwerthwyr corfforol.<sup>180</sup>

237. Dywedodd rhai rhanddeiliaid wrth y Pwyllgor y dylai manwerthwyr e-sigaréts gael eu cynnwys ar y gofrestr hefyd.<sup>181</sup> Ar y llaw arall, dywedodd y New Nicotine Alliance UK bod angen gwahaniaethu'n glir rhwng e-sigaréts a chynhyrchion tybaco. Er mwyn nodi'r gwahaniaeth hwn yn glir, galwodd am sefydlu cofrestrau ar wahân i fanwerthwyr cynhyrchion tybaco, a manwerthwyr cynhyrchion nicotin. Fodd bynnag, cwestiynodd New Nicotine Alliance UK a Totally Wicked Ltd a oedd angen cofrestr o fanwerthwyr cynhyrchion nicotin, gan ddweud bod diffyg eglurder ynghylch sut byddai'n cefnogi gwella iechyd y cyhoedd.<sup>182</sup> Nododd ASH Cymru hefyd y byddai "o blaid rhoi manwerthwyr tybaco ar gofrestr ar wahân i fanwerthwyr cynhyrchion nicotin, o gofio bod y rhain yn gynhyrchion gwahanol iawn".<sup>183</sup>

238. Cafwyd barn gymysg ynghylch a ddylai fod yn ofynnol i fanwerthwyr cynhyrchion therapi amnewid nicotin gofrestru. Nododd Totally Wicked Ltd (busnes gweithgynhyrchu e-sigaréts) nad oedd yn cefnogi'r cynnig i sefydlu cofrestr genedlaethol, a chwestiynodd y rhesymeg dros gynnwys e-sigaréts ond nid cynhyrchion therapi disodli nicotin trwyddedig. Dywedodd fod y nicotin a ddefnyddir mewn hylif ar gyfer e-sigaréts yr un fath â'r hyn a

<sup>179</sup> PHB 04 Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd

<sup>180</sup> PHB 78 Cymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd

<sup>181</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 167], 23 Medi 2015 a PHB 03 Iechyd Cyhoeddus Cymru

<sup>182</sup> PHB 61 New Nicotine Alliance UK a PHB 72 Totally Wicked Ltd

<sup>183</sup> PHB 48 ASH Cymru

ddefnyddir mewn cynnyrch disodli nicotin, ac felly y dylai manwerthwyr y cynhyrchion hyn gael eu trin yn gyfartal.<sup>184</sup> Argymhellodd y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol fod pob fferyllfeydd cofrestredig sy'n cyflenwi cynhyrchion nicotin yn cael ei gynnwys yn awtomatig ar y gofrestr.<sup>185</sup> Ar y llaw arall, clywodd y Pwyllgor bryderon gan Celesio UK a Lloyds Pharmacy y gallai fod yn ofynnol i fferyllfeydd cymunedol gofrestru o ganlyniad i'w rôl mewn gwerthu a chyflenwi cynhyrchion therapi amnewid nicotin trwyddedig, oni bai y byddai diffiniad mwy penodol a fyddai'i eithrio cynhyrchion wedi eu trwyddedu fel cymhorthion rhoi'r gorau i ysmegu.<sup>186</sup>

239. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod y sylwadau a gafodd gan y diwydiant manwerthu wedi dangos eu bod yn ffafrio un gofrestr, er mwyn osgoi dwy set o rwymedigaethau a chostau.<sup>187</sup>

240. Dywedodd Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd (Cymru) wrth y Pwyllgor y dylai lle ar y gofrestr fod yn amodol ar brawf unigolyn addas a phriodol. Roedden nhw o'r farn y dylai'r broses o ganiatáu cais am le ar y gofrestr ystyried unrhyw euogfarn am werthu nwyddau sydd â chyfyngiadau i blant dan oed, fel alcohol neu dddyddion. At hynny, dywedodd y Cyfarwyddwyr y dylai swyddogion gorfodi awdurdodau lleol gael pwerau i gyfyngu mynediad at y gofrestr, neu ddileu pobl oddi ar y gofrestr, os ydyn nhw wedi cyflawni troseddau neu dramgwyddau perthnasol.<sup>188</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

241. Cytuna'r Pwyllgor â thystion y dylai'r gofrestr fod yn gymwys i fanwerthwyr sy'n gwerthu e-sigarêts a'r rhai sy'n gwerthu cynhyrchion nicotin, neu dybaco, eraill fel ei gilydd. Mae Adran 39 y Bil yn diffinio cynhyrchion tybaco at ddibenion y Bennod, ac yn darparu y bydd "cynhyrchion nicotin" yn cael eu diffinio yn y rheoliadau. Noda'r Pwyllgor yn Natganiad o Fwriad Polisi Llywodraeth Cymru mai'r bwriad yw i reoliadau a wneir dan adran 39(2), a fydd yn destun y weithdrefn gadarnhaol, ddiffinio "cynnyrch nicotin" i gynnwys "unrhyw gynnyrch nicotin sy'n destun cyfyngiad oedran o ran ei werthu".<sup>189</sup> Fodd bynnag, nodwyd hefyd nad oes unrhyw beth ar wyneb y Bil ar hyn o bryd i'w gwneud yn ofynnol cynnwys e-sigarêts o fewn y diffiniad o gynhyrchion nicotin.

---

<sup>184</sup> PHB 72 Totally Wicked Ltd

<sup>185</sup> PHB 84 Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol

<sup>186</sup> PHB 85 Celesio UK a Lloyds Pharmacy

<sup>187</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 191], 21 Hydref 2015

<sup>188</sup> PHB 04 Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd

<sup>189</sup> Llywodraeth Cymru [Datganiad o Fwriad Polisi](#), tudalen 24

242. Cred y Pwyllgor y gallai dryswch gael ei achosi o bosibl o ran gorfodi, gan na fyddai manwerthwyr angen cofrestru os ydyn nhw ddim ond yn gwerthu e-sigaréts i'w defnyddio gyda hylifau nad ydyn nhw'n seiliedig ar nicotin.

243. Cytuna'r Pwyllgor â'r awgrym a wnaed gan Gyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd (Cymru) y dylai caniatáu cais am le ar y gofrestr ystyried unrhyw gollfarn am werthu nwyddau a gyfyngir i blant dan oed. Cred y dylai swyddogion gorfodi awdurdodau lleol fod â phwerau i gyfyngu mynediad at y gofrestr, neu dynnu enwau pobl oddi ar y gofrestr, os ydyn nhw wedi cyflawni tramgyddau neu droseddau perthnasol.

### **Gweinyddu ac adnoddau**

244. Mae adran 23 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, sefydlu ffioedd cofrestru. Yn ei Ddatganiad o Fwriad Polisi, nododd Llywodraeth Cymru:

“Y bwriad ar hyn o bryd yw y bydd yn rhaid i ymgeiswyr dalu ffi fach yn rhan o gais cofrestru. Nid yw union fanylion y strwythur ffioedd wedi eu penderfynu eto, y bwriad ar hyn o bryd yw cael ffi o £30 i dalu am gais ac i gofrestru un fangre, â £10 arall ar gyfer pob mangre ychwanegol.”<sup>190</sup>

245. Clywodd y Pwyllgor bryderon ynghylch y costau gweinyddol ac ariannol i'r sector manwerthu a fyddai'n deillio o sefydlu'r gofrestr a'r drefn arolygu a gorfodi cysylltiedig.<sup>191</sup> Disgrifiodd y Gynghrair Manwerthwyr Tybaco gyflwyno ffioedd cofrestru fel cam ‘anghyfrifol’, gan ddweud fod y costau a ragwelir o hyd at £246,000 ar draws y sector manwerthu yng Nghymru yn debygol o niweidio'r sector manwerthu yng Nghymru.<sup>192</sup> Dywedodd Ffederasiwn Cenedlaethol Manwerthwyr Papurau Newydd fod manwerthwyr yn gwneud elw o 27c ar becyn o sigaréts sy'n cael ei werthu am £6.99. Er mwyn fforddio'r tâl o £30 i gofrestru, dywed y byddai'n rhaid i fanwerthwr werthu 111 pecyn o sigaréts, neu werthu £775.89 o nwyddau.<sup>193</sup> Gan nodi y gallai'r costau hyn fod yn anghymhelliad i'r rhai sy'n ystyried sefydlu busnesau newydd, neu werthu e-sigaréts o fusnes presennol, rhybuddiodd Totally Wicked Ltd pe bai llai o fanwerthwyr yn gwerthu e-sigaréts, gallai gael effaith

---

<sup>190</sup> Llywodraeth Cymru [Datganiad o Fwriad Polisi](#), tudalen 20

<sup>191</sup> PHB 72 Totally Wicked Ltd a PHB 74 Y Gymdeithas Siopau Cyfleustra

<sup>192</sup> PHB 98 Y Gynghrair Manwerthwyr Tybaco

<sup>193</sup> PHB 90, Ffederasiwn Cenedlaethol Manwerthwyr Papurau Newydd

ganlyniadol ar nifer y bobl sy'n defnyddio e-sigaréts yn lle cynhyrchion tybaco traddodiadol.<sup>194</sup>

246. Amlinellodd y Gymdeithas Siopau Cyfleustra'r cyfyngiadau sydd eisoes ar waith ynghylch manwerthu tybaco, gan gynnwys y gwaharddiad ar arddangos a'r bwriad i gyflwyno pecynnau plaen. Dywedodd y byddai'r gofrestr yn ychwanegu haen ychwanegol o gymhlethdod, a chwestiynodd a oedd digon o eglurder ynghylch manteision y gofrestr a sut byddai refeniw'r ffi yn cael ei ddefnyddio i gyfiawnhau'r gost a amcangyfrifir o £90,000 i'r sector siopau cyfleustra.<sup>195</sup>

247. Dywedodd y Gymdeithas Siopau Cyfleustra wrth y Pwyllgor nad oedd yn cefnogi'r cynigion i sefydlu cofrestr, gan nad oedd yn credu y byddai'n effeithiol o ran cyflawni'r uchelgais i leihau cyfraddau ysmegu ymysg pobl ifanc na chynyddu cydymffurfiaeth manwerthwyr. Fodd bynnag, pe bai'r cynigion yn cael eu rhoi ar waith, nododd y byddai'n ffafrio dilyn y dull a ddefnyddiodd Lywodraeth yr Alban i sefydlu system drwyddedu a oedd yn cynnwys cofrestru am ddim i fanwerthwyr.<sup>196</sup> Argymhellodd Mr Woodall o'r Gymdeithas Siopau Cyfleustra'r dull "cyffyrddiad ysgafn", gyda ffurflen gofrestru ar-lein a dim ffi gofrestru fel yn yr Alban, ond dywedodd y byddai'n dal i arwain at rywfaent o faich ar fanwerthwyr.<sup>197</sup>

248. Dywedodd y Gweinidog fod y gofrestr manwerthwyr tybaco sydd ar waith yn yr Alban yn darparu gwell eglurder ynghylch pa gynhyrchion tybaco a nicotin sy'n cael eu gwerthu, a dywedodd y byddai'n galluogi swyddogion gorfodi awdurdodau lleol i blismona'r system.<sup>198</sup> Dywedodd wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth yr Alban yn bwriadu adolygu dull gweithredu'r gofrestr maes o law, ond bod y Gweinidog lechyd, Lles a Chwaraeon yn gadarnhaol iawn ynghylch y profiad o gael cofrestr yn yr Alban.<sup>199</sup>

249. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei fod yn bwriadu i'r dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol o ran y gofrestr gael eu cyllido drwy godi ffioedd cofrestru.<sup>200</sup> Credai bod y ffioedd a nodir yn y

---

<sup>194</sup> PHB 72 Totally Wicked Ltd

<sup>195</sup> PHB 74 Y Gymdeithas Siopau Cyfleustra. Amcangyfrif a wnaed gan y Gymdeithas Siopau Cyfleustra ar sail lefelau'r ffioedd a nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol.

<sup>196</sup> PHB 74 Y Gymdeithas Siopau Cyfleustra

<sup>197</sup> Cofnod y Trafodion [paragraffau 165 a 173], 23 Medi 2015

<sup>198</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 104], 1 Gorffennaf 2015

<sup>199</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 187], 21 Hydref 2015

<sup>200</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 68], 21 Hydref 2015

Memorandwm Esboniadol yn gymesur, ac y bydden nhw'n gymesur â'r manteision y bydd y manwerthwyr eu hunain yn eu cael o fod ar y gofrestr.<sup>201</sup>

250. Fodd bynnag, rhybuddiodd Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd (Cymru) y byddai'r pwysau ariannol sy'n wynebu llywodraeth leol yng Nghymru ar hyn o bryd yn golygu y byddai angen ystyried darparu adnoddau ar gyfer gweithredu a gorfodi'r gofrestr. Awgrymodd y Cyfarwyddwyr y gallai meddalwedd ar-lein, a allai gael ei ddiweddarau gan bob awdurdod lleol, fod yn fwy priodol na bod un Awdurdod Cofrestru cenedlaethol yn cynnal y gofrestr.<sup>202</sup> Ymhellach, dywedodd y Cyfarwyddwyr y dylai awdurdodau lleol gael disgrisiwn o ran pa feysydd swyddogaethol fyddai'n cyflawni cyfrifoldebau o ran y gofrestr, er mwyn sicrhau y gellid defnyddio adnoddau yn y modd mwyaf effeithiol i weddu amgylchiadau lleol.<sup>203</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

251. Noda'r Pwyllgor y pryderon a godwyd gan y sector manwerthu am y costau ariannol a gweinyddol a fyddai'n gallu deillio o sefydlu cofrestr. Fodd bynnag, ar y cyfan mae'n credu bod y costau a fyddai'n cael eu hwynebu gan fusnesau yn rhesymol, ac y bydd y ffi gymedrol yn galluogi awdurdodau lleol i ymgymryd â gorfodi'r gofrestr mewn ffordd effeithiol.

### **Gwaharddiad ar werthu tybaco a chynhyrchion nicotin**

#### ***Gorchmynion Gwerthu o dan Gyfyngiad a Gorchmynion Mangreoedd o dan Gyfyngiad***

252. Mae'r Bil yn darparu bod yn rhaid i'r Awdurdod Cofrestru ganiatáu ceisiadau am le ar y gofrestr oni bai bod gan fangre neu unigolyn Orchymyn Mangre o dan Gyfyngiad neu Orchymyn Gwerthu o dan Gyfyngiad. Mewn amgylchiadau o'r fath, ni fyddai'r fangre'n cael ei chynnwys ar y gofrestr nes bydd y Gorchmyn perthnasol wedi dod i ben.

253. Yng Nghymru a Lloegr, mae llys ynadon yn gallu pennu Gorchmyn Mangre o dan Gyfyngiad neu Orchymyn Gwerthu o dan Gyfyngiad ar y rhai sydd yn gyson wedi gwerthu tybaco neu gynhyrchion nicotin i rai dan 18 oed (o leiaf dri achlysur gwahanol mewn cyfnod o ddwy flynedd). Mae Gorchmyn Mangre o dan Gyfyngiad yn gwahardd gwerthu unrhyw gynnyrch tybaco (gan gynnwys papurau sigarêts) o'r fangre am gyfnod o hyd at flwyddyn. Mae Gorchmyn Gwerthu o dan Gyfyngiad yn gwahardd unigolyn rhag gwerthu

---

<sup>201</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 187], 21 Hydref 2015

<sup>202</sup> PHB 04 Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd

<sup>203</sup> PHB 04 Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd

unrhyw gynnyrch tybaco (gan gynnwys papurau sigarêts) neu gael unrhyw swyddogaeth reoli mewn perthynas ag unrhyw fangre o ran gwerthu cynhyrchion tybaco yn y fangre (gan gynnwys papurau sigarêts) i unrhyw un. Gall Gorchymyn Gwerthu o dan Gyfyngiad bara am unrhyw gyfnod hyd at flwyddyn.<sup>204</sup>

254. Byddai'r Bil hefyd yn galluogi'r gwella'r cynllun Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad drwy ddarparu pwerau i Weinidogion Cymru gynnwys troseddau tybaco eraill y gellir eu cyfrif tuag at gais am Orchymyn Mangre o dan Gyfyngiad. Nodir yn y Memorandwm Esboniadol:

“Rhaid i'r drosedd fod yn un sy'n denu cosb Lefel 4 o leiaf a bod yn ymwneud â chyflenwi, gwerthu, cludo, arddangos, hysbysebu neu feddu ar gynhyrchion tybaco neu nicotin, neu eu cynnig i'w gwerthu”.<sup>205</sup>

255. Nodir yn y Memorandwm Esboniadol mai'r effaith a fwriedir drwy'r darpariaethau hyn yw y bydd:

“[c]yfuno trefn wedi ei chryfhau ar gyfer y Gorchymynion Mangre o dan Gyfyngiad â chofrestr genedlaethol [yn ychwanegu budd], trwy wella'r ysgogiadau presennol sydd ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer gwaith gorfodi ym maes troseddau tybaco a nicotin. Bydd y darpariaethau hyn hefyd yn ategu'r nod polisi o'i gwneud yn anos i bobl ifanc o dan 18 oed gael gafael ar dybaco a chynhyrchion nicotin.”<sup>206</sup>

256. Cafwyd cefnogaeth eang i'r cyfyngiad ar fynediad at y gofrestr ar gyfer unigolion sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Gwerthu o dan Gyfyngiad neu Orchymyn Mangre o dan Gyfyngiad, ac ar gyfer y drefn Gorchymynion wedi ei chryfhau. Fodd bynnag, holodd Ffederasiwn Cenedlaethol y Manwerthwyr Papurau Newydd pam na allai'r system Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad/Gorchymyn Gwerthu o dan Gyfyngiad wedi ei chryfhau weithredu ar ei phen ei hun heb fod angen cofrestr o fanwerthwyr.<sup>207</sup>

257. Dywedodd Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd (Cymru) ei bod yn hanfodol fod yr holl dramgwyddau'n gysylltiedig â thybaco yn cael eu cynnwys fel troseddau a allai sbarduno Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad. Nododd y Cyfarwyddwyr y gellid cyflawni hyn drwy ddefnyddio'r pwerau i wneud

---

<sup>204</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 74

<sup>205</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 85

<sup>206</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 89

<sup>207</sup> PHB 90 Ffederasiwn Cenedlaethol Manwerthwyr Papurau Newydd

rheoliadau i'w mewnosod yn adran 12D Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933 drwy adran 40 y Bil.<sup>208</sup>

258. Dan y darpariaethau yn y Bil, pe bai manwerthwr yn cyflawni tair trosedd yn gysylltiedig â thybaco neu nicotin o fewn cyfnod o dair blynedd, fe allen nhw gael Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad, a fyddai'n gwahardd gwerthu'r cynhyrchion hynny yn y fangre honno am gyfnod o hyd at flwyddyn. Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cefnogi'r drefn wedi ei chryfhau, ond amlygodd anamllder cymharol yr erlyniadau am beidio â chydymffurfio â rheoliadau gwerthu dan oed. Gan hynny, argymhellodd ddefnyddio Gorchmynion deuddeg mis (wedi eu rhoi naill ai gan swyddogion gorfodi awdurdodau lleol neu drwy wneud cais i ynad) ar gyfer troseddau unigol, gan ddefnyddio Gorchmynion hwy yn achos tramgwyddo dro ar ôl tro.<sup>209</sup>

259. Ar y llaw arall, dywedodd y Gymdeithas Siopau Cyfleustra y byddai defnyddio Gorchmynion Mangreoedd o dan Gyfyngiad neu Orchmynion Gwerthu o dan Gyfyngiad yn gymesur dim ond pe baen nhw'n cael eu targedu at dorri rheoliadau dro ar ôl tro.<sup>210</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

260. Cytuna'r Pwyllgor â'r rhanddeiliaid fod croeso i'r drefn wedi ei chryfhau o Orchmynion Gwerthu o dan Gyfyngiad a Gorchmynion Mangre o dan Gyfyngiad, gan gytuno y dylai unigolion neu fangreoedd sy'n destun Gorchmynion o'r fath gael eu heithrio o'r gofrestr manwerthwyr.

### **Trosglwyddo tybaco ac ati i bobl dan 18 oed**

261. Mae Pennod 4 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau i'w gwneud hi'n drosedd i unigolyn drosglwyddo'n fwriadol dybaco neu gynhyrchion nicotin i unigolyn dan 18 oed, nad ydyn nhw yng nghwmni oedolyn, wrth ddosbarthu neu gasglu tybaco neu gynhyrchion nicotin sydd wedi cael eu prynu'n barod ac y talwyd amdany'n nhw o bell.

262. Mae *Rheoliadau Cynhyrchion Anadlu Nicotin (Oedran Gwerthu a Phrynu ar Ran) 2015* a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2015 yn gwahardd prynu cynhyrchion nicotin (gan gynnwys e-sigaréts) ar ran plant dan oed. Fodd bynnag, nodir yn y Memorandwm Esboniadol:

---

<sup>208</sup> PHB 04 Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd

<sup>209</sup> PHB 03 Iechyd Cyhoeddus Cymru

<sup>210</sup> PHB 74 Y Gymdeithas Siopau Cyfleustra

“Nid oes unrhyw ddeddfwriaeth ar hyn o bryd sy’n atal cynhyrchion tybaco neu gynhyrchion nicotin a brynwyd o bell rhag cael eu rhoi i unigolyn neu unigolion o dan 18 oed.”<sup>211</sup>

263. Bwriad datganedig y darpariaethau yn y Bil yw lleihau'r risg y bydd pobl ifanc dan 18 oed yn cael mynediad at gynhyrchion tybaco a/neu gynhyrchion nicotin. Mae'n ceisio cyflawni hyn drwy ei gwneud yn ofynnol i asiantau dosbarthu asesu'n weledol a yw'r unigolyn maen nhw'n trosglwyddo'r cynhyrchion tybaco a/neu gynhyrchion nicotin iddyn nhw yn 18 oed neu'n hŷn, a gwirio oedran lle bo'n briodol.<sup>212</sup>

264. Nodir yn y Memorandwm Esboniadol bod pob cadwyn o archfarchnadoedd mawr yng Nghymru, wrth ddanfôn cynhyrchion tybaco i gartrefi, yn gweithredu polisïau gwirfoddol ar hyn o bryd sy'n gwahardd eu gyrwyr rhag trosglwyddo cynhyrchion tybaco i gwsmeriaid sy'n ymddangos dan 18 oed os nad ydyn nhw'n gallu darparu prawf oedran. Dywed ei bod yn debygol y bydd rhai manwerthwyr yn ymestyn eu polisïau i gwmpasu cynhyrchion nicotin yn dilyn cyflwyno cyfyngiad isafswm oedran ar werthu'r cynhyrchion hynny.<sup>213</sup>

265. Nodir hefyd yn y Memorandwm Esboniadol:

“Er bod nifer o fanwerthwyr ar hyn o bryd wedi sefydlu polisïau, nid yw pob manwerthwr sy'n gwerthu cynhyrchion tybaco o bell yn dilyn yr arfer gwirfoddol hwn, ac nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol ar hyn o bryd i fanwerthwyr sicrhau mai dim ond i unigolion 18 oed neu hŷn y rhoddir cynhyrchion tybaco a/neu nicotin.”<sup>214</sup>

266. Cafwyd cefnogaeth eang i'r darpariaethau hyn ymhlith y rhai a ymatebodd i ymgynghoriad y Pwyllgor.<sup>215</sup> Roedd tystiolaeth ysgrifenedig a

---

<sup>211</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 97

<sup>212</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 105

<sup>213</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 98

<sup>214</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 99

<sup>215</sup> PHB 02 Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd ar ran Byrddau Iechyd yng Nghymru, PHB 03 Iechyd Cyhoeddus Cymru, PHB 04 Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd, PHB 20 Cymdeithas y Meddygon Fferyllol, PHB 21 Panel Arbenigwyr Clefydau Trosglwyddadwy Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru, PHB 22 Decadent Vapours Ltd, PHB 24 Rhydian Mann, PHB 25 Coleg Brenhinol y Meddygon, PHB 26 Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint, PHB 35 Y Coleg Nyrsio Brenhinol, PHB 40 Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, PHB 47 Cyngor Caerffili, PHB 51 Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, PHB 56 Pwyllgor Deintyddol Cymru, PHB 58 Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, PHB 71 Fontem Ventures, PHB 72 Totally Wicked Ltd, PHB 75 Coleg Brenhinol y Bydwagedd, PHB 76 BMA Cymru, PHB 78 Cymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, PHB 79 Philip Morris Limited, PHB 81 Cyngor Gwynedd, PHB 86 Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, PHB 87 Japan Tobacco International, PHB 92 Cyngor Sir Powys a PHB 93 Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

gafwyd gan Gyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd ar ran Byrddau Iechyd yn datgan eu cefnogaeth:

“The Local Health Boards of Wales support prohibition of the handing over of tobacco or nicotine products to those aged under 18 years. The rapid rise in internet shopping could offer an easy way for young people to circumvent age restrictions. There is currently a lack of safeguards against children purchasing cigarettes through the internet. There should be consistency in the control of the sale of restricted products across all outlets, physical or virtual”.<sup>216</sup>

267. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig gan Under Age Sales Ltd yn awgrymu bod geiriad y darpariaethau hyn yn aneglur. Argymhellodd y dylid ailddrafftio'r Bennod hon o'r Bil i symleiddio'r iaith i sicrhau ei bod yn cyflawni'r diben a fwriadwyd.<sup>217</sup> Er bod ASH Cymru yn cefnogi'r cynnig mewn egwyddor, galwodd am ragor o dystiolaeth ar faint y broblem bresennol o gynhyrchion yn cael eu trosglwyddo i rai dan 18 yn y ffordd hon cyn deddfu.<sup>218</sup>

268. Cafwyd cefnogaeth i eithrio meddyginiaethau trwyddedig fel therapi amnewid nicotin a ddefnyddir i gynorthwyo rhoi'r gorau i ysmygu mewn tystiolaeth ysgrifenedig gan Bwyllgor Fferyllol Cymru<sup>219</sup> a Celesio UK a Lloyds Pharmacy.<sup>220</sup>

269. Mynegodd rhai ymatebwyr bryder y byddai'r darpariaethau yn atal rhieni rhag trosglwyddo e-sigarêts i'w plant i'w defnyddio fel cymhorthion rhoi'r gorau i ysmygu.<sup>221</sup> Fodd bynnag, mae'r darpariaethau yn y Bil hwn yn darparu y byddai'n drosedd trosglwyddo tybaco/cynhyrchion nicotin ac ati i unigolyn dan 18 oed yn ystod dosbarthu neu gasglu'r cynhyrchion hynny mewn cysylltiad â gwerthu. Gan hynny, ni fyddai'r darpariaethau hyn yn berthnasol i rieni sy'n rhoi e-sigarêts i'w plant. Nodir y drosedd o oedolyn yn prynu cynhyrchion nicotin ar ran unigolyn dan 18 oed yn *Rheoliadau Cynhyrchion Anadlu Nicotin (Oedran Gwerthu a Phrynu ar Ran) 2015*.

---

<sup>216</sup> PHB 02 Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd ar ran Byrddau Iechyd yng Nghymru

<sup>217</sup> PHB 13 Under Age Sales Ltd

<sup>218</sup> PHB 48 ASH Cymru

<sup>219</sup> PHB 27 Pwyllgor Fferyllol Cymru

<sup>220</sup> PHB 85 Celesio UK a Lloyds Pharmacy

<sup>221</sup> PHB 14 Dr David Upton, PHB 18 Gordon Beard, PHB 37 Robert Heyes, PHB 39 Counterfactual, PHB 45 Margaret Hermon, PHB 50 Cymdeithas Fasnach y Diwydiant Sigarêts Electronig, PHB 54 Jonathan Edwards, PHB 61 Cynghrair Newydd y Deyrnas Unedig ar Nicotin a PHB 77 Forest

### ***Goblygiadau ariannol***

270. Mae ffigurau a ddarparwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amcangyfrif y bydd y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r darpariaethau hyn ychydig yn llai na £560,000 rhwng 2016-17 a 2020-21. Byddai'r rhan fwyaf o'r costau hyn yn disgyn ar awdurdodau lleol, a fyddai'n golygu costau ychwanegol o ychydig dan £415,000, yn bennaf ar gyfer pryniannau prawf drwy adrannau safonau masnachu ac ar gyfer costau staff. Yn ogystal, byddai manwerthwyr yn mynd i gostau o tua £130,000 i ddatblygu telerau ac amodau a pholisïau ar gyflenwi cynhyrchion tybaco, a byddai Llywodraeth Cymru yn mynd i gostau ychwanegol o £17,000 ar gyfer hyfforddiant ac arweiniad.

### ***Barn y Pwyllgor***

271. Noda'r Pwyllgor gefnogaeth gyffredinol i bennu bod trosglwyddo tybaco neu gynhyrchion nicotin i unigolyn dan 18 oed yn fwriadol, nad ydyn nhw yng nghwmni oedolyn, yn drosedd. Mae'n cytuno y bydd hyn yn gam pwysig o ran atal pobl ifanc rhag cael mynediad at dybaco neu gynhyrchion nicotin ar-lein. Er bod cadwyni archfarchnadoedd yn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd yn gweithredu polisïau gwirfoddol i lywodraethu eu gwaith dosbarthu, noda'r Pwyllgor y byddai'r ddarpariaeth hon yn ymestyn yr arfer i bob manwerthwr, a thrwy hynny'n lleihau'r cyfleoedd i bobl ifanc dan 18 oed gael mynediad at gynhyrchion yn anghyfreithlon.

## 6. Rhan 3 – Triniaethau arbennig

---

272. Mae rhan 3 y Bil yn cynnwys darpariaethau i greu system drwyddedu orfodol, genedlaethol ar gyfer ymarferwyr triniaethau arbennig penodol. Mae'r Bil yn diffinio triniaethau arbennig fel aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatwio.

273. Byddai'r system yn golygu bod angen i unigolion gael trwydded er mwyn gallu cyflawni unrhyw un o'r triniaethau arbennig a ddiffiniwyd yn y Bil, a rhaid iddynt weithio o leoliad neu gerbyd cymeradwy. Bydd trwyddedau a chymeradwyaethau'n ddilys am dair blynedd. Byddai'r trwyddedau a chymeradwyaethau dros dro ar gael hefyd ar gyfer arddangosfeydd a digwyddiadau.<sup>222</sup>

274. Byddai angen i ymarferwyr ddarparu ymgynghoriadau cyn ac ar ôl y driniaeth er mwyn sicrhau bod pobl yn gwbl ymwybodol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r driniaeth ac yn gwybod sut i roi unrhyw ôl-ofal angenrheidiol iddynt eu hunain. Byddai awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau bod y gofynion trwyddedu'n cael eu dilyn, ac am gadw cofrestr o'r trwyddedau triniaethau arbennig y byddant yn eu cyflwyno.<sup>223</sup>

275. Nod Llywodraeth Cymru ar gyfer y Rhan hon o'r Bil yw sicrhau bod y triniaethau arbennig hyn, pan fyddant yn cael eu darparu, yn cael eu cwblhau mewn modd lle nad oes potensial i niweidio iechyd.<sup>224</sup> Yn ei dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, esboniodd y Gweinidog sut yr oedd yn credu y byddai'r darpariaethau yn y Bil yn gwella'r trefniadau cyfredol:

“At the moment, it is very difficult indeed, both for members of the public and for any enforcement officer, to see the difference between a legitimate business that meets all the standards that you would expect it to meet and those people who practice scratching and other procedures in an entirely unregulated and not acceptable way. What this Bill will do is to make sure that those people who are at the proper end of the business are recognised for the way that they conduct that business. They will have a licence, they will display the licence and, if you don't have a licence to display, you are operating outside the law. So, the ability to spot backstreet practitioners and other people who don't do it in the right way is really strengthened by this Bill. It is strengthened for enforcement purposes and, most

---

<sup>222</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 116

<sup>223</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 122

<sup>224</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 116

importantly of all, it is strengthened for the user of the service as well.”<sup>225</sup>

276. Nododd y Gweinidog mai ei resymeg dros nodi aciwbigo, tyllu’r corff, electrolysis a thatwio fel triniaethau arbennig yn y Bil oedd y ffaith fod pob un ohonynt yn ymwneud â thyllu’r croen.<sup>226</sup> Nododd hefyd eu bod yn digwydd ar raddfa lle y credir eu bod yn werth eu cynnwys.<sup>227</sup> Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei fod yn cadw meddwl agored o ran triniaethau eraill a ddylai hefyd gael eu cynnwys yn narpariaethau’r Bil hwn.<sup>228</sup>

277. Mae Adran 49 y Bil yn cynnwys darpariaeth i ganiatáu eithriadau i’r system drwyddedu. Noda’r Memorandwm Esboniadol y gellir caniatáu eithriadau, er enghraifft i aelodau o alwedigaethau penodol, megis meddygon, oni bai fod rheoliadau’n darparu fel arall. Mae’r Bil hefyd yn rhoi’r pŵer i Weinidogion Cymru eithrio aelodau o alwedigaethau penodol eraill trwy reoliadau sy’n unol â’r weithdrefn gadarnhaol.<sup>229</sup>

278. Mae Adran 76 y Bil yn cynnwys darpariaeth i Weinidogion Cymru ddiwygio’r triniaethau arbennig a gynhwysir yn y Bil, naill ai trwy ychwanegu neu gael gwared â thriniaethau. Byddai hyn hefyd yn cael ei gyflawni trwy reoliadau yn unol â’r weithdrefn gadarnhaol.<sup>230</sup>

279. Ar y cyfan, roedd y rhai a ddarparodd dystiolaeth i’r Pwyllgor yn cefnogi’r darpariaethau yn y Bil. Croesawodd Dr Quentin Sandifer, a oedd yn cynrychioli lechyd Cyhoeddus Cymru, gynigion y Bil. Meddai:

“I think the current regulatory powers certainly don’t provide sufficient assurance that people would undertake those procedures technically competently, in a safe and hygienic way [...] where people seek to trade by undertaking these activities, then we would want those people to be subject to proper legislative requirements, and that’s what I think this Bill does.”<sup>231</sup>

280. Hysbyswyd y Pwyllgor gan Dr Fortune Ncube, Epidemiolegydd Ymgynghorol ac Ymgynghorydd Meddyginiaeth lechyd Cyhoeddus ar gyfer lechyd Cyhoeddus Lloegr, fod yna risg ddigonol o glefydau megis hepatitis B, hepatitis C ac, i raddau llai, HIV, yn deillio o gael y triniaethau hyn i

---

<sup>225</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 69], 21 Hydref 2015

<sup>226</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 70], 1 Gorffennaf 2015

<sup>227</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 72], 1 Gorffennaf 2015

<sup>228</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 72], 1 Gorffennaf 2015

<sup>229</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 120

<sup>230</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 119

<sup>231</sup> Cofnod y Trafodion [paragraffau 54 a 56], 9 Gorffennaf 2015

gyfiawnhau deddfwriaeth yn y maes. Esboniodd fod yna dystiolaeth gref i awgrymu bod y pedair triniaeth a nodwyd yn y Bil yn cyflwyno risg, yn arbennig o ran heintiau bacterol a heintiau feirws.<sup>232</sup>

281. Cytunodd Julie Barratt, a oedd yn cynrychioli Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, y byddai system drwyddedu orfodol yn gwella'r trefniadau presennol, trwy fynnu bod ymarferwyr yn meddu ar y sgiliau priodol i sicrhau bod y rhai sy'n cael y triniaethau penodol yn ddiogel. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

"I'm confident that the legislation allows for that to happen. I think a great deal of the control will lie in the licence conditions. At the present moment, local government is obliged to register anyone who wants to be registered. So, you can just buy yourself a kit off the internet, set yourself up and have a go. That can't be stopped unless something actually goes wrong [...] It's an enormous concern to me at the moment that there is not a fit-and-proper-person test for people who carry out some highly invasive procedures, but we can deal with that through licensing conditions, and I think that's really important."<sup>233</sup>

282. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Cyngor Gwynedd ei fod yn credu bod yna botensial sylweddol i'r darpariaethau sy'n ymwneud â thriniaethau arbennig gyfrannu at wella iechyd cyhoeddus Cymru.<sup>234</sup>

283. Yn ogystal â hyn, roedd 75 y cant o'r rhai a ymatebodd i arolwg y Pwyllgor yn credu y dylid creu system drwyddedu ar gyfer pobl sy'n cyflawni'r triniaethau arbennig hyn. Roedd 44 y cant o'r rhai a ymatebodd yn cytuno bod y Bil yn cynnwys y triniaethau arbennig cywir; roedd 7 y cant o'r farn y dylid cynnwys rhagor o driniaethau; roedd 13 y cant o'r farn y dylid rhestru llai o driniaethau, ac roedd 36 y cant yn ansicr.<sup>235</sup>

## Aciwbigo

284. Yn y Datganiad o Fwriad y Polisi, mae Llywodraeth Cymru'n mynegi ei bwriad i gyflwyno rheoliadau sy'n eithrio aelodau o'r Cyngor Aciwbigo Prydeinig o'r gofyniad i gael trwydded, ar yr amod fod y Cyngor yn cynnal ei

---

<sup>232</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 270–272], 17 Medi 2015

<sup>233</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 35], 15 Gorffennaf 2015

<sup>234</sup> PHB 81 Cyngor Gwynedd

<sup>235</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, [Crynodeb o ganlyniadau'r arolwg cyhoeddus](#), Medi 2015

achrediad gyda'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<sup>236</sup>

285. Dywedodd Nick Pahl, Prif Weithredwr y Cyngor Aciwbigo Prydeinig, wrth y Cyngor ei fod yn croesawu'r cynigion yn y Bil a'r bwriad i eithrio aelodau'r Cyngor:

"We support the Bill, yes. We think it's good to have a standardised approach [...] also we support the Bill having recognition of health professionals, such as ourselves, who are regulated with the professional standards authority and those health professionals who do acupuncture who are already state regulated."<sup>237</sup>

286. Cyflwynodd Gwenan Evans, ymarferydd aciwbigo ac aelod o'r Cyngor Aciwbigo Prydeinig, ei barn fel rhan o dystiolaeth fideo a gasglwyd gan y Pwyllgor. Nododd Ms Evans fod aelodaeth o'r Cyngor eisoes yn cynnig dull o ddiogelu cleientiaid, gan gynnwys indemnïad proffesiynol ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus. Eglurodd fod hyn yn golygu y gall pobl sy'n derbyn triniaeth aciwbigo gan aelodau'r Cyngor Aciwbigo Prydeinig deimlo'n sicr eu bod yn ddiogel.<sup>238</sup>

287. Dywedodd Mr Pahl ei fod yn credu y gallai'r Bil gynnig dull o ddiogelu pobl sy'n derbyn triniaeth gan ymarferydd nad yw'n aelod o'r Cyngor Aciwbigo Prydeinig, nac ychwaith yn aelod o gynllun achredu'r Awdurdod Safonau Proffesiynol, gan ddweud y gallai gynnig buddion o ran sicrhau bod iechyd yr amgylchedd yn mynd i'r afael ag aciwbigo mewn modd safonol.<sup>239</sup> Ychwanegodd:

"So, it [acupuncture] is a very safe procedure, but there's still a concern when you're an acupuncturist working in the NHS or privately, if you're providing acupuncture and there isn't protection of title, which means that some people who potentially are poorly trained could still set up shop and practice. I think this public health Bill is a really excellent first step across the UK."<sup>240</sup>

288. Cyflwynodd Dr Gill Richardson, Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, enghreifftiau i'r Pwyllgor o achosion o glefydau heintus sy'n gysylltiedig ag aciwbigo mewn gwledydd eraill. Roedd

---

<sup>236</sup> Llywodraeth Cymru [Datganiad o Fwriad Polisi](#), tudalen 31

<sup>237</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 314], 17 Medi 2015

<sup>238</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 174], 17 Medi 2015

<sup>239</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 330], 17 Medi 2015

<sup>240</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 344], 17 Medi 2015

y rhain yn cynnwys achosion o heintiau croen tebyg i dwbercwlosis, a hepatitis B.<sup>241</sup>

## **Tyllu'r Corff**

289. Croesawodd y rhanddeiliaid ddarpariaethau'r Bil mewn perthynas â thrwyddedu a rheoleiddio ymarferwyr tyllu'r corff. Dyfynnodd Cyfadran Llawdriniaeth Ddeintyddol Coleg Brenhinol y Llawfeddygon waith ymchwil a nodai y cyflawnwyd oddeutu 80 y cant o'r holl driniaethau tyllu'r corff mewn stiwdios tatŵ, ond nad oedd gan y rhai a oedd yn gwneud y tyllu fawr iawn o wybodaeth, os o gwbl, am anatomi'r rhannau cysylltiedig. Nodwyd hefyd mai dim ond 30 y cant o'r holl gwsmeriaid oedd yn cael gwybod am unrhyw risgiau neu gymhlethdodau posibl a oedd yn gysylltiedig â'r triniaethau.<sup>242</sup>

290. Dadleuodd Cymdeithas Prydain ar gyfer Tyllu'r Corff fod angen i dyllwyr corff gael eu rheoleiddio'n well a chorff proffesiynol, cydnabyddedig i ddibynnu arno am gefnogaeth a hyfforddiant ychwanegol.<sup>243</sup> Roedd yn cefnogi'r syniad o gynnwys tyllu'r corff yn y Rhan hon o'r Bil, gan bwysleisio'r lefel uchel o sgîl sydd ei hangen ar dyllwyr os ydynt am osgoi niwed a'r angen am driniaeth feddygol.

291. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ynghylch y risgiau posibl a oedd yn gysylltiedig yn arbennig â rhoi twll yn y tafod, a'r angen am well rheoleiddio yn y maes hwn. Nodir rhagor o fanylion yn y cyd-destun hwn yn y bennod o'r adroddiad hwn sy'n ymdrin â rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff.

## **Electrolysis**

292. Mynegodd y rhanddeiliaid safbwyntiau gwahanol ynglŷn â chynnwys electrolysis fel triniaeth arbennig a fydd yn gorfod dilyn y rheolau trwyddedu a gynigir yn y Bil. Mewn datganiad ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan Sefydliad a Chymdeithas Electrolysis Prydain, dadleuwyd y dylid eithrio ei aelodau o'r gofyniad ar sail y ffaith fod y safonau y mae'r Bil yn ceisio'u cyflawni yn ofyniad sylfaenol i bob un o'u haelodau, ac wedi'u cynnwys yn asesiad mynediad Sefydliad a Chymdeithas Electrolysis Prydain. Yn eu tyb nhw roedd hyn yn golygu bod ganddynt achos da dros gael eu heithrio.<sup>244</sup>

293. Fodd bynnag, dywedodd tystion eraill wrth y Pwyllgor fod y risg o haint yn dilyn electrolysis yn ddigon uchel i gyfiawnhau ei gynnwys yn y Bil. Meddai Dr Gill Richardson wrth y Pwyllgor:

---

<sup>241</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 170], 9 Gorffennaf 2015

<sup>242</sup> PHB 36 Y Gyfadran Lawfeddygaeth Ddeintyddol, Coleg Brenhinol y Llawfeddygon

<sup>243</sup> PHB 08 Cymdeithas Prydain ar gyfer Tyllu'r Corff

<sup>244</sup> PHB 29 Sefydliad a Chymdeithas Electrolysis Prydain

“We also know that electrolysis is a risk factor for hepatitis C, so I think it is right to include them. There’s just the potential risk, whenever there’s anything sharp that is reused, that it may not be sterilised properly, and then you’re basically transmitting infection.”<sup>245</sup>

294. Dywedodd Dr Fortune Ncube wrth y Pwyllgor, er bod rheoleiddio trwy’r cyrff proffesiynol o gymorth, y byddai’n ddoeth cynnwys aciwbigo ac electrolysis o fewn y trefniadau trwyddedu er mwyn sicrhau bod y trefniadau hynny’n gynhwysfawr.<sup>246</sup>

295. Mewn ymateb i’r farn a gyflwynwyd gan Sefydliad a Chymdeithas Electrolysis Prydain, dywedodd y Gweinidog fod y Bil yn rhoi’r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ganiatáu eithriadau ar gyfer unigolion sydd (a) yn aelodau o broffesiwn; a (b) wedi’u cofrestru yn rhinwedd y ffaith eu bod yn aelodau o’r proffesiwn hwnnw mewn cofrestr gymwys. Nododd y byddai’r broses o ganiatáu eithriad yn gymwys i electrolysis yn yr un modd â’r triniaethau eraill, yn dibynnu ar fodloni’r meini prawf angenrheidiol.<sup>247</sup>

## **Tatŵio**

296. Derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth sylweddol o blaid cynnwys tatŵio fel un o’r triniaethau arbennig yn y Bil. Meddai Julie Barratt, a oedd yn cynrychioli Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, wrth y Pwyllgor fod digon o dystiolaeth yn sicr i gyfiawnhau cynnwys tatŵio yn y Bil.<sup>248</sup> Cyfeiriodd rhanddeiliaid eraill at yr achos diweddar o heintiau croen a gysylltwyd â stiwdios tatŵ yn ardal Casnewydd fel cyfiawnhad dros gael deddfwriaeth yn y maes hwn.<sup>249</sup>

297. Wrth siarad ar ran Ffederasiwn Artistiaid Tatŵ Prydain, dywedodd Lee Clements fod y Ffederasiwn yn cefnogi’r Bil ac yn hapus â’r ffordd yr oedd yn datblygu.<sup>250</sup> Roedd Graham Bowman, artist tatŵ a gyflwynodd dystiolaeth

---

<sup>245</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 170], 9 Gorffennaf 2015

<sup>246</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 275], 17 Medi 2015

<sup>247</sup> PHB AI 09 y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - 31 Hydref 2015

<sup>248</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 27], 15 Gorffennaf 2015

<sup>249</sup> PHB 01 Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, PHB 04 Cyfarwyddwyr Diogelu’r Cyhoedd, PHB 06 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, PHB 17 Cyngor Dinas Caerdydd, PHB 31 Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd (Cymru), PHB 51 Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, PHB 56 Pwyllgor Deintyddol Cymru, PHB 89 Iechyd Cyhoeddus Cymru, PHB 92 Cyngor Sir Powys, PHB 93 Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cofnod y Trafodion [paragraffau 69–70, 81–82] 1 Gorffennaf 2015, Cofnod y Trafodion [paragraffau 169–172], 9 Gorffennaf 2015 a Chofnod y Trafodion [paragraffau 34, 166–169], 15 Gorffennaf 2015

<sup>250</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 377], 17 Medi 2015

fideo, yn credu bod angen rhagor o reoleiddio er mwyn mynd i'r afael â'r broblem o ymarferwyr anghyfrifol:

"Despite popular belief, it is a professional business. We do take pride in it—a lot of it. There are people out there who just don't care and will tattoo anyone and everything for money. I think it does need to be regulated more."<sup>251</sup>

298. Mynegwyd pryderon gan Undeb y Diwydiant Tatŵio a Thyllu'r Corff y byddai'r ddeddfwriaeth yn rhoi mwy o bwysau ar fusnesau sy'n gweithredu'n gyfreithlon, tra ar yr un pryd yn methu â dylanwadu ar weithredwyr "cudd", anghyfreithlon:

"Every day our members and the local A&E see examples of shoddy and often dangerous work by underground tattooists and piercers. Unfortunately not much is being done about this, instead more legislation, rules, and regulations are laid at the door of established studios instead of these resources being directed at this illegal trade. There seems to be little desire to grasp this nettle, and so to show something is being done, more and more (and regionally different) red tape is being applied to the established licensed studios. This drives up our costs and has no effect on theirs."<sup>252</sup>

299. Mynegodd rhai rhanddeiliaid bryder o ran pa mor rhwydd yw cael gafael ar offer tatŵio rhad ar-lein.<sup>253</sup> Meddai Undeb y Diwydiant Tatŵio a Thyllu'r Corff yn ei thystiolaeth ysgrifenedig:

"Historically it was impossible to get supplies of inks, needles, machines etc. unless you were a tattooist known to the other tattooists. The advent of Ebay etc. and Tattoo shows have changed all that, now anyone can obtain their requirements to be able to open an illegal tattoo or piercing studio from these sources".<sup>254</sup>

300. Awgrymodd Undeb y Diwydiant Tatŵio a Thyllu'r Corff y dylid rhoi rheoliadau ar waith i sicrhau na ellir gwerthu cyflenwadau ond i stiwdios trwyddedig, sefydledig, er mwyn atal masnachwyr anghyfreithlon rhag gallu prynu offer.<sup>255</sup>

---

<sup>251</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 167], 17 Medi 2015

<sup>252</sup> PHB 105 Undeb y Diwydiant Tatŵio a Thyllu

<sup>253</sup> PHB 104 Dee Yeoman

<sup>254</sup> PHB 105 Undeb y Diwydiant Tatŵio a Thyllu

<sup>255</sup> PHB 105 Undeb y Diwydiant Tatŵio a Thyllu

301. Tynnodd sawl tyst sylw at yr achosion cynyddol o driniaethau a adnabyddir fel “talwchio” neu “lwchio”, lle caiff sylweddau megis llwch person marw, neu ddeunydd sy’n adlewyrchu golau uwchfioled, eu mewnblannu dan y croen.<sup>256</sup> Nododd rhai rhanddeiliaid fod angen eglurhad ynghylch a ddylid cynnwys y triniaethau hyn yn y diffiniad o datwio sydd yn y Bil ai peidio, ac roeddent yn poeni y gallai’r rhain gael eu hanghofio.<sup>257</sup>

302. Mewn ymateb i gwestiwn ar y pwnc “talwchio”, cadarnhaodd y Gweinidog yn ysgrifenedig y byddai’r diffiniad o datwio yn y Bil, ym marn Llywodraeth Cymru, yn ddigon eang i gynnwys y driniaeth hon.<sup>258</sup>

## Eithriadau

303. Mynegwyd pryder gan y Cyngor Aciwbigo Prydeinig ynghylch y cynnig i eithrio’r rhai sydd wedi cofrestru gyda chyrff proffesiynol. Yn eu profiad hwy, er bod mwyafrif y meddygon a’r ffisiotherapyddion a oedd yn rhoi triniaeth aciwbigo yn aelodau o’r cyrff diddordeb arbennig perthnasol o fewn eu galwedigaethau (Cymdeithas Aciwbigo Meddygol Prydain a’r Gymdeithas Aciwbigo Ffisiotherapyddion Siartredig), roedd nifer o weithwyr proffesiynol eraill cofrestredig, megis meddygon esgyrn a cheiropractyddion, yn cael eu hepgor oherwydd nad oes cyrff diddordeb arbennig cyfatebol o fewn eu galwedigaethau. Dywedodd y Cyngor Aciwbigo Prydeinig fod hyn yn golygu nad oedd safonau diogelwch na hyfforddiant ymarferwyr o’r fath yn cael eu harchwilio, ac nid oedd yn credu fod hyn yn gwbl ddigonol.<sup>259</sup>

304. Codwyd y pwynt hwn hefyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan nodi bod yr eithriadau a gynigwyd yn cynnwys pob gweithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig.<sup>260</sup>

305. Dywedodd y Cyngor Aciwbigo Prydeinig yr hoffai weld datganiad clir y byddai’r Bil yn caniatáu’r pŵer i archwilio lleoliadau ymarferwyr a eithriwyd, lle y codwyd pryderon ynghylch eu safonau ymarfer.

---

<sup>256</sup> PHB 01 Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, PHB 17 Cyngor Dinas Caerdydd, PHB 21 Panel Arbenigwyr Clefydau Trosglwyddadwy Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru, PHB 31 Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru, PHB 47 Cyngor Caerffili, PHB 92 Cyngor Sir Powys, PHB 93 Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cofnod y Trafodion [paragraff 430] 17 Medi 2015 a Chofnod y Trafodion [paragraffau 44–45, 171], 15 Gorffennaf 2015

<sup>257</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 45], 15 Gorffennaf 2015 a Chofnod y Trafodion [paragraff 430], 17 Medi 2015

<sup>258</sup> PHB AI 09 Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – 31 Hydref 2015

<sup>259</sup> PHB 15 y Cyngor Aciwbigo Prydeinig

<sup>260</sup> PHB AI 02 Iechyd Cyhoeddus Cymru

306. Mae Datganiad o Fwriad Polisi Llywodraeth Cymru'n nodi y byddai'r pŵer yn adran 49 y Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i fynnu bod aelodau o alwedigaeth benodol yn dal trwydded triniaethau arbennig cyn gallu cyflawni triniaethau, pe bai corff rheoleiddio perthnasol yr alwedigaeth honno'n pennu bod eu hymarfer y tu allan i gwmpas ymarfer ei aelodau. Nododd y byddai'r rheoliadau'n cael eu datblygu ar y cyd â'r cyrff rheoleiddio, a byddai Llywodraeth Cymru'n cymryd i ystyriaeth yr ymarferion a wneir gan unigolion o fewn pob galwedigaeth:

“For example, the regulations may provide that a member of a specified profession, (such as a chiropractor) may be required to obtain a special procedure licence in order to practice body piercing, electrolysis and tattooing, but will not be required to obtain a licence to practice acupuncture as the relevant regulatory body has determined that the practice of acupuncture is within the scope of practice of its members.”<sup>261</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

307. O'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor, mae'n amlwg fod angen gwelliannau i'r trefniadau presennol ar gyfer triniaethau arbennig. Yn benodol, mae angen newidiadau os am sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu diogelu'n briodol rhag y niweidiau posibl o gael triniaeth arbennig gan rywun nad yw'n meddu ar yr wybodaeth angenrheidiol i allu cynghori cleientiaid a chwblhau'r triniaethau yn ddiogel.

308. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dystiolaeth a dderbyniodd oddi wrth ystod eang o dystion o blaid cael deddfwriaeth i gyflwyno trwyddedu gorfodol i ymarferwyr triniaethau arbennig. Mae'n nodi hefyd sail resymegol y Gweinidog dros gynnwys y pedair triniaeth hyn yn y Bil hwn, ac yn cytuno bod y risg bosibl o niwed mewn perthynas â'r rhain yn ddigon i gyfiawnhau eu cynnwys. Yn adran nesaf y bennod hon, cyflwynir rhagor o sylwadau ar driniaethau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Bil ar hyn o bryd.

309. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r rheoleiddio ychwanegol a ddarperir gan y Bil, ac yn croesawu'r ffaith bod modd i'r cyhoedd, trwy'r system drwyddedu, adnabod yr ymarferwyr hynny sy'n gweithredu'n ddiogel ac o fewn y gyfraith. Mae'n cydnabod y gallai rhai unigolion anghyfrifol barhau i weithredu'n anghyfreithlon, ond mae'n gobeithio y bydd y pwerau a roddir i awdurdodau lleol yn arwain at gynnydd yn nifer yr erlyniadau. Mae'r Pwyllgor o'r farn y bydd ymdrechion parhaus yr awdurdodau lleol i fynd i'r afael ag ymddygiad

---

<sup>261</sup> Llywodraeth Cymru [Datganiad o Fwriad Polisi](#), tudalen 29

anghyfrifol masnachwyr anghyfreithlon, ochr yn ochr â sicrhau bod busnesau â thrwydded yn gweithredu o fewn eu hamodau penodol, yn allweddol yn y gwaith o ddiogelu'r cyhoedd.

310. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r ddarpariaeth a geir yn y Bil i eithrio rhai gweithwyr proffesiynol o'r meini prawf trwyddedu. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod bod yr eithriadau hyn yn dibynnu ar gynnal gwaith rheoleiddio proffesiynol cyfredol, mae'n ymwybodol o'r pryderon a fynegwyd gan y Cyngor Aciwbigo Prydeinig ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch a fyddai pob un o'r rhai a gynhwyswyd ar y rhestr o weithwyr proffesiynol a eithriwyd yn meddu ar y cymhwysedd angenrheidiol i gyflawni'r triniaethau hyn yn rhinwedd eu cofrestriad proffesiynol yn unig.

**Argymhelliad 1: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol weithio gydag awdurdodau lleol i fonitro llwyddiant y gwaith o gyflwyno'r cynllun trwyddedu o dan Ran 3 y Bil.**

**Argymhelliad 2: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol archwilio dichonolrwydd diwygio'r Bil i roi cyfrifoldeb ar Fyrddau Iechyd Lleol i:**

- gadw cofnod o unrhyw un sydd ag angen triniaeth feddygol o ganlyniad i gael triniaeth arbennig, yn unol â'r diffiniad yn y Bil; a
- hysbysu'r awdurdodau lleol o unrhyw ddigwyddiad o'r fath.

**Triniaethau nas cynhwysir gan y Bil**

311. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth o blaid ehangu'r mathau o driniaethau a gynhwysir gan y darpariaethau yn y Bil er mwyn sicrhau bod pobl sy'n derbyn triniaethau eraill yn cael eu diogelu i'r un graddau. Roedd awgrymiadau ar gyfer triniaethau o'r fath yn cynnwys:

- triniaethau cosmetig anlwfeddygol, megis llenwi'r croen, chwistrellu Botox, pilio cemegol, dyfrhau'r colon, triniaeth laser er mwyn cael gwared â thatws a blew, rhoio'r croen, gemwaith deintyddol a chwpanu gwlyb;
- addasiadau i'r corff, fel rhannu'r tafod, creithio, brandio, ymestyn a mewnbaniadau o dan y croen.<sup>262</sup>

---

<sup>262</sup> PHB 01 Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, PHB 02 Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd ar ran Byrddau Iechyd yng Nghymru, PHB 03 Iechyd Cyhoeddus Cymru, PHB 05 Conffederasiwn GIG Cymru, PHB 76 BMA Cymru a PHB 78 Cymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd

312. Dywedodd cynrychiolwyr llywodraeth leol, Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru a Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd wrth y Pwyllgor eu bod o'r farn fod y triniaethau cywir wedi'u cynnwys yn y Bil, a'u bod yn cefnogi cynnwys y pedair triniaeth arbennig ar sail y ffaith:

- mai dyma'r triniaethau mwyaf cyffredin sy'n gysylltiedig â'r risg o haint, yn arbennig feirysau a gludir gan y gwaed;<sup>263</sup>
- eu bod yn driniaethau y byddai swyddogion llywodraeth leol eisoes yn gyfarwydd â nhw.<sup>264</sup>

313. Croesawodd cynrychiolwyr Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd (Cymru) y cyfle i fabwysiadu dull fesul cam, gan ganiatáu i driniaethau eraill gael eu hychwanegu dros amser. Nodwyd na ddylid gwneud ychwanegiadau ond pan fyddai:

- tystiolaeth wedi dod i law i gefnogi'r angen i reoleiddio technegau newydd o addasu'r corff;
- swyddogion wedi cael digon o amser i gynyddu eu hymwybyddiaeth o unrhyw gyfrifoldebau gorfodi newydd a chael hyfforddiant arnynt.<sup>265</sup>

314. Dywedodd Dr Fortune Ncube wrth y Pwyllgor fod angen mwy o dystiolaeth ar y risg o heintiau mewn perthynas â thriniaethau eraill cyn eu cynnwys yn narpariaethau'r Bil:

"I think we are standing on slightly shaky ground in relation to these other exotic practices that are in place [...] because we don't have, as yet, the evidence to show the risk of infection in relation to that, and indeed the risk of other complications that can be associated with them, whereas the four that we've mentioned at the beginning, we have got better evidence in relation to that. So, I would suggest, and this is again just a suggestion and an observation, that perhaps at this stage it would be better to concentrate on the four that you have identified already, but allow yourselves room within the Bill for flexibility, to be able to include them when the evidence becomes apparent."<sup>266</sup>

315. Fodd bynnag, dadleuodd tystion a rhai eraill a ymatebodd i ymgynghoriad y Pwyllgor, megis Cymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y

---

<sup>263</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 164], 15 Gorffennaf 2015

<sup>264</sup> Cofnod y Trafodion [paragraffau 30 ac 175], 15 Gorffennaf 2015

<sup>265</sup> Cofnod y Trafodion [paragraffau 164 ac 175], 15 Gorffennaf 2015

<sup>266</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 281], 17 Medi 2015

Cyhoedd,<sup>267</sup> Conffederasiwn GIG Cymru,<sup>268</sup> Iechyd Cyhoeddus Cymru,<sup>269</sup> BMA Cymru<sup>270</sup> a Chyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus yn cynrychioli Byrddau Iechyd<sup>271</sup> y dylid ystyried cynnwys triniaethau eraill yn y Bil. Crynhowyd eu barn gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, a nododd:

“Whilst we agree with the special procedures defined, this Bill also presents an opportunity to regulate the administration of the following procedures: body modification (to include stretching, scarification, sub-dermal implantation/3D implants, branding and tongue splitting), injection of any liquid into the body e.g. botox or dermal fillers, dental jewellery, chemical peels, and laser treatments such as used for tattoo removal or in hair removal.”<sup>272</sup>

316. Nododd Dr Rodney Berman fod BMA Cymru yn cefnogi galwadau i roi ystyriaeth i gynnwys yn y Bil driniaethau megis gwaredu blew â laser, pilio cemegol, llenwadau croen, creithio neu frandio, a mewnbaniadau o dan y croen. Nododd mai'r sail rhesymegol dros reoleiddio'r rhain yn yr un modd ag aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatwio, oedd y ffaith eu bod yn creu'r un potensial i achosi problemau iechyd os na chânt eu cyflawni mewn modd sydd wedi'i reoli'n briodol.<sup>273</sup>

317. Wrth roi sylwadau ar y triniaethau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Bil, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

“These are always matters of judgment. These are procedures on a spectrum. At the moment, the Bill draws the line where it does because the four procedures we have identified have something in common [skin piercing] and happen on a scale where we think they're worth including. I remain open-minded on whether there are other procedures that ought to be added to the Bill at this stage, or whether those are procedures that ought to be considered as part of the regulation-making power that the Bill allows.”<sup>274</sup>

---

<sup>267</sup> PHB 78 Cymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd

<sup>268</sup> PHB 05 Conffederasiwn GIG Cymru

<sup>269</sup> PHB 03 Iechyd Cyhoeddus Cymru

<sup>270</sup> PHB 76 BMA Cymru a Chofnod y Trafodion [paragraff 176], 17 Medi 2015

<sup>271</sup> PHB 02 Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd ar ran Byrddau Iechyd yng Nghymru

<sup>272</sup> PHB 78 Cymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd

<sup>273</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 176], 17 Medi 2015

<sup>274</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 72], 1 Gorffennaf 2015

### ***Triniaethau cosmetig anlawfeddygol***

318. Cafwyd cytundeb ymhlith tystion nad oedd lefel gyfredol y rheoleiddio ar driniaethau cosmetig anlawfeddygol yn ddigonol. Nododd Brett Collins, Cyfarwyddwr Save Face, mai'r unig gyfyngiad ar ddefnyddio triniaethau a chwistrellir, megis llenwadau croen a Botox, oedd y ffaith fod Botox yn gyffur na ellid ei gael ond ar bresgripsiwn. Ychwanegodd:

“outside of that, there is no regulation and there is no vehicle to ensure public safety in terms of these treatments”.<sup>275</sup>

319. Dywedodd Paul Burgess, Prif Weithredwr Cymdeithas Nyrsys Cosmetig Prydain fod aelodau'r Gymdeithas, fel nyrsys proffesiynol, yn cael eu rheoleiddio gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, gan sicrhau felly bod rhywle i gleientiaid droi i gael gwneud iawn pe byddai triniaethau yn mynd o chwith. Pwysleisiodd, fodd bynnag, na fyddai rhywun a oedd yn mynd at ymarferydd arall i gael gwneud y driniaeth yn cael eu diogelu yn yr un modd:

“There is nothing whatsoever in place, for example, if a beautician carries out a treatment. There are no standards in place against which to judge competence”.<sup>276</sup>

320. Er gwaethaf eu sylwadau ynghylch annigonolrwydd y trefniadau rheoleiddio cyfredol ar gyfer triniaethau cosmetig anlawfeddygol, ni wnaeth Save Face na Chymdeithas Nyrsys Cosmetig Prydain siarad o blaid cynnwys ymyriadau cosmetig anlawdriniaethol fel triniaethau arbennig yn y Bil. Er i Gymdeithas Nyrsys Cosmetig Prydain nodi y byddai'n cefnogi'r trwyddedu, ni chredai mai hwn oedd y llwybr na'r cyfrwng mwyaf addas i gyflawni'r amcanion dymunol.<sup>277</sup> Dadleuodd ei gynrychiolwyr y byddai'n gwbl amhriodol cynnwys triniaethau cosmetig o fewn y rhestr o driniaethau arbennig a ddiffiniwyd yn y Bil, gan nodi mai'r unig ffordd y gellid cynnwys y triniaethau hyn yn rhesymol yn y Bil fyddai eu cynnwys mewn adran newydd sbon.<sup>278</sup>

321. Dywedodd Brett Collins o Save Face wrth y Pwyllgor:

“Certainly, non-surgical cosmetic treatments cannot be lumped in with tattoo, nor can they be lumped in with electrolysis. You need a

---

<sup>275</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 193], 17 Medi 2015

<sup>276</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 197], 17 Medi 2015

<sup>277</sup> PHB 33 Cymdeithas Nyrsys Cosmetig Prydain

<sup>278</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 247], 17 Medi 2015

certain calibre and understanding of each treatment set to be able to regulate.”<sup>279</sup>

322. Mewn ymateb i'r cwestiynau a godwyd o ran cynnwys triniaethau cosmetig anlwfeddygol ymhlith y rhai a restrwyd yn y Bil, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei fod yn bwriadu aros am unrhyw gamau a gymerir gan Lywodraeth y DU yn sgil yr Adolygiad o'r Rheoliadau ar gyfer Ymyriadau Cosmetig, a arweiniwyd gan yr Athro Syr Bruce Keogh. Cyhoeddwyd adroddiad yr adolygiad ym mis Ebrill 2013.<sup>280</sup> Dywedodd y Gweinidog, pe byddai Llywodraeth y DU yn penderfynu peidio â deddfu i gynnwys triniaethau o'r fath ar lefel y DU, neu pe na bai'r Cynulliad yn cefnogi'r darpariaethau hynny yn y DU, y byddai'r pwerau rheoleiddio yn adran 76 y Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru ychwanegu triniaethau eraill at y gofrestr, yn unol â'r weithdrefn gadarnhaol. Aeth ymlaen i ddweud:

“At the moment, my position has been that, while the Keogh review is still under active consideration and when there could be legislative action elsewhere that would be of wider benefit to Wales, we should be prepared to stand back and allow that process to run its course [...] If it doesn't or if it doesn't do so satisfactorily, then I think the Bill allows us to return to the issue and to add some further procedures to the Bill.”<sup>281</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

323. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n cael triniaethau i addasu'r corff a thriniaethau cosmetig anlwfeddygol nad ydynt wedi'u sefydlu, ac ymddangosiad gwahanol fathau o driniaethau. Mae'n cydnabod bod yna risg bosibl o haint i unrhyw un sy'n cael triniaethau o'r fath, os na chânt eu darparu mewn modd proffesiynol a hylan, ac yn cydnabod y galw gan dystion i ychwanegu rhagor o driniaethau at y rhai sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y Bil hwn.

324. Mae'r Pwyllgor yn derbyn y bydd y duedd gynyddol i gael ystod o driniaethau addasu'r corff a thriniaethau cosmetig anlwfeddygol yn ei gwneud yn hanfodol i reoleiddio triniaethau o'r fath, yn ogystal â'r rhai a ddarperir yn y Bil ar hyn o bryd. Oherwydd hynny, mae'n croesawu'r ddarpariaeth yn adran 76 sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu triniaethau arbennig trwy reoliadau at y rhestr o driniaethau sydd yn y Bil.

<sup>279</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 215], 17 Medi 2015

<sup>280</sup> Adran Iechyd Llywodraeth y DU, [Adolygiad o'r Rheoliadau ar gyfer Ymyriadau Cosmetig](#), 23 Ebrill 2013

<sup>281</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 70], 1 Gorffennaf 2015

325. Gan fod y diwydiannau dan sylw yn esblygu'n gyflym, mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod angen ymchwilio ymhellach i'r risgiau posibl a wynebir gan bobl sy'n cael y triniaethau hyn, er mwyn sicrhau bod amodau trwyddedu'r dyfodol yn briodol i'r triniaethau penodol hynny. Mae'n cydnabod hefyd ei bod yn bwysig bod swyddogion gorfodi'n ddigon cyfarwydd â thriniaethau o'r fath er mwyn sicrhau bod archwiliadau'n cael eu cynnal yn effeithiol.

326. Mae'r Pwyllgor o'r farn fod y pedair triniaeth a restrir yn y Bil yn briodol i osod deddfwriaeth ar eu cyfer ar hyn o bryd. Mae'n cydnabod bod y Gweinidog wedi nodi'r triniaethau i'w cynnwys yn y Bil ar y sail bod pob un ohonynt yn ymwneud â thyllu'r corff, a'u bod yn digwydd ar raddfa sy'n ddigon arwyddocaol i gyfiawnhau deddfwriaeth. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn ymwybodol y gallai niwed sylweddol gael ei achosi os bydd y canlynol yn cael eu hymarfer yn wael:

- triniaethau eraill i addasu'r corff, megis rhannu'r tafod, brandio, creithio, ymestyn a mewnblaniadau o dan y croen; a
- triniaethau cosmetig anlwfeddygol, megis llenwi'r croen, chwistrelliadau Botox, pilio cemegol, dyfrhau'r colon, triniaeth laser i gael gwared â thatws a blew, rholio'r croen, gemwaith deintyddol a chwpanu gwlyb.

327. Er ei fod yn cydnabod y gallai graddfa triniaethau o'r fath fod yn llai na'r rhai a restrwyd yn y Bil, mae'r Pwyllgor yn poeni ynghylch lefel y niwed a allai ddigwydd os cânt eu hymarfer yn wael. O ganlyniad, mae'n credu y dylai'r Gweinidog ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd yn ystod gwaith craffu Cyfnod 1 y Pwyllgor ar y niweidiau a achosir gan y triniaethau i addasu'r corff a'r triniaethau cosmetig anlwfeddygol, a chyflwyno diwygiadau i'r Bil sy'n rhestru unrhyw driniaethau niweidiol posibl eraill.

**Argymhelliad 3: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ailystyried ychwanegu at y rhestr o driniaethau arbennig sy'n cael eu cynnwys ar wyneb y Bil yng ngoleuni'r dystiolaeth y mae wedi ei derbyn am y niweidiau posibl a all ddigwydd o ganlyniad i dechnegau addasu'r corff.**

328. O ran triniaethau cosmetig anlwfeddygol, mae'r Pwyllgor yn nodi esboniad y Gweinidog ynghylch aros am unrhyw gamau a gymerir gan Lywodraeth y DU mewn ymateb i'r Adolygiad o'r Rheoliadau ar gyfer Ymyriadau Cosmetig a arweiniwyd gan yr Athro Syr Bruce Keogh. Fodd bynnag, mae'n pryderu nad oes eto unrhyw fanylion ar gael ynghylch yr union brosesau ac amserlenni ar gyfer gweithredu argymhellion yr adolygiad, er i'r adroddiad gael ei gyhoeddi dros ddwy flynedd yn ôl. Mae'n croesawu

ymrwymiad y Gweinidog i gymryd camau gweithredu sy'n wahanol i rai Llywodraeth y DU, os bydd angen, ac yn annog y Gweinidog i ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ynghylch y dull mwyaf priodol o ddeddfu mewn perthynas â thriniaethau cosmetig anlawfeddygol.

**Argymhelliad 4: Yng ngoleuni'r oedi amlwg ar lefel y DU o ran gweithredu argymhellion Syr Bruce Keogh yn yr adolygiad o'r drefn ar gyfer rheoleiddio ymyriadau cosmetig (cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Ebrill 2013), mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol weithio gyda'r awdurdodau cyhoeddus a'r diwydiannau priodol i nodi triniaethau cosmetig anlawfeddygol i gael eu hychwanegu, trwy welliant, at y rhestr o driniaethau arbennig a gynhwysir yn y Bil.**

### **Meini prawf trwyddedu**

329. Mae Adran 51(1) y Bil yn nodi bod raid i Weinidogion Cymru, trwy reoliadau sy'n destun y weithdrefn gadarnhaol, osod meini prawf y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir dyfarnu trwydded triniaethau arbennig. Mae Adran 52(1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoliadau hyn osod amodau gorfodol a fyddai'n gymwys i drwyddedau triniaethau arbennig.

330. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

“Bydd y meini prawf trwyddedu yn pennu cymhwysedd unigolyn i gael trwydded, ymysg pethau eraill. Bydd yr amodau trwyddedu mandadol yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid i ddeiliad trwydded eu bodloni er mwyn cael cadw ei drwydded, gan gynnwys amodau sy'n ymwneud â safonau hylendid, y dull o gynnal triniaethau arbennig, a'r wybodaeth sydd i'w darparu yn ystod ymgynghoriadau cyn ac ar ôl y driniaeth.”<sup>282</sup>

331. Cyfeiriodd y Gweinidog at y meini prawf y gallai rhywun ddisgwyl iddynt gael eu bodloni wrth gael gwneud triniaeth arbennig mewn lleoliad trwyddedig. Dywedodd y byddai'r Bil yn:

“give members of the public the confidence of knowing that if a certificate is in the window, then that is an outlet that has been properly inspected, the standards of hygiene are what you would need them to be, the training of staff is what you would want it to be, there will be pre-procedure and post-procedure advice, aftercare,

---

<sup>282</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 121

given to people, and both the premises and the staff are fit to carry out the duties that they purport to provide”.<sup>283</sup>

332. Dywedodd Dr Quentin Sandifer wrth y Pwyllgor fod lechyd Cyhoeddus Cymru’n cefnogi’r gofyniad trwyddedu sy’n cael ei osod ar unigolyn, ac nid ar fusnes yn unig, boed hynny mewn adeilad neu gerbyd.<sup>284</sup> Ychwanegodd:

“I would also want to make the point that the provision should apply to all individuals, whether they are currently providing those services or might provide them in the future. I wouldn’t want a grandfather clause inadvertently to be introduced in the legislative process.”<sup>285</sup>

### ***Ymgynghoriadau cyn cyflawni triniaeth***

333. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth bendant iawn o blaid y syniad y dylai ymarferwyr gynnal ymgynghoriadau gyda chleientiaid cyn y driniaeth. Gwelwyd hyn fel ateb i oresgyn y posibilrwydd y gallai unigolyn gael triniaeth, yn enwedig tatŵ neu dyllu’r corff, tra ei fod dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau. Meddai Julie Barratt:

“I entirely agree with a cooling-off period, whether you’re drunk or not, for tattooing or intimate piercing. I think we can control this through the licence conditions. The licence conditions should make it quite clear that if someone is under the influence of alcohol or drugs, whether they are prescription or non-prescription drugs, the practitioner should refuse to treat them. I think that’s the right thing to do. But, I would prefer to see that as a licensing condition, because licensing conditions can be changed quite quickly”.<sup>286</sup>

334. Cytunodd Lee Clements y byddai’r cynnig o gyflwyno cyfnod “newid meddwl” rhwng yr ymgynghoriad a chyflawni’r driniaeth yn fuddiol:

Most reputable studios wouldn’t even dream of tattooing someone who is intoxicated. I mean, just in the case of my studio, we have a disclaimer that, basically, they have to sign, saying they’re not intoxicated on drugs or alcohol, for instance, and if I thought that they were, then we wouldn’t do that anyway. But, I understand that it does happen, and I think that introducing it as part of the Bill would be great. The cooling-off period— I know they’ve introduced

---

<sup>283</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 78], 1 Gorffennaf 2015

<sup>284</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 48], 9 Gorffennaf 2015

<sup>285</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 48], 9 Gorffennaf 2015

<sup>286</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 56], 15 Gorffennaf 2015

something similar in Boston health authority, and I think that that's something that would be of benefit. I think if someone is going to make the jump to have something for the rest of their lives, then waiting a couple of days is not going to make any difference, is it?"<sup>287</sup>

335. Dywedodd y Gweinidog y gellid cynnwys amod trwyddedu gorfodol i rwystro unigolion rhag cael triniaeth tra oeddent yn feddw. Dywedodd wrth y Pwyllgor mai ei fwriad fyddai creu amodau trwyddedu sy'n gofyn i ddeilydd trwydded:

- beidio â chyflawni triniaeth arbennig ar berson sydd dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau i'r fath raddau fel nad ydynt yn deall yr wybodaeth y mae'n orfodol ei rhoi cyn y driniaeth;
- sicrhau ei fod yn cynnal ymgynghoriad cyn y driniaeth gyda defnyddiwr, a bydd angen cofnodi hynny ar y ffurflenni y bydd yn rhaid i'r unigolyn eu llenwi i ddangos bod hyn wedi ei wneud.<sup>288</sup>

336. Dywedodd y Gweinidog ei fod hefyd o'r farn y dylai, trwy amodau trwyddedu gorfodol, gynnwys gofyniad uniongyrchol ar yr unigolion eu hunain i gadarnhau nad ydynt dan ddylanwad alcohol na chyffuriau cyn cael y driniaeth. Nododd ei fwriad i ddefnyddio'r amodau gorfodol wrth gymeradwyo lleoliad i'w gwneud yn glir bod rhaid i'r lleoliadau eu hunain gynnwys hysbysiadau sy'n dweud na chynhelir unrhyw driniaeth i datwio na thyllu corff neb sydd dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau.<sup>289</sup>

### ***Brechiadau gorfodol i ymarferwyr***

337. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth hefyd yn awgrymu y gallai brechiadau gorfodol i ymarferwyr fod yn ofyniad er mwyn cael trwydded. Cyfeiriodd Sarah Calcott, a oedd yn cynrychioli Cymdeithas Prydain ar gyfer Tyllu'r Corff, at amodau trwyddedu oedd ar waith yn Llundain, lle mae'r awdurdodau'n gofyn am dystiolaeth bod ymarferwyr wedi derbyn brechiadau arbennig, a dywedodd fod Cymdeithas Prydain ar gyfer Tyllu'r Corff yn argymhell y dylai ei aelodau gael brechiadau.<sup>290</sup> Ychwanegodd Lee Clements fod Ffederasiwn Artistiaid Tatŵ Prydain hefyd yn argymhell bod artistiaid tatŵ yn cael brechiadau yn erbyn hepatitis B cyn gallu gweithio mewn stiwdio.<sup>291</sup>

<sup>287</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 396], 17 Medi 2015

<sup>288</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 44], 21 Hydref 2015

<sup>289</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 45], 21 Hydref 2015

<sup>290</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 423], 17 Medi 2015

<sup>291</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 425], 17 Medi 2015

### ***Ymgynghori ar amodau'r drwydded***

338. Clywodd y Pwyllgor y byddai ymgynghori â'r diwydiannau perthnasol yn allweddol i'r gwaith o ddatblygu amodau effeithiol ar gyfer y drwydded. Dywedodd Julie Barratt wrth y Pwyllgor ei bod yn bwysig, wrth lunio amodau'r drwydded, i gynnwys y gorfodwyr a'r diwydiannau er mwyn sicrhau bod yr amodau'n briodol. Dywedodd hefyd ei bod yn bwysig bod modd diwygio amodau'r drwydded er mwyn dilyn newidiadau mewn ymddygiad.<sup>292</sup>

339. Er i'r Cyngor Aciwbigo Prydeinig fynegi cefnogaeth i'r cynigion yn y Bil yng nghyd-destun aciwbigo, pwysleisiodd y gallai'r buddion a ddaw yn sgil cyflwyno'r trefniadau hyn gael eu tanseilio oni bai fod gweithdrefnau ymgynghori'n cael eu rhoi ar waith er mwyn datblygu amodau'r drwydded yn y dyfodol. Pwysleisiodd ei gynrychiolwyr yr angen i gynnwys gweithwyr proffesiynol wrth sefydlu gofynion trwyddedu, ac amlygodd bwysigrwydd sicrhau bod timau iechyd yr amgylchedd yn mabwysiadu dull safonol ledled Cymru.<sup>293</sup>

### ***Archwilio lleoliadau/cerbydau***

340. Dywedodd Lee Clements wrth y Pwyllgor ei fod yn gobeithio y byddai'r Bil yn gwella gwaith arolygu, gan ddadlau nad oedd y trefniadau presennol yn ddigonol.

“Quite often, even in my studio, we’ll go two years without seeing an environmental health officer. So, that needs to be looked at, you need to make sure that there are regular inspections and make sure that the standards are constantly high.”<sup>294</sup>

341. Yn y dystiolaeth, soniwyd am yr angen i arolygwyr dderbyn hyfforddiant a meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r driniaeth dan sylw. Nododd Dee Yeoman, a roddodd dystiolaeth yn y fideo:

“Most of the inspectors, you know—no fault of their own—have no training in tattooing or piercing, and they don’t know what they’re looking for. So, that needs to be addressed.”<sup>295</sup>

---

<sup>292</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 56], 15 Gorffennaf 2015

<sup>293</sup> PHB 15 y Cyngor Aciwbigo Prydeinig a Chofnod y Trafodion [paragraff 346], 17 Medi 2015

<sup>294</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 385], 17 Medi 2015

<sup>295</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 184], 17 Medi 2015

## ***Barn y Pwyllgor***

342. Mae'r Pwyllgor yn poeni ynghylch y diffyg gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd ar hyn o bryd ynghylch faint o hyfforddiant y mae ymarferydd unrhyw un o'r triniaethau arbennig wedi'i dderbyn ar gydymffurfio â gweithdrefnau hylendid, rheoliadau iechyd a diogelwch, darparu cyngor ar ôl-ofal, neu roi cymorth cyntaf sylfaenol. Oherwydd hynny, mae'n croesawu'r darpariaethau sydd yn y Bil i gyflwyno cynllun trwyddedu gorfodol er mwyn cyflawni gwelliannau yn y maes hwn.

343. Mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn hanfodol ymgymryd â'r triniaethau hyn mewn modd diogel a hylan er mwyn sicrhau bod y risg o heintiau'n cael ei lleihau. Oherwydd hynny, mae'n croesawu sicrwydd y Gweinidog y bydd y darpariaethau yn y Bil yn golygu y bydd y cyhoedd yn teimlo'n hyderus bod lleoliadau trwyddedig yn cael eu harolygu'n briodol, y bydd y staff yn derbyn hyfforddiant mewn cydymffurfio â gweithdrefnau hylendid a darparu cyngor ar y triniaethau y maen nhw'n eu cynnig, ynghyd â'r ôl-ofal, ac y bydd y staff a'r lleoliadau, fel ei gilydd, yn addas i'r diben.

**Argymhelliad 5: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn sicrhau bod y cynllun trwyddedu gorfodol yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ddeilydd trwydded derbyn hyfforddiant ar gydymffurfio â gweithdrefnau hylendid, rheoliadau iechyd a diogelwch, darparu cyngor ar ôl-ofal, a rhoi cymorth cyntaf sylfaenol.**

344. Gan fod trwyddedau i wneud triniaethau arbennig yn dod i ben ar ôl tair blynedd, noda'r Pwyllgor y byddai angen archwilio lleoliadau neu gerbydau fel rhan o'r broses o ailymgeisio am drwydded ac y byddai hyn, felly, yn sicrhau bod arolygiadau'n cael eu cynnal yn rheolaidd.

345. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'n arbennig y cynnig i'w gwneud yn ofynnol i ymarferwyr gynnal ymgynghoriad cyn y driniaeth gyda chleientiaid posibl er mwyn sicrhau eu bod yn llwyr ymwybodol o unrhyw oblygiadau posibl cyn cytuno i unrhyw driniaeth. Bu'n destun pryder iddo glywed am achosion lle mae pobl wedi cael triniaethau tra oeddent dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol, ac mae o'r farn y byddai cyfnod i ystyried rhwng yr ymgynghoriad a'r driniaeth ei hun yn gam mawr ymlaen i atal pobl rhag gwneud penderfyniadau bryslog ynghylch cael tatŵ neu dyllu'r corff heb allu cydsynio ar sail yr holl wybodaeth.

346. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r camau diogelu ychwanegol, posibl a awgrymwyd gan y Gweinidog i sicrhau nad yw deiliaid trwydded yn cyflawni triniaethau ar unigolion a allai fod yn feddw, gan gynnwys:

- creu amod trwyddedu sy'n atal deilydd y drwydded rhag cyflawni triniaeth ar berson a allai fod dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol;
- creu amod trwyddedu lle byddai angen i'r unigolyn sy'n cael y driniaeth gadarnhau nad yw dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol.

347. Mae'r Pwyllgor yn nodi y byddai rhoi nodwydd yng nghorff rhywun fel arfer yn cael ei ystyried yn drosedd, megis ymosodiad, niwed corfforol gwirioneddol neu niwed corfforol difrifol, yn dibynnu ar ba mor ddifrifol oedd yr anafiadau a achoswyd, ond gwneir eithriad yn achos triniaethau megis tatŵio os yw'r ymarferydd yn credu'n ddifffuant bod y cwsmer yn cytuno i gael tatŵ.

348. Roedd mwyafrif Aelodau'r Pwyllgor o'r farn na ddylid defnyddio amodau'r drwydded i fynd i'r afael â'r broblem o gynnal triniaethau arbennig ar unigolion a allai fod yn feddw neu fel arall yn methu â chydsynio i'r driniaeth. Yn hytrach, roeddynt o'r farn y dylid ystyried nodi ar wyneb y Bil ei bod yn drosedd i ymarferydd gynnal triniaethau o'r fath o dan amgylchiadau o'r fath. Nododd Kirsty Williams AC ei gwrthwynebiad i'r cynnig hwn, gan nodi y byddai'n well ganddi weld amod yn cael ei roi ar drwydded, y byddai'r deilydd:

- yn gorfod gwneud pob ymdrech bosibl i gadarnhau nad yw'r sawl sy'n cael y driniaeth dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol;
- yn gofyn i unigolyn sy'n cael triniaeth ddarparu cydsyniad wedi'i lofnodi sy'n cadarnhau nad yw dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol.

**Argymhelliad 6: Roedd mwyafrif Aelodau'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol archwilio i weld a yw'n briodol creu trosedd ar wyneb y Bil o ran cyflawni triniaeth arbennig ar unigolyn sy'n feddw neu sydd fel arall yn methu â chydsynio i'r driniaeth.**

### **Gorfodi**

349. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, dywedodd Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd (Cymru) y byddai'r darpariaethau trwyddedu yn y Bil yn cynorthwyo swyddogion y llywodraeth leol i ddiogelu'r cyhoedd. Credid y byddai'r system drwyddedu arfaethedig yn:

- galluogi awdurdodau lleol i gwblhau dyletswyddau diogelu'r cyhoedd yn fwy effeithiol ac yn rhwyddach;
- rhoi gwell pwerau gorfodi a mwy o hyblygrwydd i fynd i'r afael â risgiau iechyd cyhoeddus mewn perthynas â'r rhai sy'n gweithredu'n gyfreithlon a'r rhai sy'n dewis peidio.<sup>296</sup>

350. Dywedodd Lee Clements wrth y Pwyllgor ei fod yn gobeithio y byddai hwn yn faes a gâi ei wella gan y Bil:

“Currently, the environmental health officers I have spoken to find it very difficult to actually bring anything to court in the first place. So, I'm hoping that, with the adequate enforcement, they will be able to prosecute people for non-compliance with the licence.”<sup>297</sup>

### ***Ariannu***

351. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y byddai'r ddarpariaeth yn y Bil i ganiatáu i awdurdodau lleol godi tâl am drwyddedau yn darparu adnoddau i'r awdurdodau hynny i'w galluogi i orfodi gofynion y drwydded:

“In the case of special procedures, we are replacing an outdated system, where there was a one-off registration fee that lasted for a lifetime, with a modernised licensing system that will ensure that a cycle of funding is available to local authorities to support them in the discharge of these duties. Local authorities will be able to charge fees to recover the costs of licensing, approval and registration procedures, and to cover the costs of running and enforcing the schemes for successful applications. I know there's a balance to be struck here again between wanting to make sure that we have an income stream for local authorities to do this important job without making the fees of such a level that they become a burden on legitimate businesses. But we are having to make sure that local authorities get the resources they need to do this very important job, and the Bill allows that to happen”.<sup>298</sup>

352. Mewn ymateb i gwestiwn ar ba un a fyddai disgwyl i awdurdodau lleol ddefnyddio'r arian a godwyd trwy ddsbarthu trwyddedau at ddibenion gorfodi neu ddibenion eraill sy'n ymwneud yn benodol â'r ddeddfwriaeth hon, dywedodd y Gweinidog:

<sup>296</sup> PHB 04 Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd

<sup>297</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 379], 17 Medi 2015

<sup>298</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 68], 21 Hydref 2015

“I’m just taking advice, but I think the answer is that we’ve constructed the Bill in such a way that the fee income is dedicated to the purpose for which the income is being collected”.<sup>299</sup>

353. Wrth ystyried goblygiadau ariannol y Bil hwn, holwyd y Gweinidog gan y Pwyllgor Cyllid ar bryderon y gallai’r adnoddau sy’n angenrheidiol i orfodi’r gofrestr triniaethau arbennig dynnu arian oddi ar wasanaethau eraill â blaenoriaeth. Ymatebodd Gweinidog gan ddweud:

“This is one of the places where we will need to update the information provided in the EM because—and this is all very detailed—when we were producing the original explanatory memorandum, the case of *Hemming v. Westminster City Council*, which is the test case in this field [...] had gone to the appeal court, and the appeal court had concluded that it was not legal for a local authority to recover, in the fee that the registrant was required to pay, the cost of enforcing those people who did not register. So, the costs that we set out here are assumed on that basis: that local authorities would not be able to charge fees that would cover the cost of enforcement. That case has now gone to the Supreme Court, and the Supreme Court has overturned the position set out in the Court of Appeal, and the position, which is now the final position, is that local authorities can include in the cost of registering an element to cover their costs of enforcing the register.”<sup>300</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

354. Er bod y Pwyllgor yn croesawu’r ddarpariaeth yn y Bil i gyflwyno cynllun trwyddedu gorfodol, mae’n credu na wneir unrhyw welliannau oni bai eu bod y trwyddedau’n cael eu gorfodi’n briodol wedi hynny. Mae’r Pwyllgor yn ymwybodol iawn o’r cyfyngiadau ariannol a wynebwr gan awdurdodau lleol, a’r pwysau sydd arnynt i ddarparu gwasanaethau gydag adnoddau cyfyngedig. Felly, mae’n croesawu’r ffaith y gall awdurdodau lleol godi tâl am ddosbarthu trwyddedau, a sicrwydd y Gweinidog y gallai awdurdodau lleol ddefnyddio’r incwm o’r ffioedd ymgeisio at ddibenion gorfodi neu ddibenion eraill sy’n ymwneud yn benodol ag agweddau triniaethau arbennig y Bil hwn. Fodd bynnag, fe fyddai’r Pwyllgor yn croesawu eglurhad gan y Gweinidog ar ei ddatganiad, a ddyfynnir ym mharagraff 352 uchod, o ran pa un a fyddai’r Bil yn gofyn i awdurdodau lleol ddefnyddio’r incwm a gynhyrchwyd trwy’r

---

<sup>299</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 71], 21 Hydref 2015

<sup>300</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraffau 141 a 143], 15 Gorffennaf 2015

ffioedd ymgeisio at ddibenion gorfodi neu ddibenion eraill sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth hon.

355. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ac yn ailadrodd yr alwad a wnaed gan y Pwyllgor Cyllid yn ei adroddiad<sup>301</sup> i'r Gweinidog egluro'r sefyllfa yng nghydestun achos Hemming yn erbyn Cyngor Dinas San Steffan. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Gweinidog yn gallu darparu'r eglurhad hwn yn ystod trafodaeth y Cyfarfod Llawn ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

### **Lefel y ddirwy a bennir**

356. Mae'r Bil yn nodi y byddai'n rhaid i berson sy'n cyflawni trosedd yn ymwneud â'r darpariaethau o ran triniaethau arbennig dalu dirwy heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol (sydd wedi ei phennu'n £1,000 ar hyn o bryd). Dadleuodd nifer o randdeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, artistiaid tatŵ a Chymdeithas Prydain ar gyfer Tyllu'r Corff, fod lefel y ddirwy yn rhy isel ac na fyddai'n gweithredu fel arf ataliol ystyrllon. Yn ei ymateb, awgrymodd Cyngor Dinas Caerdydd y byddai'r ddirwy o £20,000 a godir ar bobl nad ydynt yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ar gyfer gwelyau haul yn swm mwy priodol; nododd y rhai a oedd yn cynrychioli'r diwydiannau tatŵio a thyllu'r corff fod angen i lefel y ddirwy fod yn uwch, rhwng £5,000 a £10,000, gan na fyddai dirwy o £1,000 bob nawr ac yn y man yn arf ataliol digonol.<sup>302</sup>

357. Wrth ymateb i gwestiynau gan Aelodau, ymrwymodd y Gweinidog i gyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 a fyddai'n gosod dirwy ddiderfyn ar unrhyw un a fyddai'n torri'r cyfyngiadau yn y Bil hwn o ran rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff (gweler y manylion ar ystyriaethau'r Pwyllgor o'r darpariaethau sy'n ymwneud â rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff mewn pennod ar wahân). Dywedodd y byddai'n agored i ailystyried lefel y ddirwy a bennir ar gyfer torri'r cyfyngiadau sy'n ymwneud â thriniaethau arbennig pe bai'r dystiolaeth a dderbynnir yn arwain y Pwyllgor i argymhell bod dirwy uwch yn briodol.

### **Barn y Pwyllgor**

358. Mae posibilrwydd o achosi niwed sylweddol i iechyd y cyhoedd os cynhelir triniaethau arbennig, fel y rhai a nodir yn y Bil hwn, mewn modd anniogel, ac ni ddylid caniatáu hyn. Oherwydd hynny, mae'r Pwyllgor yn

---

<sup>301</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, [Adroddiad ar Fil Iechyd y Cyhoedd \(Cymru\)](#), Medi 2015

<sup>302</sup> Cofnod y Trafodion [paragraffau 447 a 448], 17 Medi 2015

credu y dylai'r dirwyon a bennir yn achos unrhyw un sy'n ymddwyn yn anghyfreithlon fod yn ddigon uchel i fod yn arf ataliol ystyrlon.

359. Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd gan y diwydiannau tatŵio a thyllu'r corff yn glir – os gall rhywun ennill £1,000 mewn wythnos trwy wneud triniaethau arbennig, yna ni fyddai dirwy ar yr un lefel yn ddigon i atal rhywun rhag gweithredu'n anghyfreithlon. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai lefel y ddirwy adlewyrchu difrifoldeb y diffyg cydymffurfio, a dylid ystyried ei alinio'n agosach â'r dirwyon a bennir mewn deddfwriaethau yng nghydestun troseddau eraill tebyg, megis Deddf Gwelyau Haul (Rheoleiddio) 2010.

**Argymhelliad 7: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddiwygio'r Bil i gynyddu lefel y ddirwy a osodir ar unrhyw un sy'n cyflawni trosedd o dan adran 67 o'r Bil (mewn perthynas â thriniaethau arbennig) i ddirwy Lefel 5.**

## 7. Rhan 4 – Rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff

---

360. Mae Rhan 4 y Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff. Noda'r Memorandwm Esboniadol mai diben y darpariaethau hyn yw:

“amddiffyn plant a phobl ifanc rhag y niwed posibl i iechyd y gellir eu hachosi trwy gael twll mewn rhan bersonol o'r corff, ac osgoi amgylchiadau pan roddir plant a phobl ifanc mewn sefyllfa lle y gallent fod yn agored i niwed.”<sup>303</sup>

361. Mae'r Bil yn ceisio cyflawni hyn trwy gyflwyno gwaharddiad ar roi twll mewn rhan bersonol o gorff unrhyw un dan 16 oed. Mae adran 79 y Bil yn diffinio rhannau personol y corff fel: yr anws; y fron (gan gynnwys y deth a'r areola); y ffolen; rhych y pen ôl; y pidyn (gan gynnwys y blaengroen); y perinëwm; y mons pubis; y ceillgwd a'r fwlf.

362. Noda'r Memorandwm Esboniadol na fyddai'r darpariaethau yn y Bil yn effeithio ar allu ymarferwyr sydd ar hyn o bryd yn dewis peidio â rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff pobl dan 18 oed, i gadw at eu polisïau eu hunain o osod cyfyngiad oedran uwch.<sup>304</sup> Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi na fyddai ymarferydd a gosbir am gyflawni triniaeth ar berson dan 16 oed yn gallu defnyddio'r amddiffyniadau a ganlyn:

- roedd yr unigolyn wedi rhoi ei ganiatâd;
- roedd rhiant neu warcheidwad yr unigolyn wedi rhoi ei ganiatâd.<sup>305</sup>

363. Byddai angen i awdurdodau lleol orfodi'r darpariaethau yn y Bil, gan gynnwys cyflwyno erlyniadau ac archwilio cwynion.

364. Mewn tystiolaeth lafar, esboniodd y Gweinidog ei resymau dros gynnwys y darpariaethau hyn yn y Bil:

“In the evidence that we've collected, I think it was 8.5 per cent of all the piercings of people under the age of 16 fell into that category [intimate cosmetic piercings]. I think that does give us some significant evidence of the need to act.”<sup>306</sup>

---

<sup>303</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 141

<sup>304</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 143

<sup>305</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 145

<sup>306</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 82], 1 Gorffennaf 2015

365. Cyfeiriodd Dr Quentin Sandifer, a oedd yn cynrychioli Iechyd Cyhoeddus Cymru, at ymarferiad “edrych yn ôl” yr ymgymeryd ag ef yn ardal Gwent, lle nodwyd bod nifer o unigolion dan 16 oed wedi cael twll mewn rhan bersonol o’r coff:

“In the recent Gwent incident, I was shocked to hear that six individuals below the age of 16 were identified in our look-back exercise. One as young as 13 had a nipple piercing undertaken by an adult male. Now, I do have deep concerns, quite frankly, about a current system that potentially allows for that to happen”.<sup>307</sup>

366. Roedd yna gefnogaeth gyffredinol ymhlith y rhai a gyflwynodd dystiolaeth i’r Pwyllgor i’r cynnig i gyflwyno gofyniad lleiafswm oedran yn achos unrhyw un sy’n cael twll mewn rhan bersonol o’r corff. Yn ogystal â hyn, roedd 79.5 y cant o’r rhai a ymatebodd i arolwg cyhoeddus y Pwyllgor yn credu bod angen cyfyngiad oedran ar roi twll mewn rhan bersonol o’r corff.<sup>308</sup>

### **Lefel y cyfyngiad oedran**

367. Er gwaetha’r consensws cyffredinol fod angen cyfyngiad oedran, cynigiodd tystion wahanol safbwyntiau o ran a ddylid gosod cyfyngiad o 16 neu 18 oed. Dywedodd Dr Sandifer wrth y Pwyllgor fod 16 oed wedi’i nodi’n unol â’r oedran y caniateir i rywun gael cyfathrach rywiol, a chredai fod hyn yn safbwynt rhesymol iawn i’w gymryd.<sup>309</sup>

368. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, awgrymodd Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd y byddai 18 yn gyfyngiad oedran mwy priodol ar gyfer rhoi twll mewn rhan bersonol o’r corff. Ni chredai fod 16 yn oedran priodol gan na fyddai unigolyn o’r oedran hwnnw o bosibl yn ddigon aeddfed i wneud penderfyniad o’r fath nac i ymrwymo i’r ôl-ofal angenrheidiol. Ychwanegodd y byddai’r risg o niweidio’r croen yn fwy yn achos rhywun 16 oed na rhywun 18 oed, gan fod yr unigolyn yn dal i dyfu. Awgrymodd hefyd y byddai cael yr un cyfyngiad oedran â thatwio’n osgoi unrhyw ddryswch posibl a allai godi o gael gwahanol drefniadau ar waith ar gyfer gwahanol driniaethau.<sup>310</sup>

369. Cytunodd Cyfarwyddwyr Diogelu’r Cyhoedd (Cymru) â’r cynnig i osod y lleiafswm oedran ar 16, ond derbynient y rhesymeg dros gynnig 18 oed:

---

<sup>307</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 75], 9 Gorffennaf 2015

<sup>308</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, [Crynodeb o ganlyniadau arolwg y cyhoedd](#), Medi 2015

<sup>309</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 77], 9 Gorffennaf 2015

<sup>310</sup> PHB 01 Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd

“We do agree with the specification of a minimum age, and, in our submission, we have endorsed the age of 16, although, having seen the Chartered Institute for Environmental Health evidence [...] I do think that that is quite a well-made case, in terms of consistency with tattooing [...] And being consistent with tattooing, it would assist, I think, from a regulatory perspective, if there was the same age limit, and, certainly, for practitioners, that would provide a bit of clarity as well.”<sup>311</sup>

370. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Cymdeithas Prydain ar gyfer Tyllu'r Corff ei bod o'r farn mai 18 oedd yr oedran priodol i'w osod fel cyfyngiad ar roi twll mewn rhan bersonol o'r corff, ond nododd hefyd y dylai unrhyw un sy'n gwneud triniaethau o'r fath gael ei hyfforddi'n briodol i wneud hynny:

“Female nipples should be considered for piercing over 18 only. However anything below the waist I believe should only be performed by someone who has adequate knowledge of the anatomy of the genitals and has had further training within this specific area and should not be performed on anyone under the age of 18.”<sup>312</sup>

371. Mewn ymateb i'r awgrym y dylai'r cyfyngiad oedran a gynigiwyd gael ei osod yn uwch, ar 18 oed, esboniodd y Gweinidog ei fod, wrth gynnig 16 oed, wedi rhoi ystyriaeth i gydbwyso'r angen am ddarparu diogelwch digonol i blant a phobl ifanc ochr yn ochr â chydabod eu hawliau fel unigolion:

“At what point do you think you strike the balance between protecting a child or young person, without disproportionately trespassing on those rights to make decisions for themselves? Now, at the age of 16, you can leave school, you can get married and you can have sexual intercourse by consent. You are in charge of your life in a whole range of very, very important areas. I understand completely that, you know, there is a debate to be had, but, having thought it through and seen the advice that I've seen, I came to the conclusion that, for this purpose, 16 was the right balance to strike between making sure that children are properly protected, but recognising that, by the time you come to the age of 16, there are

---

<sup>311</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 179], 15 Gorffennaf 2015

<sup>312</sup> PHB 08 Cymdeithas Prydain ar gyfer Tyllu'r Corff

aspects of your life over which you are entitled to have direct control.”<sup>313</sup>

## **Prawf oedran**

372. Dywedodd rhanddeiliaid wrth y Pwyllgor y gellid cryfhau'r darpariaethau hyn trwy ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un sydd am gael twll mewn rhan bersonol o'r corff ddarparu tystiolaeth o'i oedran.<sup>314</sup> Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd yn cynrychioli Byrddau Iechyd eu bod yn cefnogi prawf oedran gorfodol yn achos unrhyw gleient sy'n cael rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff.<sup>315</sup> Cefnogwyd yr alwad hon gan Gonffederasiwn GIG Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.<sup>316</sup>

## ***Barn y Pwyllgor***

373. Mae'n destun pryder i'r Pwyllgor glywed am achosion o bobl ifanc dan 16 oed yn cael twll mewn rhan bersonol o'r corff, ac mae'n croesawu'r cynigion yn y Bil hwn i helpu i rwystro hyn. Mae'n nodi'r gefnogaeth aruthrol a roddwyd gan dystion dros y cynigion i ddeddfu yn y maes hwn.

374. Mae'r Pwyllgor yn llwyr gefnogi cyflwyno lleiafswm oedran ar gyfer rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff, ac yn cydnabod y dadleuon dros osod cyfyngiad o naill ai 16 neu 18 oed. Ar ôl pwysu a mesur, mae'n derbyn rhesymeg y Gweinidog dros ddewis 16 fel y lleiafswm oedran, gan ystyried y byddai'n gyson â'r oedran cydsynio i gyfathrach rywiol a'r angen i ystyried hawliau pobl ifanc. Serch hynny, mae'n credu bod gallu ymarferwyr i ddewis peidio â gwneud triniaethau ar unrhyw un dan 18 oed yn bwysig, ac yn croesawu'r ffaith na fyddai'r Bil yn rhwystro hyn rhag parhau.

375. Er bod y Pwyllgor yn cefnogi cyflwyniad cyfyngiad oedran ar gyfer rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff, mae'n cydnabod y gellid cryfhau'r darpariaethau. Oherwydd hynny, mae'n credu y byddai gofyniad ar ymarferwyr i ofyn am brawf oedran gan gwsmeriaid cyn rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff yn ychwanegiad buddiol at y Bil, ac y byddai'n cynnig amddiffyniad ychwanegol wrth sicrhau diogelwch pobl ifanc.

---

<sup>313</sup> Cofnod y Trafodion [paragraffau 47 a 48], 21 Hydref 2015

<sup>314</sup> PHB 02 Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd ar ran Byrddau Iechyd yng Nghymru, PHB 05 Gonffederasiwn GIG Cymru, PHB 30 Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, PHB 78 Cymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd a Chofnod y Trafodion [paragraffau 79 a 197], 9 Gorffennaf 2015

<sup>315</sup> PHB 78 Cymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd

<sup>316</sup> PHB 03 Iechyd Cyhoeddus Cymru a PHB 05 Gonffederasiwn GIG Cymru

**Argymhelliad 8: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddiwygio'r Bil er mwyn cryfhau ac ehangu ar y darpariaethau sy'n ymwneud â chael tystiolaeth o oedran unigolion sydd am gael rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff. Mae'n argymhell bod y Gweinidog yn ehangu ar yr amddiffyniad sydd ar gael o dan adran 78 o'r Bil, fel ei fod yn adlewyrchu'r amddiffyniad yn adran 146 o Ddeddf Trwyddedu 2003 (h.y. yr amddiffyniad sy'n ymwneud â gwerthu alcohol i bobl dan 18 oed), sy'n nodi prif elfennau'r amddiffyniad, megis:**

- credu bod yr unigolyn dros yr oedran perthnasol, a**
- chymryd pob cam rhesymol i ddarganfod oedran unigolyn (fel gofyn am dystiolaeth o'i oedran, a bod y dystiolaeth honno'n argyhoeddiadol i berson rhesymol).**

### **Rhoi twll yn y tafod**

376. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth sylweddol am y potensial i rywun ddioddef niwed o ganlyniad i gael triniaeth i roi twll yn y tafod. Awgrymodd llawer o dystion y gellid cyfiawnhau cyfyngiad oedran ar gyfer y driniaeth, oherwydd natur twll yn y tafod a'r risg uwch o ddioddef niwed yn sgil hyn. Meddai Dr Sandifer wrth y Pwyllgor:

"I think tongue piercing in particular would be a valuable additional explicit body part if you like—the tongue itself—to add to this on the grounds, I think, that it is known to present a high risk of infection and other complications, and arguably could be perceived in a young person to be encouraging sexualisation."<sup>317</sup>

377. Esboniodd Dr Gill Richardson, Cyfarwyddwr lechyd y Cyhoedd ym Mwrdd lechyd Prifysgol Aneurin Bevan yr effaith bosibl pe bai pethau'n mynd o 'i le wrth roi twll yn y tafod:

"As a former GP, there's no way that I would do that [pierce a tongue]; there's no way that most dentists would pierce a tongue, and they have four years of specialising in head and neck anatomy. They would not do it without a resuscitation trolley by the side, because of the risk of major haemorrhage, the risk of infection, or anaphylaxis. It doesn't bear thinking about. They pick up a lot of the side effects, in fact, our dentists, because when tongues swell, the piercing becomes

---

<sup>317</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 75], 9 Gorffennaf 2015

embedded and it's very difficult to remove. So, our dentists see them when they need removing.”<sup>318</sup>

378. Ar ôl clywed y dystiolaeth a gyflwynwyd, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor, pe bai'r Bil yn mynd yn ei flaen i gyfnodau diwygio, ei fod yn bwriadu cyflwyno gwelliannau yn ystod Cyfnod 2 i ychwanegu twll yn y tafod at y triniaethau hynny a ddiffinnir fel tyllau mewn rhan bersonol o'r corff, gan orfodi trwy hynny gyfyngiad oedran gofynnol ar gyfer y driniaeth honno. Cadarnhaodd y Gweinidog hyn i'r Pwyllgor yn ei lythyr dyddiedig 31 Hydref.<sup>319</sup>

### **Barn y Pwyllgor**

379. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dystiolaeth sy'n peri gofid ynglŷn â'r niwed posibl a allai ddigwydd o ganlyniad i roi twll yn y tafod. Mae'n croesawu ymrwymiad y Gweinidog i gynnig gwelliant i gyflwyno cyfyngiad oedran gofynnol os aiff y Bil hwn yn ei flaen i Gyfnod 2.

**Argymhelliad 9: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn bwrw ymlaen â'r bwriad a ddatganwyd ganddo i ddiwygio'r Bil i ychwanegu twll yn y tafod at y rhestr o driniaethau y gwaherddir iddynt gael eu cyflawni ar unrhyw un sy'n iau nag 16 oed.**

### **Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod**

380. Nododd y fenter gymdeithasol Under Age Sales Ltd y dylai'r Bil wneud cyfeiriad at *Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003*. Dywedodd y byddai tyllu'r labia majora, y labia minora, neu'r clitoris yn achos o Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod ac, felly, yn drosedd o dan Ddeddf 2003. Er y cydnabyddir y byddai'r diffiniad o 'fwlfa' yn adran 79 y Bil yn cynnwys rhan bersonol ehangach o'r corff na'r diffiniad mwy cul o anffurfio organau cenhedlu benywod, ceir dadl o hyd y dylid adlewyrchu'r troseddau difrifol hyn ar wyneb y Bil. Argymhellodd felly y dylid ychwanegu llinell arall at adran 78 (ar droseddau'n gysylltiedig â rhoi twll mewn rhannau personol o'r corff) i nodi: "this section does not apply to any offences that may be committed under either the *Sexual Offences Act 2003* or the *Female Genital Mutilation Act 2003*".<sup>320</sup>

381. Gwnaeth Coleg Brenhinol y Bydwagedd bwynt tebyg:

---

<sup>318</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 169], 9 Gorffennaf 2015

<sup>319</sup> PHB AI 09 Y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - 31 Hydref 2015

<sup>320</sup> PHB 13 Under Age Sales Ltd

“There is a need to exclude genital piercing from this and future lists as a procedure that should be licensed because it is illegal under the Female Genital Mutilation Act as Type 4 FGM and cannot be carried out on a girl under the age of 18 in England and Wales.”<sup>321</sup>

382. Meddai’r Gweinidog, gan ymateb i’r pryderon hyn:

“I am very sure in my mind, Chair, that these are very different matters and that there is no overlap directly between them, but I’ve seen that not everybody has been as clear about the distinction as maybe we would have hoped they would be.”<sup>322</sup>

383. Cadarnhaodd y byddai’r Memorandwm Esboniadol diwygiedig a gyhoeddir ar ôl Cyfnod 2, pe bai’r Bil yn mynd yn ei flaen i’r cyfnodau diwygio, yn egluro’r gwahaniaeth rhwng y triniaethau y darperir ar eu cyfer yn y Bil hwn a materion sydd wedi’u cynnwys yn *Neddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003*.

### ***Barn y Pwyllgor***

384. Mae’r Pwyllgor yn cydnabod y gwahaniaeth rhwng y triniaethau y darperir ar eu cyfer yn y Bil hwn a throseddau o dan y Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod. Mae’n croesawu ymrwymiad y Gweinidog i gynnig eglurder ar hyn yn y Memorandwm Esboniadol diwygiedig cyn Cyfnod 3. Mae’n credu y bydd hwn yn fesur diogelu ychwanegol pwysig i osgoi dryswch.

**Argymhelliad 10: Mae’r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn bwrw ymlaen â’r bwriad a ddatganwyd ganddo i sicrhau, mewn Memorandwm Esboniadol diwygiedig, bod y gwahaniaethau’n eglur rhwng y triniaethau y darperir ar eu cyfer yn y Bil hwn a throseddau o dan Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003.**

---

<sup>321</sup> PHB 75 Coleg Brenhinol y Bydwragedd

<sup>322</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 79], 21 Hydref 2015

## 8. Rhan 5 – Gwasanaethau fferyllol

---

385. Nod Rhan 5 y Bil yw newid y ffordd y mae Byrddau Iechyd yn gwneud penderfyniadau am wasanaethau fferyllol trwy wneud yn siŵr bod y rhain yn seiliedig ar asesiadau o angen fferyllol yn eu hardaloedd. Nod y Rhan hon yw annog fferyllfeydd i addasu ac ehangu eu gwasanaethau y tu hwnt i'w swyddogaeth draddodiadol o roi cyffuriau ar bresgripsiwn, ac i ymateb i anghenion lleol.

386. Mae Adran 89 y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i bob Bwrdd Iechyd yng Nghymru baratoi a chyhoeddi asesiad o anghenion fferyllol, ac adolygu'r asesiadau hyn yn barhaus. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n nodi:

- erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid i Fwrdd Iechyd baratoi a chyhoeddi ei asesiad cyntaf o anghenion fferyllol;
- ym mha amgylchiadau y dylai Bwrdd Iechyd adolygu neu ddiwygio ei asesiad (ac y caiff gyfeirio at yr amserlenni y dylid cynnal yr adolygiadau a'r diwygiadau hyn yn unol â hwy);
- y ffordd y dylid cyhoeddi asesiadau o anghenion fferyllol.

387. Mae'r adran hon hefyd yn nodi y gall y rheoliadau wneud darpariaethau eraill yn ymwneud â chynnal asesiadau, gan gynnwys:

- eu cynnwys;
- yr ymgynghoriad ar eu datblygiad;
- i ba raddau y dylent gymryd anghenion y dyfodol a materion eraill i ystyriaeth.

388. Mae Adran 90 y Bil yn diwygio'r prawf rheoli mynediad presennol fel y bydd ceisiadau i ymuno â rhestr fferyllol Bwrdd Iechyd yn seiliedig ar ba un a yw'r cais yn diwallu'r angen/anghenion a nodir yn yr asesiad o anghenion fferyllol lleol. Mae'r prawf cyfredol yn canolbwyntio dim ond ar ba un a oes mynediad priodol at fferyllfeydd ar gyfer rhoi cyffuriau ar bresgripsiwn. Nid yw'n rhoi ystyriaeth i'r amrywiaeth o wasanaethau ychwanegol y gall fferyllfa gymunedol eu darparu. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y prawf cyfredol yn golygu:

“na all fferyllfeydd sy'n dymuno cynnig gwasanaethau ychwanegol ymuno â'r farchnad, oherwydd nad yw'r prawf ar gyfer cael mynediad

at y farchnad yn cydnabod y gwasanaethau ychwanegol y maent yn dymuno eu cynnig, na pha un a fyddai'r gwasanaethau hynny'n cefnogi'r angen i roi sylw i anghenion ieuchyd lleol".<sup>323</sup>

389. Mae Adran 90 hefyd yn darparu ar gyfer gwneud rheoliadau yn nodi'r weithdrefn y mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd ei dilyn wrth ymdrin â cheisiadau a'r materion y mae'n rhaid iddynt eu cymryd i ystyriaeth. Pan fydd asesiad o anghenion fferyllol yn nodi y dylid darparu gwasanaethau penodol mewn ardal, ond nad yw fferyllfeydd sy'n bodoli eisoes yn gwneud cais i ddarparu'r gwasanaethau hynny, bydd y Bwrdd Iechyd yn gallu gwahodd darparwyr eraill i wneud cais i ymuno â'r rhestr fferyllol er mwyn darparu'r gwasanaethau hynny. Byddant hefyd yn gallu tynnu fferyllwyr oddi ar eu rhestrau yn dilyn achosion difrifol a/neu gyson o ddiffyg cydymffurfiad â thelerau ac amodau'r gwasanaeth.

390. Nid oedd y dystiolaeth a gasglwyd ar wasanaethau fferyllol yn helaeth. Mynegodd mwyafrif y rhai a wnaeth sylw ar y Rhan hon eu cefnogaeth i'w darpariaethau.<sup>324</sup> Nododd rhanddeiliaid y byddai'r Bil yn:

- ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd fabwysiadu dull mwy integredig o gynllunio gwasanaethau fferyllol;<sup>325</sup>
- cynyddu capasiti'r GIG a hygyrchedd gwasanaethau trwy ehangu darpariaeth gwasanaethau fferyllol ychwanegol fel atal cenhedlu brys, brechiadau rhag y ffliw a chymorth i roi'r gorau i ysmegu;<sup>326</sup>
- cymell fferyllfeydd i fod ymateb yn well i anghenion eu poblogaethau lleol.<sup>327</sup>

### Asesiadau o anghenion fferyllol

391. Roedd mwyafrif y rhanddeiliaid a wnaeth sylwadau ar yr agwedd hon ar y Bil o blaid cyflwyno asesiadau o anghenion fferyllol. Nododd y Gymdeithas Cwmnïau Fferyllol fod asesiadau o'r fath wedi bod yn ddull hynod effeithiol i gyrff comisiynu yn Lloegr nodi anghenion eu poblogaeth ac i ddarparu

---

<sup>323</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 173

<sup>324</sup> PHB 02 Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd ar ran Byrddau Iechyd yng Nghymru, PHB 03 Iechyd Cyhoeddus Cymru, PHB 05 Conffederasiwn GIG Cymru, PHB 27 Pwyllgor Fferyllol Cymru, PHB 30 Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, PHB 35 Y Coleg Nyrsio Brenhinol, PHB 38 Y Gymdeithas Cwmnïau Fferyllol, PHB 40 Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, PHB 42 Age Cymru, PHB 78 Gymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd a PHB 84 Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol

<sup>325</sup> PHB 03 Iechyd Cyhoeddus Cymru

<sup>326</sup> PHB 03 Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chofnod y Trafodion [paragraff 155], 9 Gorffennaf 2015

<sup>327</sup> PHB 02 Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd ar ran Byrddau Iechyd yng Nghymru

gwasanaethau priodol i ddiwallu'r anghenion hynny.<sup>328</sup> Croesawodd Iechyd Cyhoeddus Cymru yr hyn a ddisgrifiodd fel y potensial i Fyrddau Iechyd ddefnyddio asesiadau o anghenion fferyllol i wella eu gwaith o gynllunio gwasanaethau integredig.<sup>329</sup>

### ***Osgoi ailadrodd***

392. Nododd sawl rhanddeiliad bod angen osgoi ailadrodd asesiadau iechyd sy'n bodoli eisoes wrth ddatblygu asesiadau o anghenion fferyllol.<sup>330</sup> Pwysleisiodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru y dylai asesiadau o anghenion fferyllol ategu'r asesiadau lles lleol sy'n ofynnol o dan *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*.<sup>331</sup> Awgrymodd Iechyd Cyhoeddus Cymru y gellid sicrhau aliniad trwy wneud yn siŵr bod y ddau asesiad yn cael eu cynnal ar yr un pryd.<sup>332</sup> Nododd Conffederasiwn GIG Cymru y dylai asesiadau o anghenion fferyllol gael eu hintegreiddio'n dynn yng nghylch Cynllun Tymor Canolig Integredig Byrddau Iechyd.<sup>333</sup>

393. Rhybuddiodd Pwyllgor Fferyllol Cymru y byddai'r gwaith y byddai angen ei wneud i ysgrifennu ac adolygu asesiad o anghenion fferyllol annibynnol o ansawdd uchel yn sylweddol ac yn ddud. Argymhellodd felly y dylid eu cysylltu ag asesiadau eraill:

“A PNA integrated into other Health Board commissioning plans, needs assessments or publications may prove to be a more cost-effective as well as a more integrated option for Health Board primary care services and would prevent the PNA existing in a silo.”<sup>334</sup>

394. Nododd rhanddeiliaid eraill y dylid diffinio'r term “asesiad o anghenion fferyllol” yn fwy eglur cyn cychwyn Rhan 5 y Bil.<sup>335</sup> Dywedasant fod hyn yn hanfodol ar gyfer mabwysiadu dull systematig, cyson a theg ar draws Byrddau Iechyd. O ystyried symudiad y boblogaeth ar draws ffiniau Byrddau Iechyd a chenedlaethol, pwysleisiodd y Gymdeithas Cwmnïau Fferyllol yr angen i asesiadau o anghenion fferyllol roi ystyriaeth i gwasanaethau a ddarperir mewn ardaloedd cyfagos.<sup>336</sup> Amlygodd Bwrdd Iechyd Addysgu

---

<sup>328</sup> PHB 38 Y Gymdeithas Cwmnïau Fferyllol

<sup>329</sup> PHB 03 Iechyd Cyhoeddus Cymru

<sup>330</sup> PHB 03 Iechyd Cyhoeddus Cymru, PHB 05 Conffederasiwn GIG Cymru, PHB 27 Pwyllgor Fferyllol Cymru, PHB 85 Celesio UK a Lloyds Pharmacy a PHB 103 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

<sup>331</sup> PHB 103 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

<sup>332</sup> PHB 03 Iechyd Cyhoeddus Cymru

<sup>333</sup> PHB 05 Conffederasiwn GIG Cymru

<sup>334</sup> PHB 27 Pwyllgor Fferyllol Cymru

<sup>335</sup> PHB 83 Gymdeithas y Fasnach Wroleg a PHB 86 Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

<sup>336</sup> PHB 38 Y Gymdeithas Cwmnïau Fferyllol

Powys bwysigrwydd diffinio swyddogaeth lechyd Cyhoeddus Cymru o ran cefnogi Byrddau lechyd i fodloni unrhyw ofynion yn ymwneud ag asesiadau o anghenion fferyllol yn y dyfodol.<sup>337</sup>

395. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y byddai rheoliadau ategol yn sicrhau bod asesiadau o anghenion fferyllol yn cael eu hamseru i gyd-fynd ag asesiadau o anghenion ehangach, ac asesiadau lles lleol yn benodol.<sup>338</sup>

### ***Cynnwys a chysondeb***

396. Pwysleisiodd sawl rhanddeiliad yr angen i ddarparu canllawiau manwl, neu dempled cenedlaethol hyd yn oed, i Fyrddau lechyd eu dilyn wrth lunio eu hasesiadau o anghenion fferyllol.<sup>339</sup> Rhybuddiodd nifer o ymatebwyr i ymgynghoriad y Pwyllgor am yr angen i ddysgu gwersi yn sgil cyflwyno asesiadau o anghenion fferyllol yn Lloegr. Nodwyd ganddynt bod y diffyg templed cenedlaethol yno wedi arwain at:

- anghysondeb o ran y dull a fabwysiadwyd gan Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol i ymdrin ag asesiadau;
- heriau cyfreithiol yn erbyn penderfyniadau a wnaed gan ddefnyddio asesiadau o anghenion fferyllol, ar y sail bod ansawdd yr asesiadau'n wael.<sup>340</sup>

397. Soniodd lechyd Cyhoeddus Cymru a'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol y dylid cynnwys anghenion gofal cymdeithasol ochr yn ochr ag anghenion iechyd mewn asesiadau o anghenion fferyllol.<sup>341</sup> Meddai lechyd Cyhoeddus Cymru:

“The pharmaceutical needs of individuals cared for by social services, including ‘at risk’ children and adults, and older people should be included as part of the health boards’ assessment of pharmaceutical needs.”<sup>342</sup>

398. Hefyd, awgrymodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru y dylid defnyddio dangosydd effaith economaidd i hysbysu ystyriaeth o anghenion fferyllol mewn ardal a phenderfyniadau ar ble i leoli fferyllfeydd. Dadleuodd bod hyn

---

<sup>337</sup> PHB 86 Bwrdd lechyd Addysgu Powys

<sup>338</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 179

<sup>339</sup> PHB 03 lechyd Cyhoeddus Cymru, PHB 27 Pwyllgor Fferyllol Cymru a PHB 85 Celesio UK a Lloyds Pharmacy

<sup>340</sup> PHB 03 lechyd Cyhoeddus Cymru a PHB 27 Pwyllgor Fferyllol Cymru

<sup>341</sup> PHB 03 lechyd Cyhoeddus Cymru a PHB 84 Y Gymdeithasol Fferyllol Frenhinol

<sup>342</sup> PHB 03 lechyd Cyhoeddus Cymru

yn arbennig o bwysig o gofio'r cydberthyniad eglur rhwng economïau lleol ac anghydraddoldebau iechyd.<sup>343</sup>

### ***Adolygu, diwygio ac ymwybyddiaeth***

399. Pwysleisiodd y Gymdeithas Cwmnïau Fferyllol ac Age Cymru bwysigrwydd adolygu asesiadau o anghenion fferyllol yn barhaus, yn enwedig i ba raddau y maent yn cyflawni eu nod o annog fferyllfeydd presennol i ehangu eu gwasanaethau i ddiwallu anghenion lleol.<sup>344</sup> Dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru y dylid eu diweddarau bob tair blynedd o leiaf, yn unol ag asesiadau o anghenion lles lleol.<sup>345</sup> Amlygodd rhai rhanddeiliaid hefyd bwysigrwydd ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol yn y broses o lunio ac adolygu asesiadau o anghenion fferyllol.<sup>346</sup>

400. Amlygodd nifer o rhanddeiliaid yr angen i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau fferyllol yn fwy cyffredinol.<sup>347</sup> Roedd canlyniadau arolwg cyhoeddus y Pwyllgor ar y Bil yn awgrymu bod angen gwneud mwy i droi ymwybyddiaeth o wasanaethau fferyllol yn ddefnydd o wasanaethau fferyllol. Er bod 61 y cant o'r ymatebwyr i'r arolwg yn ymwybodol o'r amrywiaeth o wasanaethau gofal iechyd ychwanegol y gall fferyllfeydd cymunedol eu darparu, dim ond 28 y cant oedd wedi eu defnyddio.<sup>348</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

401. Mae diddordeb y Pwyllgor mewn gwasanaethau fferyllol wedi'i gofnodi'n drylwyr gan ei ymchwiliad polisi yn 2011-12 i gyfraniad fferylliaeth gymunedol at wasanaethau iechyd yng Nghymru,<sup>349</sup> a'i waith dilynol yn 2014 i fesur yr hyn a gyflawnwyd i roi ei argymhellion ar waith.<sup>350</sup> Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r darpariaethau a wneir yn y Bil hwn i gyflwyno asesiadau o anghenion fferyllol ac yn credu y bydd hyn yn gwella'r rhwydwaith fferyllfeydd cymunedol cyfan hyd at safon y gorau.

---

<sup>343</sup> PHB 91 Ffederasiwn y Busnesau Bach Cymru

<sup>344</sup> PHB 38 Y Gymdeithas Cwmnïau Fferyllol a PHB 42 Age Cymru

<sup>345</sup> PHB 03 Iechyd Cyhoeddus Cymru

<sup>346</sup> PHB 83 Gymdeithas y Fasnach Wroleg a PHB 85 Celesio UK a Lloyds Pharmacy

<sup>347</sup> PHB 38 Y Gymdeithas Cwmnïau Fferyllol, PHB 42 Age Cymru a PHB 78 Gymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd

<sup>348</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, [Crynodeb o ganlyniadau'r arolwg cyhoeddus](#), Medi 2015

<sup>349</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, [Y cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru](#), Mai 2012

<sup>350</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, [Y cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru: ymchwiliad dilynol](#), Tachwedd 2014

402. Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r galwadau a wnaed i sicrhau yr osgoir ailadrodd ymdrechion wrth lunio asesiadau o anghenion fferyllol a'u bod yn integreiddio'n dda ag asesiadau o anghenion eraill, ac yn fwyaf penodol yr asesiadau lles lleol sy'n ofynnol o dan *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*. Hefyd, mae'r Pwyllgor yn cytuno y dylai'r rheoliadau a wneir o dan y Bil hwn geisio sicrhau bod cysondeb ar draws asesiadau o anghenion fferyllol pob Bwrdd Iechyd.

**Argymhelliad 11: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyflwyno templed cenedlaethol ar gyfer yr asesiad o anghenion fferyllol er mwyn osgoi'r problemau yr hysbyswyd yn eu cylch yn Lloegr o ran amrywiadau yn yr asesiadau.**

403. Er ei fod yn cydnabod y swyddogaeth bwysig sydd gan asesiadau o anghenion fferyllol i'w chyflawni i ehangu'r gwasanaethau sydd ar gael mewn fferyllfeydd lleol, mae'r Pwyllgor o'r farn na fydd yr asesiadau hyn ar eu pen eu hunain yn cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar wasanaethau o'r fath. Fel y mae'r Pwyllgor wedi ei nodi o'r blaen, mae angen gwneud mwy o hyd i gynyddu ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael mewn fferyllfeydd, ac i annog pobl i'w defnyddio.

### **Rhestrau fferyllol**

404. O dan y trefniadau presennol, mae'n rhaid i unrhyw un sy'n dymuno darparu gwasanaethau fferyllol neu roi cyffuriau ar bresgripsiwn ar ran y GIG wneud cais i'r Bwrdd Iechyd perthnasol i gael ei gynnwys ar ei restr fferyllol. Caiff penderfyniadau eu gwneud ar y ceisiadau trwy ddefnyddio prawf rheoli mynediad sy'n canolbwyntio dim ond ar ba un a oes mynediad digonol at fferyllfeydd ar gyfer rhoi cyffuriau ar bresgripsiwn.

405. Nod Adran 90 y Bil yw diwygio hyn er mwyn sicrhau bod Bwrdd Iechyd, wrth asesu ceisiadau, yn cymryd yr amrywiaeth o wasanaethau ychwanegol y gall fferyllfa gymunedol eu darparu i ystyriaeth – e.e. cymorth gofal lliniarol, rhoi'r gorau i ysmegu, a gwasanaethau cyfnewid nodwyddau – ochr yn ochr â'r angen lleol a nodwyd yn ei asesiad o anghenion fferyllol. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth i Fyrddau Iechyd roi mesurau gwella ar waith lle ceir diffyg ansawdd neu ddarpariaeth gyson, gan gynnwys:

- cymryd camau yn erbyn fferyllfeydd penodol am fethu â chydymffurfio â thelerau ac amodau gwasanaeth yn gyson;
- gwahodd fferyllfeydd ychwanegol i wneud cais i ddarparu gwasanaethau penodol.

### ***Yr effaith ar feddygon sy'n rhoi cyffuriau ar bresgripsiwn***

406. Amlygodd BMA Cymru a'r Gymdeithas Meddygon Fferyllol bryderon am effaith y Bil ar drefniadau mynediad a gadael ar gyfer meddygon sy'n rhoi cyffuriau ar bresgripsiwn. Nododd BMA Cymru yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor:

“We are concerned about the experience in England where the interpretation of a similar requirement for pharmaceutical needs assessments has led to the withdrawal of dispensing rights for some GP practices, with potentially catastrophic impact on some rural communities if this were to be repeated in Wales”.<sup>351</sup>

407. Rhybuddiodd y Gymdeithas Meddygon Fferyllol na ddylai cyflwyniad asesiadau o anghenion fferyllol fel sail ar gyfer cael lle ar restrau fferyllol ddadsefydlogi darpariaeth practisau meddygon sy'n rhoi cyffuriau ar bresgripsiwn a gwasanaethau meddygon teulu mewn rhannau anghysbell a gwledig o Gymru:

“The proposals must not discriminate against the provision of pharmaceutical services by dispensing practices. Practices dispense in remote and rural areas where a community pharmacy is not economically viable. The Cost of Service Inquiry into dispensing practices, published in 2010, demonstrates that dispensing income subsidises the provision of primary medical services in rural practice. It would be most unfortunate for rural communities if the advent of PNAs caused the closure of rural general practices”.<sup>352</sup>

408. Dywedodd BMA Cymru y byddai'n croesawu penderfyniad i beidio â chynnwys ardaloedd a reolir<sup>353</sup> yn narpariaethau'r Bil fel nad yw meddygfeydd teulu a gwasanaethau meddygol cyffredinol mewn ardaloedd gwledig yn cael eu heffeithio'n andwyol.<sup>354</sup> Os na fyddant yn cael eu heithrio'n gyfan gwbl, dywedodd y dylid ystyried gwasanaethau meddygol cyffredinol sydd o natur debyg i wasanaethau fferyllol ychwanegol, o leiaf, yn rhan o unrhyw asesiad o anghenion fferyllol, ac y dylai pob asesiad o anghenion fferyllol gynnwys asesiad o'r risg i ddarpariaeth bresennol gwasanaethau meddygol cyffredinol yn sgil unrhyw gymeradwyaeth newydd i ddarparu gwasanaethau fferyllol:

---

<sup>351</sup> PHB 76 BMA Cymru

<sup>352</sup> PHB 20 Gymdeithas Meddygon Fferyllol

<sup>353</sup> Ardal a neilltuwyd yn un â 'chymeriad gwledig' yw ardal a reolir fel y gall meddygon, mewn amgylchiadau penodol, ddarparu gwasanaethau fferyllol i rai o'u cleifion cymwys (os yw'r meddygon hynny wedi'u cynnwys ar restr meddygon sy'n rhoi cyffuriau ar bresgripsiwn).

<sup>354</sup> Cofnod y Trafodion [paragraffau 72-77], 17 Medi 2015

“It must be recognised that the proposals relating to pharmaceutical services in the Bill have the potential to seriously undermine public health in Wales if (as they have in England) they negatively impact on the provision of GMS GP services in rural areas and lead to the closure of existing GP practices.”<sup>355</sup>

409. Nododd y Gweinidog yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor ei fod yn cydnabod pryderon meddygon sy'n rhoi cyffuriau ar bresgripsiwn. Cydnabuwyd ganddo hefyd bod angen dysgu gwersi o brofiadau Lloegr o asesiadau o anghenion fferyllol a rhai o'u canlyniadau anfwriadol. Aeth yn ei flaen i nodi:

“I’ve done two things to try and meet the genuine concerns that you’ve identified. First of all, I’ve made it clear that we wish to invite GPC [General Practitioners Committee] Wales onto the group that will design the detail of how pharmaceutical needs assessments will be conducted in Wales. So, they will have a seat at the table to make sure that those concerns are actively attended to, and I’ve made it clear to GPC Wales—and I’m very happy to put it on the record again this morning—that I expect pharmaceutical needs assessments to reflect consideration of the contribution of all providers in addressing local health needs. In other words, the contribution of dispensing doctors will be explicitly recognised as part of the pharmaceutical needs assessment and not left to the end, where they could be a casualty of the wider strategy.”<sup>356</sup>

### ***Amserlenni***

410. Pwysleisiodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a'r Gymdeithas Cwmnïau Fferyllol yr angen i fod yn eglur am yr amserlenni y dylid gwneud penderfyniadau'n ymwneud â gwasanaethau fferyllol yn unol â hwy.<sup>357</sup>

411. Wrth ateb cwestiwn am sut y byddai'r Bil yn mynd i'r afael â'r amser y gall ei gymryd i wneud penderfyniad am gais newydd ar gyfer fferyllfa, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

“The current system, I think, too often leads to conflicting and contested relationships between potential new entrants and the local health board, with protracted legal disputes between the two. My ambition is that with a new, planned approach of this sort it will be much clearer to everybody what it is that the health board is looking

---

<sup>355</sup> PHB 76 BMA Cymru

<sup>356</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 31], 21 Hydref 2015

<sup>357</sup> PHB 44 Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a PHB 38 Y Gymdeithas Cwmnïau Fferyllol

to support, that it will be able to identify the potential suppliers of those services, work positively with them, and that we will see fewer of those disputatious instances, and that there will be a swifter way of making sure that we can maximise the contribution of community pharmacy.”<sup>358</sup>

412. Pan ofynnwyd iddo am adroddiadau ynglŷn ag oedi cyn asesu cais i adleoli fferyllfa, cytunodd y Gweinidog i edrych ar amserlenni a dywedodd:

“I think the Bill will address that very directly, actually, because the problem with the current arrangement is that the grounds on which the local health board is able to agree something are so narrow that they end up having to find ways round it [...] This will be a much more straightforward way for the local health board to be able to say, ‘That outlet is meeting a pharmaceutical need in that community’. Geography is not the issue.”<sup>359</sup>

### ***Hysbysiadau diffyg cydymffurfiad***

413. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i hysbysiadau diffyg cydymffurfiad gael eu cyflwyno. Pwysleisiodd Pwyllgor Fferyllol Cymru bwysigrwydd:

- Ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd wneud ymdrechion rhesymol i weithio gyda pherchennog y fferyllfa i ddatrys problemau cyn cyflwyno hysbysiad;
- sicrhau bod Byrddau Iechyd yn troi at hysbysiadau diffyg cydymffurfiad fel dewis olaf yn unig;
- sefydlu proses apel ar gyfer unrhyw berchennog sy'n credu bod hysbysiad wedi ei gyflwyno'n annheg.<sup>360</sup>

414. Amlygodd Celesio UK a Lloyds Pharmacy y dylai Byrddau Iechyd gymryd dylanwad ffactorau allanol a allai arwaith at ddiffyg cydymffurfiad i ystyriaeth, gan gynnwys:

- marchnata a chomisiynu anghyson gan y Byrddau Iechyd eu hunain;
- ymgysylltiad gwael â gweithwyr proffesiynol eraill o ran darparu, cyfeirio ac eirioli gwasanaethau;
- diffyg mynediad at hyfforddiant gofynnol i fferyllwyr a staff fferyllfeydd;

---

<sup>358</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 60], 1 Gorffennaf 2015

<sup>359</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 63], 1 Gorffennaf 2015

<sup>360</sup> PHB 27 Pwyllgor Fferyllol Cymru

– diffyg ffioedd priodol ar gyfer darparu gwasanaethau.<sup>361</sup>

415. Roedd Pwyllgor Fferyllol Cymru a'r Gymdeithas Cwmnïau Fferyllol hefyd yn dadlau na ddylid cosbi fferyllwyr a oedd yn dewis peidio â darparu gwasanaethau penodol, er enghraifft dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys, ar sail gwrthwynebiad cydwybodol.<sup>362</sup> Fodd bynnag, roedd y Gymdeithas Cwmnïau Fferyllol yn cefnogi gallu'r Bwrdd Iechyd i dynnu darparwr oddi ar ei restr fferyllol pe bai'r darparwr hwnnw'n methu â chynnig gwasanaethau a nodir yn yr asesiad o anghenion fferyllol yn gyson.<sup>363</sup>

416. Meddai'r Gweinidog wrth y Pwyllgor:

“The new rule book will allow them [Health Boards], first of all, to go to the existing provider and see whether they are prepared to add to the range of services that they provide and if they are not in a position to do that, to allow new entrants and even to canvass for new entrants to come in to provide that wider range of pharmaceutical services to meet the needs of the local population.”<sup>364</sup>

417. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y byddai'r drefn adael y darperir ar ei chyfer yn y Bil yn galluogi camau graddedig i gael eu cymryd i ymdrin â'r darparwyr hynny sy'n methu â bodloni ymrwymïadau eu telerau gwasanaeth. Mae'n nodi y byddai gan Weinidogion Cymru'r pŵer i nodi mewn rheoliadau y sail neu'r amgylchiadau lle gall Bwrdd Iechyd dynnu fferylllydd neu safle oddi ar restr fferyllol, ac y byddai y rheoliadau hyn yn nodi:

- y bydd Bwrdd Iechyd yn gallu tynnu fferyllfa neu safle oddi ar y rhestr fferyllol mewn achosion pan fo ateb lleol wedi methu a phan fo fferylllydd wedi methu â chydymffurfio â'r hysbysiadau a gyflwynwyd yn nodi pa gamau sy'n angenrheidiol;
- ei bod yn ddyletswydd ar Fwrdd Iechyd i hysbysu fferylllydd am ei fwriad i'w dynnu oddi ar ei restr a'r rheswm am y bwriad hwnnw, cyn gwneud penderfyniad i dynnu fferylllydd oddi ar y rhestr;
- y rhoddir yr hawl i fferylllydd wneud sylwadau i'r Bwrdd Iechyd cyn gwneud penderfyniad;

---

<sup>361</sup> PHB 85 Celesio UK a Lloyds Pharmacy

<sup>362</sup> PHB 27 Pwyllgor Fferyllol Cymru a PHB 38 Y Gymdeithas Cwmnïau Fferyllol

<sup>363</sup> PHB 38 Y Gymdeithas Cwmnïau Fferyllol

<sup>364</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 50], 1 Gorffennaf 2015

- hawl i apelio i Weinidogion Cymru yn erbyn penderfyniad Bwrdd Iechyd i dynnu fferylllydd neu safle oddi ar restr fferyllol.<sup>365</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

418. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r pryderon a godwyd gan rai tystion am yr effaith y gallai'r darpariaethau yn y Rhan hon o'r Bil ei chael ar feddygon sy'n rhoi cyffuriau ar bresgripsiwn. Mae hefyd yn croesawu sicrwydd y Gweinidog ei fod wedi ceisio mynd i'r afael â'r pryderon hynny trwy:

- wahodd Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru i gymryd rhan yn y grŵp a fydd yn cynllunio sut y bydd asesiadau o anghenion fferyllol yn cael eu cynnal yng Nghymru;
- ei gwneud yn eglur ei fod yn disgwyl i gyfraniad meddygon sy'n rhoi cyffuriau ar bresgripsiwn gael ei gydnabod yn eglur yn rhan o'r broses asesu.

**Argymhelliad 12: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, wrth wneud rheoliadau'n ymwneud ag asesiadau o anghenion fferyllol o dan adran 89 o'r Bil, yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd roi ystyriaeth i'r effaith y gallai unrhyw asesiad o'r fath ei chael ar wasanaethau meddygon teulu yn yr ardal leol.**

419. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil i ganiatáu mynediad i ddarparwyr newydd pan nodir bylchau yn narpariaeth y gwasanaethau. Mae hefyd yn croesawu'r trefniadau newydd sy'n galluogi Byrddau Iechyd i dynnu oddi ar y rhestr fferyllol y darparwyr hynny sy'n methu â bodloni ymrwymadau eu telerau gwasanaeth. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r angen a amlygwyd gan rai rhanddeiliaid i gymryd ffactorau a allai effeithio ar allu darparwr i ddarparu gwasanaeth i ystyriaeth.

420. Mae'r Pwyllgor yn croesawu sicrwydd y Gweinidog y dylai'r darpariaethau ar wyneb y Bil wella'r oedi sy'n gysylltiedig â phenderfynu ar geisiadau i ymuno â'r rhestr a rhoi caniatâd neu wrthod adleoliad yn yr un ardal.

**Argymhelliad 13: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, wrth wneud rheoliadau a chanllawiau o dan Ran 5 o'r Bil (Gwasanaethau Fferyllol), yn gwneud proses symlach yn ofynnol ar gyfer adleoli fferyllfa mewn ardal. Dylai rheoliadau neu ganllawiau o'r fath hefyd nodi amserlenni penodedig ar gyfer gwneud penderfyniadau ar bob cais, gan gynnwys adleoliadau.**

---

<sup>365</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraffau 182 a 183

## Gwasanaethau Cymraeg

421. Roedd y Coleg Nyrsio Brenhinol yn cefnogi'r awgrymiadau yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb y dylai'r trefniadau cynllunio ar gyfer asesu'r angen am wasanaethau fferyllol gynnwys ystyriaeth o wasanaethau Cymraeg.<sup>366</sup>

422. Fodd bynnag, cododd Comisiynydd y Gymraeg ei phryderon nad yw'r Bil na'r dogfennau sy'n ategu'r Bil yn esbonio'r berthynas rhwng darpariaethau Rhan 5 y Bil a'r mesurau sydd ar waith ar gyfer gwella gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Nododd y Comisiynydd nad oedd unrhyw esboniad o sut y byddai Rhan 5 y Bil yn cefnogi darpariaeth gwasanaethau fferyllol Cymraeg, a gofynnodd y cwestiynau canlynol:

- A oes potensial i asesiadau o anghenion fferyllol gynnwys asesiad o addasrwydd y ddarpariaeth Gymraeg mewn fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru?
- Sut dylai Byrddau Iechyd gymryd y Gymraeg i ystyriaeth pan fyddant yn cynnal yr asesiadau hynny?
- Sut dylai canfyddiadau'r asesiadau hynny gael eu hystyried wrth gynllunio gwasanaethau Cymraeg ar gyfer y dyfodol?
- A ddylai'r gallu i wneud darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg fod yn un o'r meini prawf ar gyfer y prawf mynediad a reolir y bydd yn ofynnol i'r BILlau eu cynnal wrth ystyried ceisiadau i ymuno â'u rhestrau fferyllol?
- A allai fferylllydd cymunedol beryglu ei gymhwysedd i gael ei gynnwys ar restr fferyllol pe bai'n methu â darparu gwasanaethau Cymraeg?<sup>367</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

423. Mae'r Pwyllgor yn nodi pryderon Comisiynydd y Gymraeg am y graddau y rhoddwyd ystyriaeth i'r cyfleoedd i Ran 5 y Bil gefnogi'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau fferyllol Cymraeg.

**Argymhelliad 14: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei gwneud yn eglur sut y mae'n bwriadu rhoi sylw i bryderon Comisiynydd y Gymraeg o ran Rhan 5 o'r Bil (Gwasanaethau Fferyllol).**

---

<sup>366</sup> PHB 35 Y Coleg Nyrsio Brenhinol

<sup>367</sup> PHB 34 Comisiynydd y Gymraeg

## Goblygiadau ariannol

424. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod darpariaethau Rhan 5 y Bil yn creu costau ychwanegol o £1.3 miliwn i Fyrddau Iechyd rhwng 2016-17 a 2020-21, a £220,000 i gontractwyr fferyllol.<sup>368</sup> Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, bydd y rhain yn cael eu gorbwyso gan y buddion iechyd ac amser teithio gwerth £9.4 miliwn i'r cyhoedd. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn arbed swm bach o £76,000 gan y bydd yn wynebu costau is o ran apeliadau gan fferyllfeydd i Weinidogion Cymru, ac mae'n nodi y bydd hynny'n gwneud iawn am gostau cynhyrchu canllawiau.<sup>369</sup>

425. Ychydig o'r rhai a ymatebodd i ymgynghoriad y Pwyllgor wnaeth sylwadau ar oblygiadau ariannol y Bil. Amlygodd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yr angen i ddeall a rhoi sylw i oblygiadau adnoddau asesiadau o anghenion fferyllol cyn eu cyflwyno. Amlygodd Pwyllgor Fferyllol Cymru yr hyn y cyfeiriodd atynt fel costau sylweddol sy'n gysylltiedig â chynnal asesiadau o anghenion fferyllol o ansawdd uchel a'u hadolygu'n briodol, gan argymhell mai integreiddio asesiadau o anghenion fferyllol gydag asesiadau eraill o anghenion fyddai'r ffordd fwyaf gost-effeithiol o fwrw ymlaen â hyn.<sup>370</sup>

426. Wrth roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru nad oedd yn rhagweld y byddai'n feichus i Fyrddau Iechyd ddatblygu a rheoleiddio asesiadau o anghenion fferyllol gan y byddai'n rhan o raglen ehangach, er nad oedd wedi cyfrifo'r effaith.<sup>371</sup>

## ***Barn y Pwyllgor***

427. Mae'r Pwyllgor yn nodi argymhelliad y Pwyllgor Cyllid y dylai'r Gweinidog ddarparu:

- rhagor o fanylion am y gwaith a wnaed i amcangyfrif buddion ariannol y darpariaethau a amlinellir yn Rhan 5 y Bil;
- amlinelliad o unrhyw waith blaenorol a wnaed yn y maes hwn i hysbysu'r cyfrifiadau hyn.<sup>372</sup>

---

<sup>368</sup> Memorandwm Esboniadol, tudalen 302

<sup>369</sup> Memorandwm Esboniadol, tudalennau 221-223

<sup>370</sup> PHB 27 Pwyllgor Fferyllol Cymru

<sup>371</sup> Cofnod y Trafodion [paragraffau 163-164], 9 Gorffennaf 2015

<sup>372</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, [\*Adroddiad ar Fil Iechyd y Cyhoedd \(Cymru\)\*](#), Medi 2015

## 9. Rhan 6 – Darparu toiledau

---

428. Nod Rhan 6 y Bil yw gwella'r broses o gynllunio a darparu toiledau cyhoeddus.

429. Mae'r Bil yn ceisio gwneud hyn trwy ei gwneud yn ddyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i baratoi a chyhoeddi strategaeth toiledau lleol ar gyfer ei ardal yn seiliedig ar anghenion ei gymuned.<sup>373</sup> Byddai hyn yn cynnwys yr angen am gyfleusterau newid cewynnau babanod ac ar gyfer pobl anabl.

430. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cydnabod manteision iechyd ac economaidd sicrhau darpariaeth ddigonol o doiledau cyhoeddus ac yn cyfeirio at waith a wnaed mewn mannau eraill i ddatblygu strategaethau i fynd i'r afael â'r mater.<sup>374</sup>

### Pwysigrwydd toiledau cyhoeddus

431. Amlygodd mwyafrif y rhanddeiliaid hynny a gyflwynodd dystiolaeth ar y Rhan hon bwysigrwydd sicrhau darpariaeth ddigonol o doiledau cyhoeddus. Dywedodd Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd bod toiledau cyhoeddus yn hanfodol i iechyd cyhoeddus da yng Nghymru<sup>375</sup> ac nad cyfleustra cyhoeddus mohonynt, ond angenrheidrwydd i iechyd y cyhoedd.<sup>376</sup>

432. Roedd dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau darpariaeth ddigonol o doiledau cyhoeddus i bawb ond yn amlygu'r effaith fwy y gallai darpariaeth annigonol ei chael ar grwpiau penodol.<sup>377</sup> Cafodd y grwpiau canlynol eu crybwyll fel rhai sydd mewn perygl o gael eu heffeithio'n anghymesur:

---

<sup>373</sup> Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru), adran 91

<sup>374</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 198

<sup>375</sup> PHB 01 Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd

<sup>376</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 15], 15 Gorffennaf 2015

<sup>377</sup> PHB 01 Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, PHB 02 Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd ar ran Byrddau Iechyd yng Nghymru, PHB 03 Iechyd Cyhoeddus Cymru, PHB 05 Conffederasiwn GIG Cymru, PHB 12 Cyngor Cymuned Llansteffan a Llan-y-bri, PHB 21 Panel Arbenigwyr Clefydau Trosglwyddadwy Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru, PHB 27 Pwyllgor Fferyllol Cymru, PHB 30 Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, PHB 31 Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru, PHB 32 Y Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, PHB 42 Age Cymru, PHB 44 Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, PHB 47 Cyngor Caerffili, PHB 52 Cyngor Trydydd Sector Caerdydd (gyda mewnbyn gan GVS), PHB 53 Cymdeithas Toiledau Prydain, PHB 55 Y Fforwm Ymataliaeth Pediatrig, PHB 58 Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, PHB 64 Truckers Toilets UK, PHB 69 Sefydliad Bevan, PHB 78 Cymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, PHB 80 Prifysgol De Cymru – Yr Ysgol Gwyddorau Bywyd ac Addysg, PHB 83 Cymdeithas y Fasnach Wroleg, PHB 84 Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, PHB 92 Cyngor Sir Powys, PHB 93 Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, PHB 96 Gofal Canser Tenovus a PHB 99 Cymdeithas y DU ar gyfer Crohn's a Cholitis

- pobl ag anabledd;
- rhieni â babanod a phlant ifanc;
- menywod beichiog;
- pobl hŷn;
- y rheini â chyflyrau penodol gan gynnwys anymataliaeth, clefyd llid y coluddyn, syndrom coluddyn llidus a sglerosis ymledol; a
- phobl y rhoddwyd cyffuriau diwretig iddynt ar bresgripsiwn.<sup>378</sup>

### **Paratoi a chyhoeddi strategaethau toiledau lleol**

433. Mae Adran 91 y Bil yn nodi bod rhaid i bob strategaeth gynnwys:

- asesiad o'r angen am doiledau; a
- datganiad yn amlinellu sut y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu diwallu'r angen.

434. Nod yr adran hon hefyd yw sicrhau bod strategaethau'n parhau i fod yn hyblyg ac y gellir eu diwygio i ddiwallu anghenion poblogaeth sy'n newid, trwy ei gwneud yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i adolygu eu strategaethau o fewn blwyddyn yn dilyn etholiad llywodraeth leol.

435. Roedd llawer o randdeiliaid, gan gynnwys 36.5 y cant o'r rhai a ymatebodd i arolwg cyhoeddus y Pwyllgor, yn cefnogi'r darpariaethau yn y Bil i awdurdodau lleol baratoi strategaethau toiledau lleol.<sup>379</sup> Meddai Cymdeithas Toiledau Prydain yn ei thystiolaeth ysgrifenedig:

“The preparation of a toilet provision strategy can only have extremely beneficial outcomes in focussing attention onto this vital

<sup>378</sup> PHB 32 Y Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, PHB 84 Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol a PHB 27 Pwyllgor Fferyllol Cymru

<sup>379</sup> PHB 01 Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, PHB 02 Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd ar ran Byrddau Iechyd yng Nghymru, PHB 03 Iechyd Cyhoeddus Cymru, PHB 05 Conffederasiwn GIG Cymru, PHB 12 Cyngor Cymuned Llansteffan a Llan-y-bri, PHB 21 Panel Arbenigwyr Clefydau Trosglwyddadwy Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru, PHB 27 Pwyllgor Fferyllol Cymru, PHB 30 Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, PHB 31 Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru, PHB 32 Y Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, PHB 42 Age Cymru, PHB 44 Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, PHB 47 Cyngor Caerffili, PHB 52 Cyngor Trydydd Sector Caerdydd (gyda mewnbwn gan GVS), PHB 53 Cymdeithas Toiledau Prydain, PHB 55 Y Fforwm Ymataliaeth Pediatrig, PHB 58 Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, PHB 64 Truckers Toilets UK, PHB 69 Sefydliad Bevan, PHB 78 Cymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, PHB 80 Prifysgol De Cymru – Yr Ysgol Gwyddorau Bywyd ac Addysg, PHB 83 Cymdeithas y Fasnach Wroleg, PHB 84 Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, PHB 92 Cyngor Sir Powys, PHB 93 Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, PHB 96 Gofal Canser Tenovus, PHB 99 Cymdeithas y DU ar gyfer Crohn's a Cholitis a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ac Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, [Crynodeb o ganlyniadau'r arolwg cyhoeddus](#), Medi 2015

provision for so many independent users. With improved management and a clearer understanding of the needs of residents and visitors, must come higher standards of health and hygiene.”<sup>380</sup>

436. Mynegodd y Coleg Nyrsio Brenhinol gefnogaeth i ddatblygu strategaethau toiledau lleol, a phwysleisiodd y dylai'r strategaethau amlygu pwysigrwydd y gwasanaethau hyn a'u buddion i'r gymuned:

“Without a published strategy there is a real danger that the significance of public toilets will not be considered and they will [be] closed down piecemeal without any consideration of the impact”.<sup>381</sup>

437. Cwestiynodd Naomi Alleyne, yn cynrychioli Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a oedd angen dyletswydd i baratoi a chyhoeddi strategaeth. Fodd bynnag, cydnabuwyd ganddi nad oedd y pwerau presennol wedi cynnig darpariaeth ddigonol o doiledau cyhoeddus.<sup>382</sup>

438. Mynegodd Dr Jane Fenton-May, yn cynrychioli Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, bryder y byddai rhai awdurdodau lleol yn dod i'r casgliad y byddai meddu ar doiled cyhoeddus yn diwallu anghenion cymuned, ac y byddai eu strategaethau yn methu â chydabod pwysigrwydd ystyried materion ehangach fel hygyrchedd a glendid y cyfleusterau hynny. Galwodd iddi gael ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fabwysiadu dull cadarn o asesu'r anghenion ehangach hyn wrth ddatblygu eu strategaethau.<sup>383</sup>

439. Dywedodd Age Cymru bod y rhwydwaith toiledau cyhoeddus yng Nghymru mewn perygl oherwydd pwysau ariannol ac na fyddai'r ddyletswydd yn y Bil o reidrwydd yn arwain at gynnydd yn y ddarpariaeth.<sup>384</sup> Dywedodd Cyngor Cymuned Llansteffan a Llan-y-bri na fyddai'r dull a amlinellir yn y Bil ond yn gwneud cyfraniad bach at wella'r ddarpariaeth. Dadleuodd fod strategaethau'r rhan fwyaf o cyngor yn tueddu i gasglu llwch ar silffoedd ac nad ydynt ond yn ymarfer ticior blychau.<sup>385</sup> Roedd nifer o'r rhai a ymatebodd i arolwg y Pwyllgor o'r farn y dylid cryfhau'r Bil i gyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu cyfleusterau toiledau cyhoeddus.<sup>386</sup>

---

<sup>380</sup> PHB 53 Cymdeithas Toiledau Prydain

<sup>381</sup> PHB 35 Y Coleg Nyrsio Brenhinol

<sup>382</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 138], 15 Gorffennaf 2015

<sup>383</sup> Cofnod y Trafodion [paragraffau 62–65], 17 Medi 2015

<sup>384</sup> PHB 42 Age Cymru

<sup>385</sup> PHB 12 Cyngor Cymuned Llansteffan a Llan-y-bri

<sup>386</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, [Crynodeb o ganlyniadau'r arolwg cyhoeddus](#), Medi 2015

440. Cododd Sefydliad Bevan bryderon mai'r cwbl y byddai'r ddyletswydd i baratoi a chyhoeddi strategaeth yn ei wneud fyddai creu mwy o waith papur i bob awdurdod lleol heb gynyddu nifer y toiledau cyhoeddus. Galwodd i'r Bil gyflwyno gofyniad uniongyrchol ar gyrff cyhoeddus a phreifat i ddarparu a chynnal toiledau cyhoeddus mewn mannau sy'n agored i'r cyhoedd, fel canolfannau siopa, gorsafoedd bysiau, lleoliadau chwaraeon a chanol trefi.<sup>387</sup>

### ***Monitro'r cynllun***

441. Nid yw'r Bil yn darparu dull ffurfiol ar gyfer mesur pa mor effeithiol fyddai rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i baratoi a chyhoeddi strategaeth toiledau lleol.

442. Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Fforwm Ymataliaeth Pediatrig o'r farn y gellid gwneud mwy i gryfhau trefniadau monitro fel y byddai strategaethau'n cynnwys canlyniad mesuradwy penodol.<sup>388</sup> Dywedodd Dr Julie Bishop, yn cynrychioli Iechyd Cyhoeddus Cymru, wrth y Pwyllgor:

"Writing a strategy doesn't in and of itself bring about change, and so the critical issue here is that the strategy actually has some requirement, perhaps, to monitor that there is actually genuine improved access, or adequate access, as a result of that. So, we would certainly be supportive of strengthening the proposals in any way that would make that more likely to happen."<sup>389</sup>

443. Gan ymateb i'r galwadau i ddatblygiadau gael eu monitro, dywedodd y gweinidog wrth y Pwyllgor:

"We align the production of the strategy with the cycle of local authority elections and, if, in the end, a local authority hasn't done what it ought to do to implement the strategy that it itself will have drawn up in consultation with its local population, then people will have the ability to pass their verdict on that at the ballot box."<sup>390</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

444. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cynigion i gyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol i baratoi a chyhoeddi strategaethau toiledau lleol ar gyfer eu hardaloedd ond yn cydnabod y pryderon dilys a godwyd gan randdeiliaid

---

<sup>387</sup> PHB 69 Sefydliad Bevan

<sup>388</sup> PHB 55 Y Fforwm Ymataliaeth Pediatrig a Chofnod y Trafodion [paragraff 24], 9 Gorffennaf 2015

<sup>389</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 24], 9 Gorffennaf 2015

<sup>390</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 15], 21 Hydref 2015

am ddiffyg dyletswydd benodol ar awdurdodau lleol i'w rhoi ar waith. Er y byddai'r Pwyllgor wedi croesawu darpariaeth yn y Bil i gyflwyno dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu toiledau cyhoeddus, mae'n cydnabod bod y pwysau ariannol sy'n wynebu llywodraeth leol yn golygu nad yw'n realistig ar hyn o bryd cyflawni unrhyw ddyletswydd o'r fath.

445. Mae'r Pwyllgor yn credu y bydd yn hanfodol monitro'r strategaethau'n briodol er mwyn asesu a ydynt wedi darparu gwell mynediad at doiledau cyhoeddus ledled Cymru. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai'r Bil gynnwys darpariaeth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gyhoeddi adroddiad ar gynnydd yn nodi i ba raddau y mae wedi diwallu'r anghenion a nodwyd yn ei strategaeth. Nid yw'r Pwyllgor yn cytuno â'r Gweinidog bod alinio cyhoeddiad strategaethau â chylchoedd etholiadol yn ddull digon cadarn ar gyfer mesur gweithrediad a llwyddiant y cynlluniau.

**Argymhelliad 15: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn diwygio'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi adroddiad cynnydd yn gyfnodol ar ddarpariaeth toiledau cyhoeddus, yn nodi sut y mae anghenion cymunedau'n cael eu diwallu.**

### **Cynllunio**

446. Codwyd pryderon o ran sicrhau bod toiledau cyhoeddus:

- wedi'u lleoli mewn lleoliadau cyfleus;
- yn hygyrch;
- wedi'u dosbarthu'n gyfartal, gan gymryd i ystyriaeth yr angen am ddarpariaeth ddigonol i'r rhai sy'n byw mewn ardal a'r rhai sy'n teithio drwyddi.

447. Rhybuddiodd Cymdeithas y DU ar gyfer Crohn's a Cholitis yn erbyn clystyru toiledau cyhoeddus mewn mannau twristiaeth poblogaidd. Galwyd ganddynt am ofyniad yn y Bil i gynyddu darpariaeth toiledau cyhoeddus ar draws pob ardal, a pheidio â'u cyfyngu i un safle mewn tref. Galwyd ganddynt hefyd i'r Bil ei gwneud yn ofynnol i ddarparu mwy nag un toiled ar unrhyw un safle er mwyn osgoi problemau pan fydd cyfleusterau wedi torri neu'n cael eu defnyddio.<sup>391</sup>

448. Nododd Cyngor Trydydd Sector Caerdydd y dylai ystyriaeth o ddarpariaeth toiledau cyhoeddus fod yn ofyniad ym mhob cais cynllunio (ac

---

<sup>391</sup> PHB 99 Cymdeithas y DU ar gyfer Crohn's a Cholitis

eithrio'r rhai'n ymwneud ag addasiadau unigol i gartrefi). Awgrymodd fod hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau darpariaeth ddigonol o doiledau cyhoeddus ac i sicrhau bod pobl yn teimlo'n hyderus i adael eu cartrefi.<sup>392</sup>

449. Dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth y Pwyllgor y byddai'n croesawu gofyniad i gynnal asesiadau o'r effaith ar iechyd pan fydd newidiadau i'r gwasanaethau a ddarperir a phenderfyniadau polisi yn cael eu gwneud, er mwyn mesur effaith unrhyw newidiadau i ddarpariaeth toiledau cyhoeddus mewn ardal.<sup>393</sup> Dywedodd hefyd y dylid rhoi ystyriaeth benodol i anghenion ymwelwyr ag ardal:

"It is essential that toilet provision should be adequate at transport hubs and in city centres where local communities will be a minority of potential users."<sup>394</sup>

450. Wrth ymateb i gwestiynau am Lywodraeth Cymru yn cymryd cyfrifoldeb strategol am oruchwylio lleoliad toiledau cyhoeddus – er enghraifft yr angen i leoli cyfleusterau yn agos at gefnffyrdd – cyfeiriodd y Gweinidog at y cyllid a ddarparwyd gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar gyfer toiledau cyhoeddus ger yr A470 yn Rhaeadr a Llanfair-ym-Muallt.<sup>395</sup> Fodd bynnag, nododd ei bod yn well i ddyletswyddau'n ymwneud â thoiledau cyhoeddus gael eu cyflawni ar y lefel leol yn y mwyafrif o sefyllfaoedd ac nad oedd achos wedi cael ei wneud dros symud cyfrifoldeb cyffredinol i fyny i lefel genedlaethol.<sup>396</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

451. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y pryderon a godwyd gan randdeiliaid am yr angen i doiledau cyhoeddus gael eu lleoli'n gyfleus i drigolion lleol a'r rhai sy'n teithio drwy'r ardal. Mae'n credu y bydd angen dull cydgysylltiedig rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol er mwyn sicrhau darpariaeth ddigonol o doiledau cyhoeddus i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw mewn ardal a'r rhai sy'n ymweld. Mae'r Pwyllgor yn credu bod hyn yn bwysig er mwyn galluogi unigolion i adael eu cartrefi heb ofni na fyddant yn gallu dod o hyd i gyfleuster.

**Argymhelliad 16: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn diwygio'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i**

---

<sup>392</sup> PHB 52 Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

<sup>393</sup> PHB 03 Iechyd Cyhoeddus Cymru

<sup>394</sup> PHB 03 Iechyd Cyhoeddus Cymru

<sup>395</sup> Cofnod y Trafodion [paragraffau 41 a 42], 1 Gorffennaf 2015

<sup>396</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 21], 21 Hydref 2015

**awdurdodau lleol ystyried dosbarthiad priodol cyfleusterau, a'r graddau y maent ar gael trwy gydol yr wythnos, wrth ddatblygu eu strategaethau fel bod toiledau cyhoeddus ar gael i bobl mewn ardaloedd trefol a gwledig, mannau twristiaeth poblogaidd ac yng nghyffiniau cefnffyrdd pryd bynnag a lle bynnag y mae eu hangen.**

452. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r Gweinidog ei bod yn briodol i awdurdodau lleol fod yn gyfrifol am y strategaethau lleol. Serch hynny, mae hefyd o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyfeiriad er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth ddigonol i anghenion cenedlaethol, fel lleoli cyfleusterau yn agos at gefnffyrdd mawr neu safleoedd ymwelwyr, a'u bod yn cael eu cydgysylltu'n effeithiol.

**Argymhelliad 17: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn diwygio'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru fonitro i ba raddau y mae strategaethau toiledau lleol yn diwallu anghenion cenedlaethol, er mwyn osgoi'r perygl o ddarpariaeth wael ar safleoedd cenedlaethol ac ar brif goridorau trafnidiaeth.**

### **Cyflwyno canllawiau**

453. Mae Adran 91 y Bil yn nodi y gall Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau y dylid eu hystyried wrth baratoi strategaeth gychwynnol, wrth gynnal adolygiad o'r strategaeth neu wrth gyhoeddi'r strategaeth.

454. Roedd mwyafrif y rhanddeiliaid, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru,<sup>397</sup> yn cefnogi'r darpariaethau yn y Bil sy'n galluogi Llywodraeth Cymru i gyflwyno canllawiau ar sut y mae awdurdodau lleol yn datblygu eu strategaethau ac roedd yn croesawu'r syniad o ddatblygu templed.<sup>398</sup> Nodwyd mai prif fantais hyn fyddai dull mwy cyson o ddatblygu strategaethau ar draws awdurdodau lleol.

455. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'r canllawiau'n cynnwys templed y gellid ei addasu i ddiwallu anghenion yr ardal:

---

<sup>397</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 158], 15 Gorffennaf 2015

<sup>398</sup> PHB 03 Iechyd Cyhoeddus Cymru, PHB 12 Cyngor Cymuned Llansteffan a Llan-y-bri, PHB 21 Panel Arbenigwyr Clefydau Trosglwyddadwy Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru, PHB 31 Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru, PHB 35 Y Coleg Nyrsio Brenhinol, PHB 42 Age Cymru, PHB 47 Cyngor Caerffili, PHB 53 Cymdeithas Toiledau Prydain, PHB 55 Y Fforwm Ymataliaeth Pediatrig, PHB 63 Un Llais Cymru, PHB 64 Truckers Toilets UK, PHB 84 Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, PHB 89 Iechyd Cyhoeddus Cymru, PHB 92 Cyngor Sir Powys a PHB 93 Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

“In this particular regard, I think we have to recognise that the needs of different parts of Wales will be very different. This is an area where local authorities will need to devise a scheme that meets the particular geographical and other characteristics of their areas. But we will provide a template so that it will be possible to compare the way that local authorities in different parts of Wales have gone about discharging the duty that will be placed on them.”<sup>399</sup>

## **Ymgysylltu â chymunedau**

456. Mae Adran 92 y Bil yn cyflwyno dyletswydd i awdurdodau lleol:

- ymgynghori ag unrhyw barti â buddiant cyn cyhoeddi strategaeth toiledau lleol; a
- rhannu’r strategaethau drafft gyda phartïon â buddiant.

457. Roedd rhai rhanddeiliaid yn credu y dylid cryfhau darpariaethau’n ymwneud â chynigion ymgysylltu cymunedol. Nododd y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful fod y darpariaethau’n rhy amwys i fod yn ystyrlon<sup>400</sup> a nododd Truckers Toilets UK bryder nad oes unrhyw sicrwydd y bydd safbwyntiau’n cael ystyriaeth.<sup>401</sup>

458. Dywedodd Truckers Toilets UK y byddai’n croesawu diffiniad eglur o’r hyn y mae ymgysylltu priodol yn ei olygu, er mwyn:

- sicrhau bod cyn lleied o botensial â phosibl y bydd awdurdodau lleol yn darparu dogfen blwch ticio heb ddigon o le i rhanddeiliaid leisio eu pryderon;
- sicrhau dull cyson ar draws awdurdodau lleol.<sup>402</sup>

459. Amlygodd rhanddeiliaid bwysigrwydd sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o grwpiau yn ystod y broses ymgynghori er mwyn sicrhau yr ystyrir yr holl anghenion penodol wrth ddatblygu strategaeth.<sup>403</sup> Dadleuwyd ganddynt y dylai hyn gynnwys y rhai a allai fod yn ymweld â’r ardal.<sup>404</sup> Meddai Iechyd Cyhoeddus Cymru:

---

<sup>399</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 34], 1 Gorffennaf 2015

<sup>400</sup> PHB 51 Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

<sup>401</sup> PHB 64 Truckers Toilets UK

<sup>402</sup> PHB 64 Truckers Toilets UK

<sup>403</sup> PHB 03 Iechyd Cyhoeddus Cymru, PHB 12 Cyngor Cymuned Llansteffan a Llan-y-bri, PHB 32 Y Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, PHB 35 Y Coleg Nyrsio Brenhinol, PHB 40 Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, PHB 53 Cymdeithas Toiledau Prydain, PHB 55 Y Fforwm Ymataliaeth Pediatrig, PHB 58 Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, PHB 63 Un Llais Cymru, PHB 64 Truckers Toilets UK, PHB 83 Cymdeithas y Fasnach Wroleg, PHB 86 Bwrdd Iechyd

“This should include not only local communities but also, for example, those representing specific age groups, people with disabilities or impairments or those with medical problems. Consultation should also include the needs of homeless people, mobile workers and visitors to the area.”<sup>405</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

460. Mae'r Pwyllgor yn croesawu bwriad y Gweinidog i ddarparu canllawiau i awdurdodau lleol i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu strategaethau effeithiol. Mae'n credu y bydd hyn yn helpu i sicrhau dull mwy cyson o lunio strategaethau ledled Cymru.

461. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r galwadau a wnaed gan rai rhanddeiliaid i'r canllawiau ddarparu gwybodaeth am y broses ymgynghori y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei dilyn, gan gynnwys manylion y mathau o sefydliadau y byddai disgwyl i awdurdodau lleol ymgynghori â hwy a thempled ar gyfer yr ymgynghoriad.

### **Cyfleusterau newid**

462. Amlygodd Dr Gill Richardson, Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, bwysigrwydd cryfhau darpariaethau ar gyfer cyfleusterau newid, er y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â hwy:

“I think there have been campaigns by parents and carers of disabled people, and disabled people themselves, for the Changing Places type of toilets, whereby there are changing beds in toilets. I know that it is difficult for local authorities to maintain these, but I do believe that there is such a value to the community and to the vulnerable members of the community [...] There are many people who are limited in their independence because of having to take into account those sorts of considerations, especially in rural areas.”<sup>406</sup>

463. Dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru bod angen rhoi ystyriaeth i sut y gallai awdurdodau lleol gynnal a chadw'r offer ychwanegol sydd ei angen er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn hygyrch i bawb.<sup>407</sup> Dywedodd

---

Addysgu Powys, PHB 89 Iechyd Cyhoeddus Cymru, PHB 96 Gofal Canser Tenovus a PHB 99 Cymdeithas y DU ar gyfer Crohn's and Cholitis

<sup>404</sup> PHB 12 Cyngor Cymuned Llansteffan a Llan-y-bri a PHB 58 Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

<sup>405</sup> PHB 03 Iechyd Cyhoeddus Cymru

<sup>406</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 141], 9 Gorffennaf 2015

<sup>407</sup> PHB 03 Iechyd Cyhoeddus Cymru

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru y gallai'r Bil fynd ymhellach trwy gyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod toiledau cyhoeddus yn hygyrch i bawb trwy sicrhau bod rhaid iddynt fod yn fannau glân, diogel a hygyrch i bobl hŷn ac eraill, lle ceir rheiliau llaw, rampiau cadair olwyn a chymhorthion golwg a chlyw i'r rhai â phroblemau symud a nam ar y synhwyrau.<sup>408</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

464. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y dystiolaeth a dderbyniwyd am bwysigrwydd sicrhau bod cyfleusterau toiledau cyhoeddus yn diwallu anghenion unigolion sydd angen cyfleusterau newid, lle ychwanegol a/neu angen cymorth addasiadau penodol. Serch hynny, mae'r Pwyllgor yn ymwybodol y gallai'r pwysau ariannol sy'n wynebu awdurdodau lleol gyfyngu ar eu gallu i ddarparu'r cyfleusterau hyn.

### **Lleoliadau a ariennir gan y cyhoedd**

465. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y byddai'r canllawiau y bydd Gweinidogion Cymru yn gallu eu cyflwyno yn cynnwys gwybodaeth am opsiynau ychwanegol ar gyfer cynyddu darpariaeth toiledau cyhoeddus fel sicrhau bod y rhai a leolir mewn mannau sy'n derbyn arian cyhoeddus ar gael.<sup>409</sup>

466. Roedd mwyafrif y rhanddeiliaid<sup>410</sup> yn cefnogi cynnig o'r fath. Fodd bynnag, codwyd pryderon am ddichonoldeb ac ymarferoldeb gwneud toiledau mewn lleoliadau o'r fath ar gael i'r cyhoedd. Cyfeiriodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam at ofnau am ymddygiad gwrthgymdeithasol, defnydd amhriodol o gyfleusterau, y costau sy'n gysylltiedig ag unrhyw waith addasu adeiladau posibl, a gwaith cynnal a chadw ychwanegol fel pethau a allai atal hyn.<sup>411</sup>

467. Holodd y Pwyllgor dystion am y fantais bosibl yn sgil naill ai ailgyflwyno'r Cynllun Grantiau Cyfleusterau Cyhoeddus neu sefydlu cynllun newydd i barhau'r maes gwaith hwn. Amlygodd Cymdeithas Llywodraeth Leol

---

<sup>408</sup> PHB 32 Y Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

<sup>409</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 211

<sup>410</sup> PHB 03 Iechyd Cyhoeddus Cymru, PHB 05 Conffederasiwn GIG Cymru, PHB 12 Cyngor Cymuned Llansteffan a Llan-y-bri, PHB 40 Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, PHB 42 Age Cymru, PHB 47 Cyngor Caerffili, PHB 49 Owain Rowley-Conwy, PHB 52 Cyngor Trydydd Sector Caerdydd (gyda mewnbwn gan GVS), PHB 53 Cymdeithas Toiledau Prydain, PHB 55 Y Fforwm Ymataliaeth Pediatrig, PHB 58 Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, PHB 63 Un Llais Cymru, PHB 64 Truckers Toilets UK, PHB 78 Cymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, PHB 86 Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, PHB 89 Iechyd Cyhoeddus Cymru, PHB 92 Cyngor Sir Powys a PHB 99 Cymdeithas y DU ar gyfer Crohn's a Cholitis

<sup>411</sup> PHB 58 Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Cymru fod y nifer a fanteisiodd ar y cynllun blaenorol yn amrywio ar draws Cymru, ond y gellid mynd i'r afael â hynny trwy gyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo'r dull cydweithredol.<sup>412</sup>

468. Cwestiynodd Julie Barratt, yn cynrychioli Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, a fyddai cymhelliad ariannol i fusnesau ganiatáu i'r cyhoedd ddefnyddio eu cyfleusterau yn ddigon. Awgrymodd y dylid rhoi ystyriaeth i ba un a allai'r Bil fynd ymhellach i gymell busnesau i weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau darpariaeth ddigonol.<sup>413</sup>

469. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod angen gwneud mwy i hyrwyddo cyfleusterau sydd ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio ac i leihau amharodrwydd y cyhoedd i ddefnyddio cyfleusterau o'r fath. Nododd fod arian cyhoeddus wedi cael ei ddefnyddio i ariannu toiledau mewn lleoliadau fel llyfrgelloedd, canolfannau celf, canolfannau cymunedol ac adeiladau cyngor eraill, ond bod y rhain wedi cael eu hysbysebu'n wael a'u bod yn aml yn cael eu hystyried fel toiledau nad oeddent ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio. Daeth i'r casgliad canlynol:

“In an era of very severe restraint, when the public purse is already paying for those facilities, I think part of a strategy for any local authority ought to be to make it clear that those facilities are genuinely available for the public”.<sup>414</sup>

470. Roedd Conffederasiwn GIG Cymru, y Coleg Nyrsio Brenhinol ac Age Cymru o'r farn bod angen gwneud mwy i hysbysebu lleoliad toiledau er mwyn sicrhau llwyddiant dull cydweithredol o ddarparu cyfleusterau toiled cyhoeddus. Awgrymwyd ganddynt y gellid gwneud hyn trwy:

- gynhyrchu arwyddion safonol yn dangos amseroedd agor a'r cyfleusterau sydd ar gael;<sup>415</sup>
- cyhoeddi map yn nodi lle mae'r holl doiledau cyhoeddus wedi'u lleoli, gan gynnwys eu horiau agor.<sup>416</sup>

471. Cododd Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chymdeithas y DU ar gyfer Crohn's a Cholitis bryderon am y cyfyngiadau sy'n cael eu creu, yn enwedig yn ystod y nos, gan oriau agor busnesau sy'n cymryd rhan. Amlygwyd yr angen i

---

<sup>412</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 140], 15 Gorffennaf 2015

<sup>413</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 20], 15 Gorffennaf 2015

<sup>414</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 31], 1 Gorffennaf 2015

<sup>415</sup> PHB 05 Conffederasiwn GIG Cymru a PHB 42 Age Cymru

<sup>416</sup> PHB 35 Y Coleg Nyrsio Brenhinol

awdurdodau lleol ystyried oriau agor wrth ddatblygu eu strategaethau i sicrhau y gall unigolion gael mynediad ar gyfleusterau bob amser.

### ***Barn y Pwyllgor***

472. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu mwy o gydweithrediad rhwng awdurdodau lleol a busnesau lleol i gynyddu nifer y cyfleusterau toiled sydd ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai canllawiau a gyflwynir o dan yr adran hon annog awdurdodau lleol i:

- weithio gyda busnesau sy'n cymryd rhan i sicrhau y defnyddir arwyddion priodol a/neu fod map lleol yn nodi'r holl gyfleusterau sydd ar gael i'r cyhoedd yn yr ardal yn cael ei ddatblygu;
- ystyried amseroedd agor lleoliadau sy'n cymryd rhan i sicrhau bod cyfleusterau ar gael i'r gymuned trwy gydol y dydd.

**Argymhelliad 18: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn diwygio'r Bil i gynnwys dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynyddu ymwybyddiaeth o gyfleusterau toiled trwy hyrwyddo'r ffaith eu bod ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio. Dylai hyn gynnwys diwygio'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau:**

- **bod busnesau preifat sy'n derbyn arian cyhoeddus yn cael eu hannog i agor eu cyfleusterau toiled i'r cyhoedd, a**
- **bod adeiladau a ariennir gan y cyhoedd, fel llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden, yn ei gwneud yn eglur bod eu cyfleusterau toiled ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio.**

### **Goblygiadau ariannol**

473. Byddai awdurdodau lleol yn parhau i dderbyn £200,000 sydd wedi'i gynnwys ym mhrif ffrwd y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer gwella mynediad at doiledau i'r cyhoedd. Byddai costau ychwanegol o ychydig dros £410,000 o elfen hon y Bil, a byddai awdurdodau lleol yn gyfrifol am ychydig dros £400,000 o hynny. Byddai awdurdodau lleol yn mynd i gostau yn sgil datblygu ac ymgynghori ar eu strategaeth, a rhywfaint o fân gostau ychwanegol yn sgil rheoli'r broses o ddyrannu grantiau i fusnesau sy'n caniatáu mynediad am ddim i'r cyhoedd at eu toiledau cyhoeddus.<sup>417</sup>

474. Cododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru bryderon am oblygiadau cost y darpariaethau hyn:

---

<sup>417</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Crynodeb y Gwasanaeth Iechyd o'r Bil, Gorffennaf 2015](#)

“The concern is there around the cost, both in terms of the resources to provide toilets, but, obviously, developing the strategy, publicising it, consulting on it and then implementing that and taking forward the steps that the authority would think are necessary to ensure adequate provision.”<sup>418</sup>

475. Amlygodd Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru mai un o lawer o flaenoriaethau sy'n cystadlu am adnoddau awdurdodau lleol yw darpariaeth toiledau cyhoeddus. Cododd nifer o bartïon eraill bryderon bod darpariaeth toiledau cyhoeddus yn annhebygol o gael ei gwella gan ddarpariaethau'r Bil heb adnoddau digonol. Awgrymodd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys y gallai datblygu strategaethau godi disgwyliadau pan allai'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer eu darparu fod yn brin.<sup>419</sup> Dywedodd Truckers Toilets UK bod strategaethau na ellir eu rhoi ar waith yn ddi-werth.<sup>420</sup>

476. O dan adran 93(5), byddai gan awdurdodau lleol yr opsiwn i godi ffioedd i ddefnyddio toiledau cyhoeddus er mwyn adennill y costau ychwanegol sy'n cael eu creu gan y Bil. Nid oedd Cymdeithas y DU ar gyfer Crohn's a Cholitis yn cefnogi ffioedd ar y sail y gallent gyfyngu ar hygyrchedd ac effeithio'n anghymesur ar y rhai â chyflyrau gydol oes.<sup>421</sup> Dywedodd y Gweinidog bod aelodau Senedd Pobl Hŷn Cymru yn barod i dalu ffi fach i ddefnyddio cyfleusterau ar yr amod bod y cyfleusterau'n lân ac yn cael eu cynnal a'u cadw i safon benodol.<sup>422</sup>

477. Nododd y Gweinidog ei fod yn ymwybodol o'r pryderon am oblygiadau ariannol y Bil i awdurdodau lleol. Nododd bod hyn yn cael ei ddangos gan ei benderfyniad i gyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio strategaeth ac nid dyletswydd i roi'r strategaeth ar waith:

“These are very, very tough times for local government, and we have to think very carefully indeed about placing new obligations on local authorities where our ability to fund those new obligations is equally limited. [...] If we were to place a duty on them to implement that strategy, I think we would be obliged to find the money to support that implementation, and we are not likely to be in that position.”<sup>423</sup>

---

<sup>418</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 138], 15 Gorffennaf 2015

<sup>419</sup> PHB 86 Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

<sup>420</sup> PHB 64 Truckers Toilets UK

<sup>421</sup> PHB 99 Cymdeithas y DU ar gyfer Crohn's a Cholitis

<sup>422</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 14], 21 Hydref 2015

<sup>423</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 28], 1 Gorffennaf 2015

### ***Barn y Pwyllgor***

478. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol y gallai'r cyfyngiadau sy'n wynebu awdurdodau lleol o ran adnoddau ei gwneud yn ofynnol iddynt ystyried codi ffi fach i ddefnyddio rhai cyfleusterau toiled cyhoeddus. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai unrhyw ffi fod mor fach â phosibl, er mwyn atal hyn rhag bod yn rhwystyr ariannol.

## 10. Materion heb eu cynnwys yn y Bil

---

479. Yn ogystal â chymryd tystiolaeth ar y darpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn y Bil, ceisiodd y Pwyllgor safbwyntiau am y graddau y mae'r Bil yn adlewyrchu blaenoriaethau ar gyfer gwella iechyd y cyhoedd, ac a ddylai materion eraill hefyd fod wedi cael eu cynnwys yn y Bil.

480. Cyflwynwyd y Bil yn dilyn dau gyfnod o ymgynghori gan Lywodraeth Cymru ar ddeddfu i wella iechyd y cyhoedd. Ym mis Tachwedd 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyrdd yn gofyn am sylwadau ynghylch a oedd angen bil iechyd y cyhoedd, a rôl bosibl deddfwriaeth i yrru gwelliannau yn iechyd y boblogaeth.<sup>424</sup>

481. Roedd y Papur Gwyn dilynol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2014 yn cynnwys cwestiynau ymgynghori ar fesurau iechyd cyhoeddus penodol, gan gynnwys y rhai a gwmpesir gan y Bil hwn.<sup>425</sup>

### Asesu'r effaith ar iechyd

482. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, galwodd BMA Cymru ("y BMA") am i asesiadau o'r effaith ar iechyd gael eu rhoi ar sylfaen statudol, gan nodi ei siom fod hwn wedi cael ei hepgor o'r Papur Gwyn er ei fod wedi cael ei gynnwys yn yr ymgynghoriad Papur Gwyrdd. Awgrymodd y dylai gofyniad i asesu'r effaith ar iechyd gael ei gynnwys ar wyneb y Bil, gyda'r amgylchiadau lle'r oedd angen cynnwys asesiad gorfodol o'r effaith ar iechyd i gael eu nodi mewn rheoliadau:

"In the first instance we would suggest that these regulations could require that HIA is made mandatory in relation to Strategic and Local Development Plans, certain larger scale planning applications, the development of new transport infrastructure, Welsh Government legislation, certain statutory plans such as Local Well-being Plans, new NHS developments (e.g. new hospitals) and health service reconfiguration proposals."<sup>426</sup>

483. Yn ystod tystiolaeth lafar, dywedodd Dr Stephen Monaghan ar ran y BMA wrth y Pwyllgor y collwyd cyfle i gael bil iechyd y cyhoedd gwirioneddol uchelgeisiol, a fyddai'n cael ei ganoli ar bolisi cyhoeddus iach yn gyffredinol,

---

<sup>424</sup> [Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru - Ymgynghoriad i weld beth yw barn pobl am gael Bil Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru](#), Tachwedd 2012

<sup>425</sup> [Papur Gwyn Llywodraeth Cymru - Gwrando arnoch chi: Mae eich iechyd yn bwysig](#), Ebrill 2014

<sup>426</sup> PHB 76 BMA Cymru

gan ganolbwyntio'n arbennig ar asesu'r effaith ar iechyd a defnyddio hynny fel ysgogiad. Ychwanegodd y byddai'r BMA yn cefnogi dull gweithredu yn seiliedig ar:

“setting general objectives for the health of the people on the face of the Bill and a lever of health impact assessment”.<sup>427</sup>

484. Dywedodd Dr Jane Fenton-May, a oedd yn cynrychioli Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, wrth y Pwyllgor fod angen rhagor o reolaeth dros leoliad siopau bwyd cyflym. Credai y gellid cyflawni hyn drwy gynnal asesiad iechyd i ystyried lle dylid lleoli mannau o'r fath.<sup>428</sup>

485. Dadleuwyd dros gynnwys asesiadau o'r effaith ar iechyd yn y Bil mewn ymateb ar y cyd gan 22 o sefydliadau, gan gynnwys cyrff proffesiynol a sefydliadau yn y sector gwirfoddol:

“We believe that this Bill is a real opportunity for innovative thinking and a different approach to tackling chronic conditions by encouraging healthier lifestyles and addressing some of the wider determinants of health which impacts on these. We would strongly encourage the committee to take note of the work currently undertaken by the Wales Health Impact Assessment Support Unit throughout their deliberations – particularly the Unit's recent work with several Local Authority Planning Departments across Wales”.<sup>429</sup>

486. Dywedodd Coleg Brenhinol y Meddygon ei fod o'r farn y dylai'r Bil gynnwys ymrwymiad i ddatblygu dull "iechyd ym mhob polisi", ac y dylid cynnwys darpariaeth i nodi asesiad o'r effaith ar iechyd fel gofyniad statudol yn ddiweddarach.<sup>430</sup>

### ***Rhyngweithio â deddfwriaeth arall***

487. Eglurodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod y Papur Gwyn yn amlinellu sut roedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd ar drywydd cyflawni'r ddwy nod, sef ystyried iechyd ym mhob polisi a chyflwyno mesurau ymarferol i wella iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Dywedodd bod y dull "iechyd ym mhob polisi" wedi cael ei ddilyn drwy *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*, ac mai yno y digwyddodd trafodaethau ar asesu'r effaith ar

---

<sup>427</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 7], 17 Medi 2015

<sup>428</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 33], 17 Medi 2015

<sup>429</sup> PHB 82 Ymateb ar y cyd gan 22 o sefydliadau

<sup>430</sup> PHB 25 Coleg Brenhinol y Meddygon

iechyd, tra bod y mesurau ymarferol wedi cael eu cwmpasu gan ddarpariaethau ym Mil Iechyd y Cyhoedd (Cymru). Dywedodd:

“That’s the way that health impact assessments will be taken forward, as part of the rounded assessments that that Act now requires to be undertaken when there are major developments proposed by local authorities and others.”<sup>431</sup>

488. Dywedodd Dr Julie Bishop, a oedd yn cynrychioli Iechyd Cyhoeddus Cymru, wrth y Pwyllgor y byddai'n amhosibl i un darn o ddeddfwriaeth gynnwys pob agwedd ar wella iechyd y cyhoedd. Credai y dylai'r darpariaethau ym Mil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) gael eu hystyried ochr yn ochr â gofynion *Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013* a *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*.<sup>432</sup>

489. Mae *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol* yn cynnwys "Cymru iachach" fel un o'i nodau llesiant. Bwriad datganedig y nod yw cyflawni "Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol".<sup>433</sup>

490. Dan *Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013* mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud gwelliannau i gyfleusterau a llwybrau ar gyfer cerddwyr a beicwyr a pharatoi mapiau yn nodi llwybrau cyfredol a phosibl ar gyfer eu defnyddio yn y dyfodol. Mae hefyd yn ofynnol i awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru gymryd camau rhesymol i wella'r ddarpariaeth ar gyfer cerddwyr a beicwyr mewn cynlluniau ffyrdd newydd (gan gynnwys cynlluniau gwella ffyrdd).<sup>434</sup>

491. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ei fod yn cydnabod bod *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol* yn cynnwys darpariaethau i:

“raise the profile of public health in society and increase awareness and knowledge of public health issues across government departments (national and local) and among those who develop and implement policy”.<sup>435</sup>

492. Dywedodd Dr Rodney Berman, a oedd yn cynrychioli BMA Cymru, wrth y Pwyllgor y byddai cyflwyno asesiad o'r effaith ar iechyd fel elfen orfodol

<sup>431</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 4], 21 Hydref 2015

<sup>432</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 5], 9 Gorffennaf 2015

<sup>433</sup> [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#)

<sup>434</sup> [Deddf Teithio Llesol \(Cymru\) 2013](#)

<sup>435</sup> PHB 03 Iechyd Cyhoeddus Cymru

mewn datblygiadau fel prosiectau seilwaith trafndiaeth yn sicrhau y byddai'r holl brosiectau o'r fath yn cael eu hasesu, heb ystyried a ydynt yn cael eu gweithredu i gyflawni amcanion y Ddeddf Teithio Llesol.<sup>436</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

493. Noda'r Pwyllgor yr alwad a wnaed gan randdeiliaid fod asesu'r effaith ar iechyd yn ffordd bwysig o sicrhau fod ystyriaethau ymarferol a allai effeithio ar iechyd pobl yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisïau, cynlluniau neu raglenni penodol. Mae'n cydnabod sylwadau'r Gweinidog fod goblygiadau iechyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r ystyriaethau ehangach sy'n ofynnol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ond yn nodi nad yw'r Ddeddf hon yn cynnwys cyfeiriad penodol at asesu'r effaith ar iechyd nac unrhyw ofyniad i hyn gael ei wneud. Mae'n cydymdeimlo â'r awgrym y gall asesu'r effaith ar iechyd gynnig sicrwydd ychwanegol i sicrhau bod unrhyw oblygiad o ran iechyd yn cael eu hystyried yn benodol pan fydd datblygiadau newydd yn cael eu hystyried.

**Argymhelliad 19: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn diwygio'r Bil i gynnwys gofyniad i gynnal asesiadau gorfodol o'r effaith ar iechyd wrth ddatblygu rhai polisïau, cynlluniau neu raglenni penodol. Er enghraifft, mae Cymdeithas Feddygol Prydain wedi awgrymu y dylai'r rhain gynnwys Cynlluniau Strategol a Datblygu Lleol, rhai ceisiadau cynllunio ar raddfa fwy, datblygiadau seilwaith trafndiaeth newydd, deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, rhai cynlluniau statudol penodol fel Cynlluniau Llesiant Lleol, datblygiadau newydd gan y GIG a chynigion i ad-drefnu'r gwasanaeth iechyd.**

### **Safonau maeth mewn cartrefi gofal a lleoliadau cyn-ysgol**

494. Y cynnig yr ymgynghorwyd arno yn y Papur Gwyn oedd cyflwyno safonau maeth mewn lleoliadau sector cyhoeddus penodol, fel lleoliadau cyn-ysgol a chartrefi gofal, i adeiladu ar y gwaith a wnaed yn flaenorol mewn ysgolion ac ysbytai. Dywedwyd y byddai'r safonau'n cael eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth a/neu ganllawiau.<sup>437</sup>

---

<sup>436</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 23], 17 Medi 2015

<sup>437</sup> [\*Papur Gwyn Llywodraeth Cymru - Gwrando arnoch chi: Mae eich iechyd yn bwysig\*](#), Ebrill 2014

495. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddefnyddio deddfwriaeth, ond nid y Bil hwn, i osod safonau maeth mewn lleoliadau cyn-ysgol a chartrefi gofal.<sup>438</sup>

496. Mynegodd rhai rhanddeiliaid bryder nad oedd y cynnig i gyflwyno safonau maeth mewn cartrefi gofal a lleoliadau cyn-ysgol wedi ei gynnwys yn y Bil; fodd bynnag, roeddent yn nodi ymrwymiad y Gweinidog i fynd ar drywydd y canlyniad hwn drwy ddeddfwriaeth arall.<sup>439</sup> Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, pwysleisiodd lechyd Cyhoeddus Cymru y brys i weithredu safonau o'r fath:

“Poor nutrition is among the leading causes of avoidable ill health and premature death in Wales currently. It is essential that these measures are introduced at the earliest opportunity and that they have the necessary statutory basis to ensure that implementation is comprehensive and can be ‘enforced’.”<sup>440</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

497. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod pobl o bob oed yn cael prydau bwyd maethlon, ac felly mae'n croesawu'r ymrwymiad a wnaed gan y Gweinidog i gyflwyno safonau maeth ar gyfer lleoliadau cartrefi gofal a chyn-ysgol. Byddai'r Pwyllgor yn ei annog i gadarnhau fel mater o frys sut mae'n bwriadu gweithredu safonau maeth ar gyfer cartrefi gofal a lleoliadau cyn-ysgol.

### **Gordewdra**

498. Nodwyd gordewdra gan y Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd a Choleg Brenhinol y Meddygon fel un o'r problemau iechyd y cyhoedd mwyaf a wynebier ar hyn o bryd gan y GIG yng Nghymru.<sup>441</sup>

499. Dywedodd Dr Gill Richardson, Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, wrth y Pwyllgor fod ffyrdd o fynd i'r afael â gordewdra yn cynnwys trethu bwydydd llawn egni o werth maethol isel a gwahardd traws-frasterau oherwydd eu heffeithiau carsinogenig. Roedd

---

<sup>438</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 11], 1 Gorffennaf 2015

<sup>439</sup> PHB 03 Iechyd Cyhoeddus Cymru, PHB 42 Age Cymru, PHB 57 Fforwm Iechyd y Deyrnas Unedig, PHB 67 Cyfadran Iechyd y Cyhoedd y Deyrnas Unedig, PHB 76 BMA Cymru a PHB 82 Ymateb ar y cyd gan 22 o sefydliadau

<sup>440</sup> PHB 03 Iechyd Cyhoeddus Cymru

<sup>441</sup> PHB 01 Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, PHB 02 Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd ar ran Byrddau Iechyd yng Nghymru a PHB 25 Coleg Brenhinol y Meddygon

yn cydnabod y byddai'r rhain i raddau helaeth y tu allan i gymhwysedd y Cynulliad.<sup>442</sup> Awgrymodd Julie Barratt (Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd) y gall gordewdra fod yn fater rhy fawr a chymhleth i'r Bil hwn fynd i'r afael ag ef.<sup>443</sup>

500. Dywedodd Dr Sara Hayes, Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg y byddai wedi hoffi gweld gweithgarwch corfforol yn cael ei gynnwys yn y Bil, ond nad oedd yn glir ar hyn o bryd sut y gellid gwneud hynny, ac y gall fod cyfleoedd i ddatblygu hyn drwy weithio mewn partneriaeth yn lleol, er enghraifft, yn hytrach na deddfwriaeth.<sup>444</sup>

501. Mewn ymateb i ymholiadau ynghylch gallu'r Cynulliad i ddeddfu ar drethu neu wahardd bwydydd penodol, nododd llythyr y Gweinidog i'r Pwyllgor, dyddiedig 4 Medi, nad yw materion cymhwysedd yn syml.<sup>445</sup> Esboniodd yn y llythyr na fyddai'n bosibl mynegi barn bendant ar gymhwysedd heb i ddarpariaethau gwirioneddol Deddf fod ar gael, ond nododd y byddai angen ystyried y ffactorau a ganlyn:

- i ba raddau y byddai unrhyw ddarpariaeth yn ymwneud â'r pynciau a restrir yn Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (e.e. hybu iechyd, atal, trin a lleddfu afiechydon, salwch, anafiadau, anabledd ac anhwylder meddwl; amddiffyn plant a'u llesiant; a bwyd a chynnyrch bwyd);
- i ba raddau na fyddai unrhyw ddarpariaeth yn dod dan unrhyw eithriad yn y Rhan honno (e.e. diogelu defnyddwyr);
- i ba raddau y byddai unrhyw ddarpariaeth yn anghydnaws â Hawliau'r Confensiwn neu â chyfraith yr Undeb Ewropeaidd (Dywedodd y Gweinidog ei bod yn debygol iawn y byddai unrhyw ddarpariaethau sy'n ceisio lleihau'r defnydd o gynhyrchion siwgr uchel yn golygu ymyrryd â meddiannau, sy'n dod dan gwmpas Erthygl 1 y Protocol Cyntaf, ac o bosibl, yn ymyrryd â'r hawl i ryddid mynegiant y darperir ar ei gyfer gan Erthygl 10 y Confensiwn).

502. Cydnabu'r Gweinidog y brys i roi mesurau ar waith i fynd i'r afael â phroblem gordewdra; fodd bynnag, nid oedd yn credu mai'r Bil hwn oedd y dull mwyaf priodol i gyflawni'r gwelliannau sydd eu hangen. Dywedodd:

---

<sup>442</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 138], 9 Gorffennaf 2015

<sup>443</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 6], 15 Gorffennaf 2015

<sup>444</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 131], 9 Gorffennaf 2015

<sup>445</sup> PHB AI 01 Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – 4 Medi 2015

- ei fod wedi gofyn am awgrymiadau gan sefydliadau sy'n rhanddeiliaid am y camau y gellid eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater;
- bod llawer o fentrau polisi wedi cael eu hawgrymu iddo, ond nad oeddent yn gamau a fyddai'n cael eu cyflawni orau drwy ddeddfwriaeth.<sup>446</sup>

503. Awgrymodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei fod yn bwriadu mynd ar drywydd rhai o'r awgrymiadau a wnaed drwy bolisi ac arfer yn hytrach na thrwy ddeddfwriaeth.<sup>447</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

504. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod ac yn rhannu'r pryderon a godwyd gan randdeiliaid bod angen gweithredu i fynd i'r afael â gordewdra yng Nghymru. Noda'r galwadau a wnaed i gyflwyno ffurf ar drethiant neu gyfyngiadau ar fwyd a diod sy'n cynnwys llawer o fraster a siwgr. Fodd bynnag, mae'n cydnabod y cymhlethdodau o ran cymhwysedd deddfwriaethol ar hyn o bryd pe bai'r Cynulliad yn ceisio pasio deddfwriaeth i'r perwyl hwn. Serch hynny, mae'n credu ei bod yn allweddol mynd i'r afael â gordewdra er mwyn gwella iechyd y cyhoedd yng Nghymru, ac y dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r holl ddewisiadau ynghylch mynd i'r afael â hyn fel mater o flaenoriaeth.

### **Alcohol**

505. Roedd y Papur Gwyn hefyd yn ymgynghori ar gynigion i gyflwyno isafbris uned ar gyfer alcohol yng Nghymru. Ni chafodd darpariaethau o'r fath eu cynnwys yn y Bil hwn. Ar 28 Ebrill 2015, yn ystod dadl ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru, esboniodd y Prif Weinidog:

“Er ein bod yn credu bod isafswm pris uned alcohol yn fesur iechyd cyhoeddus allweddol, ar ôl ystyried yn ofalus, ni fyddwn yn cynnwys darpariaeth yn y Bil iechyd cyhoeddus tra bod rhywfaint o ansicrwydd ynghylch amseru'r dyfarniad Ewropeaidd ar Ddeddf Alcohol (Isafswm Prisio) (yr Alban) 2012 yr Alban, ond rydym yn bwriadu cyhoeddi Bil drafft yn ymwneud ag isafswm pris alcohol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus maes o law.”<sup>448</sup>

506. Cyhoeddwyd ymgynghoriad ar ddrafft *Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol) (Cymru)* gan Vaughan Gething AC, y Dirprwy Weinidog Iechyd, ar 15

<sup>446</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 8], 21 Hydref 2015

<sup>447</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 8], 21 Hydref 2015

<sup>448</sup> Cofnod y Trafodion, Cyfarfod Llawn, 28 Ebrill 2015

Gorffennaf 2015.<sup>449</sup> Mae'r cynigion yr ymgynghorwyd arnynt yn cynnwys pennu bod gwerthu neu gyflenwi alcohol dan isafswm pris fesul uned yn drosedd, a'r pris a fyddai'n cael ei osod fyddai 50c fesul uned.

507. Amlygodd tystiolaeth ysgrifenedig gan Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd gamau i fynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol fel mater y dylid ei ystyried yn flaenoriaeth iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Dywedodd Julie Barratt, a oedd yn cynrychioli Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, wrth y Pwyllgor ei bod yn croesawu'r cynigion yn y Bil drafft fel cam enfawr ymlaen.<sup>450</sup>

### ***Barn y Pwyllgor***

508. Yn ddiweddar, mae'r Pwyllgor wedi cynnal ymchwiliad ar gamddefnyddio alcohol a sylweddau yng Nghymru, ac yn ymwybodol iawn o'r problemau hirdymor y gall camddefnyddio alcohol eu hachosi.<sup>451</sup> Yn ei adroddiad ar yr ymchwiliad hwnnw, nododd y Pwyllgor fod y rhan fwyaf o randdeiliaid yn cefnogi'r egwyddor o isafbris uned, ond roedd yn cydnabod fod gan rai bryderon. Mae'r Pwyllgor yn ailadrodd yr alwad a wnaed yn yr adroddiad hwnnw i Lywodraeth Cymru ymchwilio ymhellach i effeithiau cynigion isafbris uned ar bobl ar incwm isel cyn cyflwyno deddfwriaeth.

509. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ailadrodd yr argymhelliad a wnaeth yn yr adroddiad y dylai Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i thrafodaethau â Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gynhyrchu model pwerau a gedwir, sicrhau bod y Bil Cymru sydd ar ddod yn rhoi'r gyfres briodol o bwerau i'r Cynulliad fynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol mewn ffordd gyfannol.

---

<sup>449</sup> [Bil drafft Iechyd y Cyhoedd \(Isafbris Alcohol\) \(Cymru\)](#)

<sup>450</sup> PHB 01 Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd a Chofnod y Trafodion [paragraff 6], 15 Gorffennaf 2015

<sup>451</sup> Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, [Ymchwiliad i gamddefnyddio alcohol a sylweddau](#), Awst 2015

## **Atodiad A – Gweithdrefnau yn ymwneud â thynnu yn ôl, diwygio a chyflwyno Biliau'r Llywodraeth**

---

Yn ystod trafodaeth y Pwyllgor ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru), ystyriodd yr Aelodau a fyddai'n bosibl argymhell bod Pennod o'r Bil yn cael ei dileu a'i chyflwyno fel Bil ar wahân.

Mae'r gweithdrefnau deddfwriaethol perthnasol a ystyriwyd gan yr Aelodau wedi'u nodi isod.

### **A oes modd dileu is-raniad o Fil ar ôl iddo gael ei gyflwyno?**

Ar ôl i Fil gael ei gyflwyno, yr unig ffordd o newid y testun yw trwy welliant yn ystod cyfnod diwygio ffurfiol. Yn ystod cyfnodau diwygio, caiff yr Aelod sy'n gyfrifol, neu unrhyw Aelod arall, gyflwyno gwelliannau sy'n ceisio dileu neu ychwanegu testun, neu ddileu testun a rhoi testun newydd newydd yn ei le.

O safbwynt diwygio Bil Iechyd y Cyhoedd, er mai dim ond yng nghyd-destun gwelliannau penodol y gellir penderfynu'n bendant a ydynt yn dderbyniadwy, pe byddai'r Bil yn symud ymlaen i Gyfnod 2, mae'n debygol y byddai gwelliannau a oedd yn ceisio hepgor adrannau 2 i 21 yn dderbyniadwy.

### **A all Llywodraeth Cymru gyflwyno darpariaethau a ddilëwyd o un Bil fel Bil newydd, annibynnol?**

Mae'r Rheolau Sefydlog yn darparu y caiff Llywodraeth Cymru gyflwyno Bil ar yr amod ei fod yn cydymffurfio â gofynion y Rheolau Sefydlog, gan gynnwys:

- bod datganiad gan y Llywydd ar gymhwysedd yn cyd-fynd ag ef;
- ei fod ar gael yn Gymraeg a Saesneg;
- bod Memorandwm Esboniadol yn cyd-fynd ag ef.

Felly, ar yr amod y bodlonir y gofynion hyn, gellid cyflwyno darpariaethau a ddilëwyd o Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) fel Bil newydd, annibynnol.

### **A fyddai'n ofynnol i bwyllgor y Cynulliad gynnal proses graffu Cyfnod 1 ar ddarpariaethau a ailgyflwynwyd fel Bil ar wahân?**

Yn unol â Rheol Sefydlog 26, ni fyddai angen i un o bwyllgorau'r Cynulliad o reidrwydd gynnal proses graffu Cyfnod 1 ar Fil. Mater i'r Pwyllgor Busnes fyddai penderfynu, wrth i Fil gael ei gyflwyno, a ddylai'r egwyddorion cyffredinol gael eu cyfeirio i'w hystyried gan bwyllgor.

Pe byddai'r Pwyllgor Busnes yn penderfynu peidio â chyfeirio'r Bil at bwyllgor ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 1, byddai'r Aelod sy'n gyfrifol wedyn yn gallu cynnig y dylai'r Cynulliad, mewn Cyfarfod Llawn, dderbyn egwyddorion cyffredinol y Bil. Pe byddai'r Cynulliad yn derbyn yr egwyddorion cyffredinol, byddai'r Bil wedyn yn symud ymlaen i Gyfnod 2.

**Pe byddai'r darpariaethau penodol yn ymwneud ag e-sigaréts ym Mil lechyd y Cyhoedd (Cymru) yn cael eu cyflwyno mewn Bil ar wahân, a fyddai hynny'n golygu i bob pwrpas na ellid eu pasio cyn i'r Cynulliad gael ei ddiddymu cyn yr etholiad yn 2016?**

Nid yw'n amhosibl, ond byddai'r amserlen yn eithriadol o dynn ar gyfer cyflwyno unrhyw Fil newydd ar ôl mis Tachwedd 2015 a'i basio cyn i'r Cynulliad gael ei ddiddymu cyn yr etholiad yn 2016. Yr unig ffordd o gyflawni hynny fyddai i'r Pwyllgor Busnes benderfynu peidio â chyfeirio'r Bil perthnasol at bwyllgor ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 1.

## Atodiad B – Tystion

---

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodwyd isod. [Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar](#) ar wefan y Pwyllgor.

Cafodd y Pwyllgor hefyd sesiwn wybodaeth breifat gydag Elisabeth Jones, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 23 Medi 2015.

### **1 Gorffennaf 2015**

Mark Drakeford AC  
Dr Ruth Hussey  
Chris Tudor-Smith  
Sue Bowker  
Dewi Jones

### **Sefydliad**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Prif Swyddog Meddygol  
Llywodraeth Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Llywodraeth Cymru

### **9 Gorffennaf 2015**

Dr Julie Bishop  
Dr Quentin Sandifer  
Dr Gill Richardson  
Dr Sara Hayes

### **Sefydliad**

Iechyd Cyhoeddus Cymru  
Iechyd Cyhoeddus Cymru  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

### **15 Gorffennaf 2015**

Julie Barratt  
Robert Hartshorn  
Paul Mee  
Naomi Alleyne  
Simon Wilkinson

### **Sefydliad**

Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd  
Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru  
Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru  
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru  
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

### **17 Medi 2015**

Dr Rodney Berman  
Dr Stephen Monaghan  
Dr Jane Fenton-May  
Paul Burgess  
Andrew Rankin  
Ashton Collins  
Brett Collins  
Dr Fortune Ncube

### **Sefydliad**

BMA Cymru  
BMA Cymru  
Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu  
Cymdeithas Nyrsys Cosmetig Prydain  
Cymdeithas Nyrsys Cosmetig Prydain  
Save Face  
Save Face  
Epidemiolegydd Ymgynghorol ac Ymgynghorydd  
mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus  
Y Cyngor Aciwbigo Prydeinig

Sarah Calcott  
Lee Clements

Cymdeithas Prydain ar gyfer Tyllu'r Corff  
Ffederasiwn Prydain ar gyfer Artistiaid Tatŵ

**23 Medi 2015**

Katherine Devlin  
Tom Pruen  
Edward Woodall

**Sefydliad**

Cymdeithas Fasnach y Diwydiant Sigaréts Electronig  
Cymdeithas Fasnach y Diwydiant Sigaréts Electronig  
Cymdeithas y Siopau Cyfleus Cyf

**1 Hydref 2015**

Dr Steven Macey  
Jamie Matthews  
Yr Athro Linda Bauld  
Yr Athro John Britton

**Sefydliad**

Action on Smoking and Health (ASH) Cymru  
Action on Smoking and Health (ASH) Cymru  
Cancer Research UK  
Canolfan y DU ar gyfer Astudiaethau Tybaco ac Alcohol  
ac Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Resbiradol,  
Prifysgol Nottingham ac Ysbyty Dinas Nottingham  
Canolfan Astudio Tybaco ac Alcohol y DU, a  
chydawdur yr adroddiad *E-cigarettes: an evidence  
update* a gomisiynwyd gan Iechyd Cyhoeddus Lloegr  
BMA Cymru  
BMA Cymru  
Coleg Brenhinol y Meddygon  
Coleg Brenhinol y Meddygon  
Cyfadran Iechyd y Cyhoedd y DU

Yr Athro Peter Hajek

Dr Phil Banfield  
Dr Iain Kennedy  
Dr Alan Rees  
Beverlea Frowen  
Yr Athro Alan Maryon-  
Davis

**21 Hydref 2015**

Mark Drakford AC  
Dr. Ruth Hussey  
Chris Tudor-Smith  
Sue Bowker  
Dewi Jones

**Sefydliad**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Prif Swyddog Meddygol  
Llywodraeth Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Llywodraeth Cymru

## Atodiad C – Tystiolaeth ysgrifenedig

---

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl [ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol](#) yn llawn ar wefan y Pwyllgor.

| Sefydliad                                                                       | Cyfeirnod              |
|---------------------------------------------------------------------------------|------------------------|
| Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd                                       | <a href="#">PHB 01</a> |
| Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd ar ran Byrddau Iechyd yng Nghymru                 | <a href="#">PHB 02</a> |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru                                                          | <a href="#">PHB 03</a> |
| Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd                                                  | <a href="#">PHB 04</a> |
| Conffederasiwn GIG Cymru                                                        | <a href="#">PHB 05</a> |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru                                               | <a href="#">PHB 06</a> |
| Paul Barnes                                                                     | <a href="#">PHB 07</a> |
| Cymdeithas Prydain ar gyfer Tyllu'r Corff                                       | <a href="#">PHB 08</a> |
| Abigail Cottrill                                                                | <a href="#">PHB 09</a> |
| Carole Coote                                                                    | <a href="#">PHB 10</a> |
| Vince Jarvis                                                                    | <a href="#">PHB 11</a> |
| Cyngor Cymuned Llansteffan a Llan-y-bri                                         | <a href="#">PHB 12</a> |
| Under Age Sales Ltd                                                             | <a href="#">PHB 13</a> |
| Dr David Upton                                                                  | <a href="#">PHB 14</a> |
| Y Cyngor Aciwbigo Prydeinig                                                     | <a href="#">PHB 15</a> |
| Graham and Karen Wiseman                                                        | <a href="#">PHB 16</a> |
| Cyngor Dinas Caerdydd                                                           | <a href="#">PHB 17</a> |
| Gordon Beard                                                                    | <a href="#">PHB 18</a> |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr                                          | <a href="#">PHB 19</a> |
| Cymdeithas y Meddygon Fferyllol                                                 | <a href="#">PHB 20</a> |
| Panel Arbenigwyr Clefydau Trosglwyddadwy Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru | <a href="#">PHB 21</a> |
| Decadent Vapours Ltd                                                            | <a href="#">PHB 22</a> |
| Caroline Evans                                                                  | <a href="#">PHB 23</a> |
| Rhydian Mann                                                                    | <a href="#">PHB 24</a> |
| Coleg Brenhinol y Meddygon                                                      | <a href="#">PHB 25</a> |

|                                                                                    |                                                  |
|------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------|
| Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint                                                   | <a href="#">PHB 26</a>                           |
| Pwyllgor Fferyllol Cymru                                                           | <a href="#">PHB 27</a>                           |
| Cytûn                                                                              | <a href="#">PHB 28</a>                           |
| Sefydliad a Chymdeithas Electrolysis Prydain                                       | <a href="#">PHB 29</a>                           |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro                                            | <a href="#">PHB 30</a>                           |
| Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru                                             | <a href="#">PHB 31</a>                           |
| Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru                                                         | <a href="#">PHB 32</a>                           |
| Cymdeithas Nyrsys Cosmetig Prydain                                                 | <a href="#">PHB 33</a>                           |
| Comisiynydd y Gymraeg                                                              | <a href="#">PHB 34</a>                           |
| Y Coleg Nyrsio Brenhinol                                                           | <a href="#">PHB 35</a>                           |
| Cyfadrn Llawfeddygaeth Ddeintyddol, Coleg Brenhinol y Llawfeddygon<br>Robert Heyes | <a href="#">PHB 36</a><br><a href="#">PHB 37</a> |
| Y Gymdeithas Cwmnïau Fferyllol                                                     | <a href="#">PHB 38</a>                           |
| Counterfactual                                                                     | <a href="#">PHB 39</a>                           |
| Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu                                                   | <a href="#">PHB 40</a>                           |
| Uned Gyswllt yr Heddlu                                                             | <a href="#">PHB 41</a>                           |
| Age Cymru                                                                          | <a href="#">PHB 42</a>                           |
| Cancer Research UK                                                                 | <a href="#">PHB 43</a>                           |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda                                                   | <a href="#">PHB 44</a>                           |
| Margaret Hermon                                                                    | <a href="#">PHB 45</a>                           |
| Save Face                                                                          | <a href="#">PHB 46</a>                           |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili                                                 | <a href="#">PHB 47</a>                           |
| ASH Cymru                                                                          | <a href="#">PHB 48</a>                           |
| Owain Rowley-Conwy                                                                 | <a href="#">PHB 49</a>                           |
| Cymdeithas Fasnach y Diwydiant Sigarêts Electronig (ECITA)                         | <a href="#">PHB 50</a>                           |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful                                            | <a href="#">PHB 51</a>                           |
| Cyngor Trydydd Sector Caerdydd (gyda mewnbwn gan GVS)                              | <a href="#">PHB 52</a>                           |
| Cymdeithas Toiledau Prydain                                                        | <a href="#">PHB 53</a>                           |
| Jonathan Edwards                                                                   | <a href="#">PHB 54</a>                           |
| Y Fforwm Ymataliaeth Pediatrig                                                     | <a href="#">PHB 55</a>                           |

|                                                         |                        |
|---------------------------------------------------------|------------------------|
| Pwyllgor Deintyddol Cymru                               | <a href="#">PHB 56</a> |
| Fforwm Iechyd y DU                                      | <a href="#">PHB 57</a> |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam                        | <a href="#">PHB 58</a> |
| Gower Enterprises Limited                               | <a href="#">PHB 59</a> |
| Helen Smith                                             | <a href="#">PHB 60</a> |
| Cynghrair Newydd y DU ar Nicotin                        | <a href="#">PHB 61</a> |
| Y Ganolfan Ymchwilio i Gamddefnyddio Cyffuriau          | <a href="#">PHB 62</a> |
| Un Llais Cymru                                          | <a href="#">PHB 63</a> |
| Truckers Toilets UK                                     | <a href="#">PHB 64</a> |
| Y Gyngrair Iechyd Alcohol                               | <a href="#">PHB 65</a> |
| Nicoventures                                            | <a href="#">PHB 66</a> |
| Cyfadrn Iechyd y Cyhoedd y DU                           | <a href="#">PHB 67</a> |
| Martin Hensman LLB (Anrh)                               | <a href="#">PHB 68</a> |
| Sefydliad Bevan                                         | <a href="#">PHB 69</a> |
| Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi                     | <a href="#">PHB 70</a> |
| Fontem Ventures                                         | <a href="#">PHB 71</a> |
| Totally Wicked Ltd                                      | <a href="#">PHB 72</a> |
| Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain                    | <a href="#">PHB 73</a> |
| Y Gymdeithas Siopau Cyfleustra                          | <a href="#">PHB 74</a> |
| Coleg Brenhinol y Bydwagedd                             | <a href="#">PHB 75</a> |
| BMA Cymru                                               | <a href="#">PHB 76</a> |
| Forest                                                  | <a href="#">PHB 77</a> |
| Cymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd                | <a href="#">PHB 78</a> |
| Philip Morris Limited                                   | <a href="#">PHB 79</a> |
| Prifysgol De Cymru - Yr Ysgol Gwyddorau Bywyd ac Addysg | <a href="#">PHB 80</a> |
| Cyngor Gwynedd                                          | <a href="#">PHB 81</a> |
| Ymateb ar y cyd gan 22 o sefydliadau                    | <a href="#">PHB 82</a> |
| Cymdeithas Fasnach Wroleg                               | <a href="#">PHB 83</a> |
| Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol                        | <a href="#">PHB 84</a> |
| Celesio UK a Lloyds Pharmacy                            | <a href="#">PHB 85</a> |

|                                                     |                         |
|-----------------------------------------------------|-------------------------|
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys                          | <a href="#">PHB 86</a>  |
| Japan Tobacco International                         | <a href="#">PHB 87</a>  |
| Y Sefydliad Iechyd Meddwl                           | <a href="#">PHB 88</a>  |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru                              | <a href="#">PHB 89</a>  |
| Ffederasiwn Cenedlaethol Manwerthwyr Papurau Newydd | <a href="#">PHB 90</a>  |
| Y Ffederasiwn Busnesau Bach                         | <a href="#">PHB 91</a>  |
| Cyngor Sir Powys                                    | <a href="#">PHB 92</a>  |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf          | <a href="#">PHB 93</a>  |
| Coleg Brenhinol y Seiciatryddion                    | <a href="#">PHB 94</a>  |
| Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol                    | <a href="#">PHB 95</a>  |
| Gofal Cancer Tenovus                                | <a href="#">PHB 96</a>  |
| Y Cymdeithas Gwneuthurwyr Tybaco                    | <a href="#">PHB 97</a>  |
| Y Gynghair Manwerthwyr Tybaco                       | <a href="#">PHB 98</a>  |
| Cymdeithas y DU ar gyfer Crohn a Cholitis           | <a href="#">PHB 99</a>  |
| Yr Awdurdod Safonau Hysbysebu                       | <a href="#">PHB 100</a> |
| Sefydliad Prydeinig y Galon                         | <a href="#">PHB 101</a> |
| Pwyllgor Meddygol Cymru                             | <a href="#">PHB 102</a> |
| Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru                      | <a href="#">PHB 103</a> |
| Dee Yeoman                                          | <a href="#">PHB 104</a> |
| Undeb y Diwydiant Tatŵio a Thyllu'r Corff           | <a href="#">PHB 105</a> |

**Derbyniwyd gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol gan y sefydliadau a'r unigolion a ganlyn**

|                                                            |                           |
|------------------------------------------------------------|---------------------------|
| Y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol 4 Medi 2015        | <a href="#">PHB AI 01</a> |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru                                     | <a href="#">PHB AI 02</a> |
| BMA Cymru                                                  | <a href="#">PHB AI 03</a> |
| Cymdeithas Fasnach y Diwydiant Sigaréts Electronig (ECITA) | <a href="#">PHB AI 04</a> |
| Cyfadran Iechyd y Cyhoedd y DU                             | <a href="#">PHB AI 05</a> |
| Cymdeithas y DU ar gyfer Crohn a Cholitis                  | <a href="#">PHB AI 06</a> |
| BMA Cymru                                                  | <a href="#">PHB AI 07</a> |
| Y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol - 23 Hydref 2015   | <a href="#">PHB AI 08</a> |
| Y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol - 31 Hydref 2015   | <a href="#">PHB AI 09</a> |

|                                                                    |                                     |
|--------------------------------------------------------------------|-------------------------------------|
| Y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol - 31 Hydref 2015 (Atodiad) | <a href="#">PHB AI 09 (Atodiad)</a> |
| Y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol - 10 Tachwedd 2015         | <a href="#">PHB AI 10</a>           |
| Y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol - 17 Hydref 2015           | <a href="#">PHB AI 11</a>           |
| Y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol - 17 Hydref 2015 (Atodiad) | <a href="#">PHB AI 11 (Atodiad)</a> |

## Atodiad Ch – Gweithgarwch ymgysylltu

---

Er mwyn casglu barn pobl ar bob agwedd ar y Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru), cynhaliodd y Pwyllgor arolwg cyhoeddus yn ystod haf 2015. Mae [adroddiad cryno](#) o'r canlyniadau ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Casglodd y Pwyllgor hefyd farn y rheini sy'n gweithio yn y diwydiant mewn perthynas â'r darpariaethau yn Rhan 3 (gweithdrefnau arbennig) ar gyfer [fideo](#). Mae [gwybodaeth gefndir am y cyfranogwyr](#) ar gael ar wefan y Pwyllgor.